8.3 Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma. Yn wir, yn absenoldeb unrhyw ddatganiad gan Llywodraeth Cymru am grantiau i'r dyfodol, mae'r risg wedi cynyddu. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol yn fwy perthnasol.

8.4 Fodd bynnag yn wyneb y bwlch ariannol fyddai gennym, ac er mwyn cael amser i ystyried er mwyn blaenoriaethu'r toriadau mewn modd cynhwysol, argymhellir ein bod yn defnyddio rhwng £1.7m a £2.6m o falansau cyffredinol i bontio hyd nes y bydd modd darganfod gweddill yr arbedion angenrheidiol yn 2016/17.

8.5 Mae gennym nifer o reserfau penodol a sefydlwyd gan y Cyngor sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol sydd gan y Cyngor. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor wrth gwrs. Er mwyn sicrhau fod pob aelod o'r Cyngor yn ymwybodol ohonynt, atodir dadansoddiad yn Atodiad 2.

8.6 Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, wrth gwrs, ac wedi ystyried faint o le sydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma, gan nodi lle nad ydym am gyflawni rhai bwriadau gwreiddiol, a symud unrhyw adnoddau a ryddheir i gwrdd â'r anghenion am adnodd i ariannu taliadau diswyddo.

8.7 Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (cyhoeddwyd 27 Ionawr 2014), mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan (ym mharagraff 1.8):

> "Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar

rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."

8.8 Felly, dylid osgoi gwario'r balansau cyffredinol (cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy) yn "rheolaidd" i ymdrin â diffyg yn y gyllideb. Fodd bynnag, cyn belled ag y bydd Cyngor Gwynedd yn cymryd ei benderfyniadau anodd yn ystod 2015 er mwyn cyrraedd cyflwr cynaliadwy yn y tymor canolig, yna bydd y defnydd arfaethedig o gyfran o'r balansau cyffredinol yn ystod 2015/16 yn arfer dda.

9 CYFALAF

9.1 Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau.

9.2 Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau yn cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), rwyf wedi cynnal adolygiad ysgafn o'r Strategaeth Asedau.

9.3 O ganlyniad, rwyf wedi addasu ychydig ar yr hyn a gytunwyd y llynedd er mwyn adlewyrchu rhai newidiadau angenrheidiol sy'n codi, oherwydd newid yn y proffil arfaethedig ar gyfer cynlluniau unigol. Manylir ar rhain yn Atodiad 3 sy'n nodi'r newidiadau arfaethedig.

9.4 Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

Tabl 3
Ariannu rhaglen gyfalaf 2015/16 – 2016/17

	2015/16	**2016/17**
	£'000	**£'000**
Gofynion Cyfalaf	**19,179**	**21,270**
I'w ariannu drwy:		
Darpariaeth cyfalaf yn y setliad	6,637	6,637
Grant tuag at ysgolion	5,503	5,514
Derbyniadau cyfalaf	930	230
Cyfraniad o refeniw	3,860	1,245
Benthyca darbodus	2,249	7,644
Cyfanswm ariannu	**19,179**	**21,270**

9.5 Un agwedd o'r cynigion cyllido yw lefel y gwariant cyfalaf sydd yn parhau i gael ei ariannu o'i gymharu gyda'r gefnogaeth benodol a ddarperir yn y setliad. Mae hyn yn dangos y budd o gael cynllun hir dymor drwy'r strategaeth asedau sy'n caniatáu i ni lunio rhaglen hir dymor a cheisio uchafu'r budd a geir o fuddsoddiad cyfalaf y gellir ei wneud o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

B) STRATEGAETH ARIANNOL TAIR BLYNEDD 2015/16 - 2017/18

10 CYNLLUN I DDYGYMOD Â'R BWLCH ARIANNOL 2015/16 - 2017/18

10.1 Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed, a hyn mewn gwirionedd sy'n golygu ein bod yn medru prynu ychydig o amser er mwyn penderfynu lle yw'r mannau gorau i fod yn cyflawni arbedion er mwyn sicrhau'r ardrawiad lleiaf posibl ar bobl Gwynedd. Nid pob Cyngor sydd mewn sefyllfa i fedru gwneud hyn.

10.2 Fe nodwyd ymarferion Cyngor Gwynedd fel enghraifft o ymarfer da mewn adroddiad cenedlaethol ar gynllunio ariannol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru.

10.3 Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2015/16, gwnaed ymdrech i daflunio sefyllfa ariannol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd, fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2015/16 yn ei gyd-destun ehangach a chynllunio sut yr ydym am fedru cwrdd â'r sialens o'n blaenau.

10.4 Y ffigwr sydd fwyaf ansicr yw'r ffigwr grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2016/17 ymlaen. Gan fod y grant yn cynrychioli tua 75% o incwm y Cyngor, yn amlwg mae'r ffigwr yma yn allweddol i'r tafluniadau. Gwyddom o ddatganiadau'r Canghellor a datganiadau a wnaed gan Weinidogion yn Llywodraeth Cymru fod dyfodol heriol o flaen Llywodraeth Leol yng Nghymru.

10.5 Mae'r strategaeth ar gyfer y dair blynedd i ddod yn gosod darlun realistig o'r hyn allasai ein taro, ond nid yw'r tybiaethau a ddefnyddiwyd na'r casgliadau wedi newid ers y tafluniad cyflwynwyd yn Chwefror a Medi 2014.

10.6 Nodir yn y tabl isod canlyniadau'r tafluniadau a wnaed, gan nodi'r arbedion hynny sydd eisoes yn cael eu cynllunio a'u gwireddu:

Tabl 4
Tafluniad cynllunio ariannol ar gyfer y 3 blynedd 2015/16 – 2017/18

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m
Gofynion Gwario ychwanegol	6.4	6.1	10.2	6.7	29.4
Colled (cynnydd) grant	6.7	7.1	3.5	6.1	23.4
Y Bwlch	13.1	13.2	13.7	12.8	52.8
Treth Cyngor	-2.7	-2.5	-1.9	-2.0	-9.1
Diffyg Cynlluniedig	10.4	10.7	11.8	10.8	43.7
Hen Gynlluniau Arbedion	-8.6	-0.5	-0.2	0.0	-9.3
Cynlluniau Arbedion newydd	0.0	-8.2	-2.7	-3.8	-14.7
I'w ddarganfod / defnydd balansau	1.8	2.0	8.9	7.0	19.7
					34.4

10.7 Adroddwyd flwyddyn yn ôl y gallasem fod yn wynebu bwlch ariannol o dros £51m dros y cyfnod 4 blynedd 2014/15 – 2017/18 gyda thafluniadau gostyngiadau grant yn gyfrifol am £20m o'r swm yma. Erbyn hyn, disgwylir colled grant dros £2.3m, felly mae'r bwlch wedi tyfu i tua £53m.

10.8 Pe byddai'r Cyngor yn fodlon cynyddu'r Dreth Cyngor 4.5% yn 2015/16 a 3.5% yn 2016/17 a 2017/18, gyda'r camau y bwriedir eu cymryd ynghyd â'r arbedion sydd eisoes yn cael eu gwireddu, byddai hyn dal yn golygu ein bod angen edrych am arbedion ychwanegol cyfwerth â thua £34m yn y tair blynedd o 2015/16 ymlaen.

10.9 Ar sail cynllunio y byddwn dal angen darganfod tua £34m dros y dair blynedd felly. Yn ystod 2015, wrth flaenoriaethu toriadau, bydd angen dod i gasgliad ar y cynnydd tybiedig yn y Dreth Gyngor am y blynyddoedd i ddod. A ydym am gadw at ein strategaeth o gynyddu'r Dreth Gyngor 3.5%, ynteu a ydym am ei gynyddu ymhellach yn wyneb goblygiadau darganfod bwlch ariannol mor enfawr ar ein gwasanaethau?

10.10 Rydym eisoes wedi gofyn i ysgolion ysgwyddo gwerth £4.3m o'r bwlch ac wrthi'n uchafu'r arbedion effeithlonrwydd gallwn eu darganfod, ond am orfod disgyn yn ôl ar doriadau fel y cam olaf (er mwyn sicrhau'r effaith lleiaf ar bobl Gwynedd).

Tabl 5
Dygymod a bwlch o £34m
Senarios Posibl 2015/16 – 2017/18

	Effeithlonrwydd eisoes wedi'i gymeradwyo	**Effeithlonrwydd ychwanegol**	**Cadw pob opsiwn yn agored**
Treth Cyngor	-	-	£2m
Ysgolion	£1m	£4m	£4m
Effeithlonrwydd	£13m	£17m	£17m
Toriadau	£20m	£13m	£11m
	£34m	£34m	£34m

10.11 Argymhellir felly ar hyn o bryd y dylid parhau i gadw'r holl opsiynau ar agor a gweithredu tu fewn i'r fframwaith canlynol:

Polisi Treth Cyngor	Ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor o fewn amrediad 3.5% - 5%
Y Gyllideb Ysgolion	Rhoddi targed £4.3m i'r gyllideb ysgolion
Arbedion Effeithlonrwydd	Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu
Toriadau	Ffigwr fydd ar ôl

10.12 Wrth bontio diffyg 2015/16 o'r balansau, bydd rhaid i ni sicrhau ein bod yn symud ymlaen yn 2015 i sefydlu blaenoriaethau gan fydd angen disgyn yn ôl ar doriadau mewn blynyddoedd dilynol.

10.13 Dylem ymfalchïo yn y ffaith fod trefniadau cynllunio ymlaen llaw'r Cyngor yn golygu nad ydym eto yn gorfod wynebu toriadau - sefyllfa nad yw'n wir ymhob Cyngor, ond rhaid wynebu'r ffaith y byddwn yn wynebu hynny yn y tymor canol, yn enwedig os yw grant llywodraeth leol yn parhau i ostwng.

10.14 Felly, bydd angen i'r Cabinet fanteisio ar gyfleon sy'n codi yn y cyfamser i wireddu arbedion, megis y "toriadau cynnar" crybwyllir uchod, yr Adolygiad Strategol Prifyrdd, a.y.b.

11 ASESIAD EFFAITH O SAFBWYNT CYDRADDOLDEB

11.1 Mae'r gyllideb a amlinellir uchod yn ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan nad yw'r cynnydd yn ein hincwm yn ddigonol i gwrdd â chostau chwyddiant hyd yn oed, mae'n rhaid edrych am arbedion.

11.2 Yn y maes arbedion felly mae'r risg uchaf o ran y posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol eisoes wedi adnabod y risg yma ac ers 2010 wedi atgoffa awdurdodau lleol o'u dyletswydd i asesu effaith eu penderfyniadau ariannol.

11.3 Byddwn yn parhau i ddatblygu ein trefniadau ar gyfer asesu effaith cydraddoldeb ar benderfyniadau ariannol mewn cydweithrediad a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac awdurdodau lleol eraill, a hynny drwy rannu ymarfer da ac adnabod camau effeithiol i'r dyfodol.

11.4 Ein nod yw sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Wrth asesu, byddwn yn ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu.

11.5 Wrth gynllunio ein cyllidebau, rhoddir ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol, ac yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol. Casglwyd data a thystiolaeth eisoes ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a byddwn yn parhau i adeiladu ar yr wybodaeth yma drwy ddadansoddi data newydd (megis canlyniadau Cyfrifiad 2011), monitro gwasanaethau ac ymgysylltu.

11.6 Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod unrhyw arbedion sydd eu hangen sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith unrhyw arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Byddwn yn dadansoddi pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen i'r adran gynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect. Yn unol â chais y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, byddwn yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar y broses yma ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan.

11.7 Yr un eithriad i hyn yw'r arbedion Ysgolion. Oherwydd amseriad diweddar cyflwyno'r cynigion, byddwn yn adrodd ar lafar ar hyn yn y cyfarfod.

11.8 Nid ceisio cwrdd â chostau chwyddiant yn unig y mae'r gyllideb uchod wrth gwrs, mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau a.y.b., hefyd yn cael eu cyfarch.

11.9 Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod angen sicrhau cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.

11.10 Fe geir manylion llawn yn Atodiad 1 ac fe welir fod yna £658,000 o'r cyfanswm £876,000 yn mynd i faes gofal cymdeithasol, a hynny ar ben yr £460,000 arian demograffi a ddarperir er mwyn cydnabod yr angen i ddarparu ar gyfer niferoedd uwch yn y maes.

12 CASGLIADAU

12.1 Mae'r adroddiad yma yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2015/16 ac yn cadarnhau dylid parhau gyda'r strategaeth ar gyfer dygymod a'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor am y dair blynedd i ddod.

CYLLIDEB 2015/16

12.2 Argymhellir fod angen cyfarch angen gwario refeniw o £236.82m sydd yn cynnwys darparu £876,000 ar gyfer pwysau ar wasanaethau.

12.3 Darperir hefyd ar gyfer pwysau un-tro o £373,000 drwy briodoli'r cyfan o'r gyllideb wrth gefn i'r perwyl.

12.4 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £168.31m a gydag incwm Treth Cyngor heb ei gynyddu o gwbl o £55.37m bydd hyn yn gadael bwlch o £13.14m i'w ddarganfod yn 2015/16.

12.5 Bydd modd dygymod a'r bwlch yma drwy gyfuniad o gamau fel a ganlyn:

Cynnydd Treth Cyngor %	3.50%	4.00%	4.50%	5.00%
Anghenion Gwario 2015/16	£236,819,647	£236,819,647	£236,819,647	£236,819,647
Llai incwm Grant y Llywodraeth	£168,311,989	£168,311,989	£168,311,989	£168,311,989
Llai incwm Treth Cyngor	£57,308,682	£57,585,535	£57,862,389	£58,139,242
Diffyg	£11,198,976	£10,922,123	£10,645,269	£10,368,416
Arbedion fydd wedi'u cyflawni	£8,626,587	£8,626,587	£8,626,587	£8,626,587
Y balans i'w gwrdd o Falansau	£2,572,389	£2,295,536	£2,018,682	£1,741,829

12.6 Gellid pontio'r gweddill o falansau hyd nes y byddwn yn medru blaenoriaethu toriadau i'w gyfarch.

12.7 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net ar ôl defnydd balansau o £228,193,060.

12.8 Rhoddir dadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 4.

12.9 Argymhellir hefyd y dylid sefydlu rhaglen gyfalaf o £19.18m ar gyfer 2015/16 ynghyd a £21.27m ar gyfer 2016/17.

STRATEGAETH TYMOR HIRACH

12.10 O ran y sefyllfa dros y dair blynedd nesaf, dylid cynllunio i ddarganfod y bwlch ariannol o dros £34m a daflunnir drwy gadw'r holl opsiynau yn agored (gan gynnwys y posibilrwydd o gynyddu'r Dreth Cyngor yn uwch na 3.5% a darganfod arbedion o'r gyllideb ysgolion) a dylid parhau i anelu i ddarganfod mwyafrif y bwlch drwy uchafu'r arbedion effeithlonrwydd gallwn eu gwireddu.

12.11 Dylid sefydlu cyfundrefn gynhwysol ar gyfer blaenoriaethu ymhle y bydd rhaid i ni dorri gwasanaethau.

12.12 Yn y cyfamser, y dylid manteisio ar unrhyw gyfle sy'n codi i wireddu arbedion.

ATODIAD 1

BIDIAU I'W CYMERADWYO AR GYFER 2014/2015

A. BIDIAU REFENIW PARHAOL

Cyf	Cynnwys y Bid	Swm	Argymhelliad	Swm a argymhellir
OED 1	**Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid** Cais yn sgil cynnydd yn y nifer o unigolion sydd angen asesiadau naill ai mewn cartrefi gofal neu yn y gymuned er mwyn awdurdodi'r camau a gymerir i'w diogelu. Y cais yn cynnwys cost cyd drefnydd £48k, cyfreithiwr a chefnogaeth weinyddol £54k, costau cyfreithiol £47k a chostau asesiadau meddygol £37k.	£186,000	Argymell ariannu'r costau canlynol sef £49k – cyfreithiwr; costau cyfreithiol £47k a £47K costau asesiadau meddygol er mwyn cyfarfod y cynnydd enfawr yn y gofyn am asesiadau.	£133k
OED 2	**Trosglwyddo cyfrifoldeb am wasanaeth ym maes Anabledd Dysgu** Trosglwyddo cyfrifoldeb am 3 pecyn gofal i Wynedd o awdurdodau eraill ar sail 'Ordinary Residence'.	£163,000	Argymell cymeradwyo'r bid i gyfarfod y cyfrifoldeb.	£163,000
OED 3	**Oed Trosglwyddo** Ariannu pecynnau gofal i 12 unigolyn sy'n trosglwyddo o'r Gwasanaeth Plant i'r Gwasanaeth Oedolion Anabledd Dysgu	£242,000	Argymell cymeradwyo'r bid ond dylid gwirio effaith net ar niferoedd plant o fewn gofal yr Adran Plant a Theuluoedd.	£242,000
OED 4	**Achos Whittlestone** Mae achos llys Whittlestone wedi dyrannu bod unrhyw oriau a dreulir yn 'cysgu i mewn' yn rhan o oriau gwaith wythnosol gweithiwr. Ar sail hyn rhagwelir nad yw'r lwfansau cysgu i mewn a delir ar hyn o bryd yn ddigonol ac amcangyfrifir y gallai hyn fod yn gost ychwanegol o hyd at £688,000.	£688,000	Tra'n cydnabod bod risg ynghlwm â'r achos llys, nid yw'n glir ar hyn o bryd beth yw'r effaith. Argymell peidio ariannu'r bid gan bod angen mwy o eglurder ar ddatrysiadau posib.	

Cyf	Cynnwys y Bid	Swm	Argymhelliad	Swm a argymhellir
OED 5	**Gorwariant ym maes Gofal Cartref**	£526,000	Argymell cymeradwyo'r swm o £120k sef y diffyg yn dilyn ychwanegu arian demograffi at y gyllideb.	£120,000
SaG 1	**Swyddog Chwarae Gwynedd a Môn** Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i sicrhau cyfleon chwarae digonol i blant. Cyngor Môn eisoes wedi gwrthod ariannu'r swydd.	£28,000	Argymell peidio ariannu'r bid ond rhaid sicrhau bod y Cyngor yn cyfarfod y gofyn statudol yn y maes.	
Cyll 1	**Datganiadau ariannol ar gyfer cydbwyllgorau ac awdurdodau harbyrau** Ariannu costau ychwanegol y gofyn am archwilio a chefnogi cyfrifeg datganiadau ariannol cyd bwyllgorau ac awdurdodau harbyrau	£33,000	Argymell gwrthod y bid a nodi y gall y gofyn diddiwedd sydd ar yr Adran Gyllid effeithio ar ansawdd dyletswyddau eraill yn y pen draw.	
Cyll 2	**Cryfhau adnoddau sy'n cefnogi Technoleg Gwybodaeth** Cais i ariannu mwy o gefnogaeth TG i liniaru'r risg i'r Cyngor yn y maes hwn yn sgil y ddibyniaeth i gyflawni dyletswyddau a'r cynnydd sylweddol mewn defnydd. Ers 2003, mae niferoedd y cyfarpar mae'r tîm isadeiledd yn cefnogi wedi cynyddu'n sylweddol, twf 296% mewn cyfrifiaduron, 680% yn fwy o weinyddwyr 'servers', twf 3,200% yn y storfa data, a 280% mwy o sefydliadau'r Cyngor wedi eu cysylltu i'r rhwydwaith ardal eang. Mae'r dechnoleg sy'n cael ei defnyddio yn llawer mwy cymhleth. Mae'r sefyllfa bellach yn argyfyngus a risg gwirioneddol i'r Cyngor o ran cefnogaeth i'r dechnoleg cyfredol, ac yn golygu na ellir cefnogi unrhyw ddatblygiadau pellach yn y maes technoleg. Mae achos busnes yn amlinellu'r newid arfaethedig o ran swyddi.	£335,000	Argymell cymeradwyo rhan o'r bid £156k yn unig er mwyn dechrau mynd i'r afael â gwytnwch y gwasanaeth a chreu 4 swydd newydd.	£156,000

Cyf	Cynnwys y Bid	Swm	Argymhelliad	Swm a argymhellir
Priff 1	**Llwybrau beics** Glanhau, cynnal thorri gwrychoedd llwybrau beics y Sir	£15,000	Argymell gwrthod y bid gan mai cynnydd mewn gwasanaeth sydd dan sylw.	
Add 1	**Cynnydd net yng nghostau cludiant disgyblion/myfyrwyr** Mae cytundebau cyfredol Ionawr 2015 (ar sail 188 diwrnod yn y flwyddyn gyllidol 2015/16) yn dangos diffyg net yn y gyllideb tacsi/bws mini o £220k. Ar sail cytundebau bysiau cyfredol, rhagwelir tan wariant o £97k . Effaith net hyn yw cynnydd o £123k ond yn dilyn herio pellach gan yr Uned Gyllid, maint y bid yn gostwng i £62K	£62,000	Argymell ariannu'r bid i gyfarfod y cynnydd yng nghostau **cludiant** disgyblion/myfyrwyr.	£62,000
Cyfanswm		**£2,278,000**	**Cyfanswm**	**£876,000**

B. BIDIAU CYFALAF

Cyf	Cynnwys y Bid	Swm	Argymhelliad	Swm a argymhellir
AD 1	**Diogelwch tu fewn i safleoedd ysgolion** Cais i ariannu astudiaeth dichonoldeb er mwyn adnabod gwaith angenrheidiol yn Ysgol Dyffryn Nantlle a mân waith cyffredinol.	£60,000	Argymell gwrthod y bid gan fod camau eisoes mewn lle i gyfarch y risg.	
Econ 1	**Cronfa Datblygu Gwirfoddol** Arian tuag at gefnogi prosiectau cyfalaf gan fudiadau a mentrau cymdeithasol a gwirfoddoli. Rheolir y gyllideb dan frand llwyddiannus Cist Gwynedd. Mae Cist Gwynedd yn cynnwys pecyn o grantiau i gefnogi gweithgareddau cymunedol a gwirfoddol.	£140,000	Angen trafodaeth bellach yn y Cabinet cyn penderfynu.	£140,000
Econ 2	**Tomen Y Bala** Cais am arian i ail godi'r wal gynhaliol sydd wedi disgyn mewn mannau ac yn beryglus i'r cyhoedd. Mae angen cadarnhau'r anghenion, datblygu briff, a chael tendrau gan gynnwys paratoi cynlluniau manwl a sicrhau bod hawliau cynllunio yn eu lle. Noder bod Cadw wedi cytuno yn barod ond angen mewnbwn i'r prosiect. Nid oes cyllideb ar gyfer Tomen Y Bala ac mae'n llwyr ddibynnol ar grantiau/cyllid canolog i gwblhau'r gwaith.	£40,000	Argymell ariannu'r bid er fod y domen ar dir preifat gan mai cyfrifoldeb y Cyngor yw'r wal.	£40,000
Cyfanswm		**£240,000**	**Cyfanswm**	**£180,000**

C. BIDIAU AM ARIAN UNWAITH AC AM BYTH

Cyf	Cynnwys y Bid	Swm	Argymhelliad	Swm a argymhellir
SaG	**System Cefnogi Rheoli Perfformiad** Cais i ariannu system rheoli perfformiad newydd i'r Cyngor. Nid yw'r hen system, sef Ffynnon, bellach ar gael am ddim gan Lywodraeth Cymru.	£150,000	Angen trafodaeth bellach yn y Grŵp Rheoli cyn penderfynu.	£150,000
SaG 2	**Cynnal e-newyddlen 'Rhaeadr'** Cynnal y datblygiadau newydd i gyfathrebu am waith y Cyngor a'r Cabinet i'r aelodau etholedig rheng flaen sef 'Rhaeadr'	£35,000	Argymell ariannu'r bid am flwyddyn a chaniatáu amser i'r Gwasanaeth ystyried ffyrdd amgen o ddarparu.	£35,000
Add 1	**Cludiant Maesgeirchen** Cais am arian i bontio'r gorwariant sy'n deillio o barhau gyda'r trefniadau cludiant presennol hyd nes bod datrysiad amgenach wedi'i ddarganfod.	£120,000	Argymell ariannu'r bid er mwyn caniatáu amser i'r Adran Rheoleiddio gwblhau'r adolygiad o gludiant cyhoeddus.	£120,000
Add 2	**Gorwariant ar y Gyllideb Integreiddio** Amcangyfrifir y bydd y gyllideb Integreiddio o £5.8m (sydd yn nwylo ysgolion) yn gorwario oddeutu £750,000 yn 2015-16, gyda'r drefn weithredu bresennol yn gadael unrhyw orwariant yn nwylo'r Adran Addysg. Nid yw Ysgolion wedi derbyn rhagrybudd o'r gorwariant ac mae'n rhy hwyr iddynt weithredu lleihad mewn gwariant ar gyfer gychwyn Tymor yr Haf 2015. Byddai cymeradwyo'r bid yn galluogi ysgolion i gynllunio i leihau gwariant ar gyfer 1 Medi 2015.	£312,000	Argymell fod yr Adran Addysg yn cyfarfod y gorwariant yn 2015/16 o gyllidebau wrth gefn.	

Cyf	Cynnwys y Bid	Swm	Argymhelliad	Swm a argymhellir
AD 1	**Iechyd Galwedigaethol** Cais am flwyddyn i barhau i gyllido swydd i gynnal Darpariaeth Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Gwyliadwriaeth Iechyd Statudol ar gyfer staff ar gyfer cyflawni dyletswyddau megis cynnal profion iechyd a lles, prosesu ceisiadau ymddeol ar sail afiechyd a chynnal ymgynghoriadau sylfaenol gyda staff. Mae'r Uned hefyd yn darparu gwyliadwriaeth iechyd statudol ar gyfer carfannau penodol ymysg gweithlu'r Cyngor megis gweithwyr ffyrdd cyflym, gweithwyr ail gylchu a chasglu sbwriel, cynnal tiroedd yn ogystal ag unrhyw weithwyr nos. Arian wrth gefn wedi ariannu'r swydd yn y gorffennol.	£31,000	Argymell cymeradwyo'r swm o £31k ar gyfer 2015/16 er mwyn caniatáu amser i'r Adran roi trefniadau mewn lle i flaenoriaethu gwaith	£31,000
AD 2	**Lleoliadau Gwaith *Shaw Trust*** Cyfraniad at gyflogau dau unigolyn o fewn y Cyngor am flwyddyn yn unig er mwyn chwilio am ddatrysiad i'r bwlch yn y gyllideb yn dilyn penderfyniad *Shaw Trust* i dynnu cefnogaeth ariannol yn ôl.	£15,000	Argymell cymeradwyo'r swm o £15k ar gyfer 2015/16 er mwyn caniatáu amser i'r Adran ail edrych ar y polisi ac i adnabod cyfleoedd eraill i ariannu'r swyddi.	£15,000
AD 3	**Statws swyddi DBS y Cyngor** Cais am arian blwyddyn i barhau i ariannu swydd i weinyddu statws swyddi DBS y Cyngor cyn ail strwythuro trefniadau.	£22,000	Argymell cymeradwyo'r swm o £22k ar gyfer 2015/16 er mwyn caniatáu amser i'r Adran roi trefniadau newydd ar waith yn dilyn ymarferiad Ffordd Gwynedd.	£22,000
Cyfanswm		**£685,000**	**Cyfanswm**	**£373,000**

ATODIAD 2

DYFYNIAD O'R CYFRIFON TERFYNOL – RESERFAU PENODOL

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, ynghyd â'r balansau cyffredinol.

Cyfansymiau Gwynedd £'000	Categorïau o Reserfau ynghyd ag eglurhad cryno o'r defnydd ohonynt
3,777	Reserfau Ysgolion – yn gyfan gwbl o dan reolaeth leol cyrff llywodraethu ysgolion.
2,407	Derbyniadau Cyfalaf - arian wedi'i dderbyn drwy werthiant eiddo, wedi'i neilltuo i adeiladu/cynnal eiddo arall, ayb.
20,187	Gofynion y Cynllun Cyfalaf - arian wedi'i glustnodi ar gyfer cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo i adeiladu ffyrdd, pontydd, ac ysgolion, yn cynnwys "Ysgolion 21ain Canrif".
3,781	Cronfeydd Adnewyddu - i ddisodli cerbydau sy'n dibrisio, ayb, sy'n ein galluogi i sicrhau parhad gwasanaethau er budd ein dinasyddion.
8,017	Cronfa Trawsnewid Busnes - ar gyfer menterau trawsnewid, cynlluniau ac ymyriadau i gyflawni diwygiad gwasanaethau ac arbedion.
5,000	Cronfa Buddsoddi i Arbed - i ariannu gwariant unwaith ac am byth i hwyluso gwelliannau gwasanaeth fydd yn cyfrannu tuag at gyfanswm o £35m o arbedion effeithlonrwydd dros 4 mlynedd.
7,255	Ymrwymiadau Cost Diswyddiadau - bydd diswyddiadau staff arwyddocaol yn anochel o ganlyniad i galedi parhaus, a bydd rhaid eu hariannu.
2,015	Hunan-Yswiriant - mae'r Cyngor digon mawr i wneud arbedion drwy neilltuo arian i gyfarfod rhai hawliadau, yn hytrach na thalu premiwm i gwmnïau.
7,823	Anghenion a gofynion gwasanaeth penodol eraill - arian a neilltuwyd mewn cronfeydd ar gyfer – Cyfraniadau ac ymrwymiadau a ddeilir ar ran Partneriaethau yn cynnwys: • Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn); • Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (gydag Ynys Môn); • Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (gydag Ynys Môn). Cynlluniau Refeniw Un-tro yn cynnwys: • Prosiect Lleihau Ôl Troed Carbon; • Er mwyn lliniaru effaith Deddf Diwygio Llês Llywodraeth San Steffan; • Ymdopi â thywydd garw ac argyfyngau eraill; • Cynllun Datblygu Unedol; • Gwaith Atal Digartrefedd; • Gwarant Amgylcheddol Tai (hanfodol ar ôl trosglwyddo Tai). ynghyd ag eraill er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau yn y sir.
60,262	Cyfanswm Reserfau wedi'u clustnodi.
7,000	Balansau Cyffredinol - wedi'i neilltuo ar gyfer risgiau cyffredinol, risgiau anhysbys, gorwariant posib, pontio, ayb.
67,262	Reserfau cyflawn fel ar 31 Mawrth 2014.

Mae rhestr fanwl gyflawn o'r reserfau unigol yn y datganiad o gyfrifon y Cyngor.

ATODIAD 3

RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2015/16 – 2016/17

	2015/16	2016/17
	£'000	**£'000**
Cynnal a Chadw adeiladau (ymdrin ag ôl groniad ac osgoi ôl groniad pellach)	3,096	2,553
Gwaith Tan ac Asbestos	400	500
Rheoli Carbon	0	400
Trefniadaeth Ysgolion	11,820	13,796
Newid dosbarthiadau sydd wedi dod i ddiwedd eu hoes	449	779
Goleuadau Stryd	50	50
Ffensys diogelwch ar y ffyrdd	134	134
Ymdrin â dŵr ar y ffyrdd	100	100
Meysydd Chwarae	35	35
Strategaeth Wastraff y Cyngor	50	0
Adnewyddu Cerbydau	0	58
Rhagbaratoi Cynlluniau Trafnidiaeth	100	100
Lonydd Glas	20	20
Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth	501	388
Sustem electroneg cadw cofnodion a dogfennau	244	155
Grantiau Tai	2,000	2,000
I'w ddyrannu ("bidiau" cyfalaf)	180	202
Cyfanswm	**19,179**	**21,270**

ATODIAD 4

CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2015/16 FESUL GWASANAETH

Cyllideb 2015/16									
	Cyllideb Sylfaenol 2014/15	Chwyddiant	Preseptau Incrementau a Phensiynau	Llog a Chostau Benthyca	Demograffi Incwm ac Amrywiol	Trosglwyddiad i'r Setliad	Pwysau ar Wasanaethau	Arbedion	Cyllideb Sylfaenol 2015/16
ADRANNAU	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Tim Rheoli Corfforaethol	2,407	22	4	0	329	0	0	(663)	2,099
Strategol a Gwella	4,761	32	13	0	90	40	185	(399)	4,722
Cyllid	6,491	83	(5)	0	(4)	0	116	(514)	6,167
Adnoddau Dynol	2,756	29	2	0	77	0	68	(270)	2,662
Cefnffyrdd	(87)	0	0	0	0	0	0	0	(87)
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	23,307	(49)	13	0	66	0	0	(1,753)	21,584
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a GyC)	8,690	(30)	13	0	(47)	(21)	(132)	(560)	7,913
Ymgynghoriaeth Gwynedd	54	7	0	0	171	0	0	(245)	(13)
Addysg Canolog	13,494	203	14	0	(202)	(45)	182	(175)	13,471
Cyllideb Ygolion	69,796	578	(52)	0	119	0	(250)	(952)	69,239
Economi a Chymuned	7,550	(14)	28	0	179	0	(65)	(436)	7,242
Oedolion, Iechyd a Llesiant	44,816	630	137	0	382	0	507	(1,963)	44,509
Plant a Theuluoedd	13,507	104	1	0	(112)	134	0	(895)	12,739
Cyfanswm Adrannau	197,542	1,595	168	0	1,048	108	611	(8,825)	192,247
Materion corfforaethol a chyfalaf	34,794	1,206	6	(250)	33	205	(246)	198	35,946
CYFANSWM GROS =	**232,336**	**2,801**	**174**	**(250)**	**1,081**	**313**	**365**	**(8,627)**	**228,193**
Balansau a Reserfau Penodol	(2,179)	0	0	0	160	0	511	0	(1,508)
CYFANSWM NET =	**230,157**	**2,801**	**174**	**(250)**	**1,241**	**313**	**876**	**(8,627)**	**226,685**

ADRODDIAD I'R CABINET
19 Chwefror 2015

Aelod Cabinet: CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

Pwnc: CYLLIDEB REFENIW 2014/15 –
ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Swyddog cyswllt: DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter o'r Gyllideb Refeniw (rhagolygon 2014/15 ar sail sefyllfa 31 Rhagfyr 2014), ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

---

2. Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 15 Gorffennaf 2014 ac adolygiad ail chwarter ar 25 Tachwedd. Mae'r adroddiad yma yn diweddaru'r rhagolygon yn dilyn adolygiad trydydd chwarter.

Amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**. Mae sefyllfa gorwariant tebygol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant bron wedi ei haneru ers y rhagolygon ail chwarter. Gwelir fod y darlun cyffredinol yn arddangos rheolaeth gadarn o'r cyllidebau adrannol, er bod angen gweithredu er mwyn atal tueddiadau yn y gyllideb Addysg.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol os yn briodol.

3. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – gorwariant £599k

Bu gostyngiad sylweddol o'r lefel gorwariant blaenorol yn dilyn cyfuniad o amgylchiadau ac ymdrechion da gan yr Adran i reoli'r cyllidebau. Fodd bynnag, mae rhai meysydd yn parhau i roddi pwysau ariannol sylweddol ar y Cyngor, yn arbennig y gwariant ar Ofal Cartref Pobl Hyn. Mae'r Adran Oedolion yn cymryd camau i geisio cryfhau rheolaeth ariannol berthnasol, ac yn arbennig i sicrhau bydd rheolaeth gadarn ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2015/16.

4. Adran Addysg – gorwariant £361k

Bu cynnydd go sylweddol mewn gwariant ers Medi ar Integreiddio Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ymddengys fod y galw wedi dwysau ac mae'r sefyllfa yn destun adolygiad gan Bennaeth newydd yr Adran. Adroddir ymhellach ar ganlyniad ac ymhlygiadau ariannol yr adolygiad yma yn ein adroddiad alldro.

5. Camau nesaf ac amserlen

Cyflwynir adroddiad 'alldro' i'r Cabinet ym mis Mehefin er mwyn cytuno ar sefyllfa derfynol 2014/15. Bydd yr adroddiad alldro yn argymell trosglwyddiadau terfynol rhwng gwahanol gyllidebau.

Barn yr aelod lleol
Dim yn berthnasol

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:
Mae'n dda nodi bod y mwyafrif o'r adroddiad yn cadarnhau rheolaeth ariannol gadarn ar draws y Cyngor. Ar ben hynny, mae'r gwelliant sydd i'w weld o ran yr Adran Oedolion a Llesiant i'w groesawu er bod peth gorwariant yn bryder mewn cyfeiriadau eraill. Mae hyn oll yn cadarnhau unwaith eto bwysigrwydd rheolaeth gofalus ar batrymau ymrwymo a gwario ar draws y Cyngor.

Y Swyddog Monitro:
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Atodiadau
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.

Cyllideb Refeniw 2014/15 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

	Adolygiad Chwarter 3				
	Gor / (Tan) Wariant Gros 2014/15	Trosglwyddiad i/(o) Gronfeydd neu Balansau	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Gor/ (Tan) Wariant Net	Gor/ (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
	£ '000	£ '000	£ '000	£ '000	£ '000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	**599**	**0**	**0**	**599**	**1,189**
Plant a Theuluoedd	**(217)**	**0**	**0**	**(217)**	**(167)**
Addysg	**827**	**0**	**(466)**	**361**	**91**
Economi a Chymuned	**110**	**0**	**(87)**	**23**	**44**
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	**167**	**0**	**0**	**167**	**76**
Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	**19**	**0**	**0**	**19**	**2**
Ymgynghoriaeth Gwynedd	**85**	**0**	**(30)**	**55**	**61**
Prif Weithredwr	**(110)**	**0**	**0**	**(110)**	**(65)**
Adnoddau Dynol	**(33)**	**0**	**0**	**(33)**	**(31)**
Cyllid	**(34)**	**0**	**0**	**(34)**	**(35)**
Strategol a Gwella	**(78)**	**0**	**0**	**(78)**	**(76)**
Cyllidebau Corfforaethol	**(561)**	**0**	**0**	**(561)**	**(20)**
Cyfansymiau Gwahaniaethau (net)	**774**	**0**	**(583)**	**191**	**1,069**

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaeth Pobl Hŷn	**18,739**	**18,512**	**18,891**	**379**	**0**	**0**	**379**	**606**
Gwasanaethau Anabledd Dysgu	**13,249**	**13,277**	**13,449**	**172**	**0**	**0**	**172**	**260**
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	**3,318**	**3,335**	**3,486**	**151**	**0**	**0**	**151**	**207**
Gwasanaethau Anabledd Corff	**2,087**	**2,082**	**2,022**	**(60)**	**0**	**0**	**(60)**	**(45)**
Eraill (Oedolion)	**3,178**	**3,207**	**3,252**	**45**	**0**	**0**	**45**	**25**
Gwasanaeth Darparu	**0**	**277**	**522**	**245**	**0**	**0**	**245**	**308**
Gwasnaeth Tai	**5,020**	**5,142**	**4,919**	**(223)**	**0**	**0**	**(223)**	**(165)**
Gofal Cwsmer a'r Gwasanaeth Cofrestru	**16**	**308**	**275**	**(33)**	**0**	**0**	**(33)**	**(20)**
Gwasanaethau Cefnogol Adrannol	**4,006**	**4,247**	**4,170**	**(77)**	**0**	**0**	**(77)**	**13**
Cyfanswm Gwahaniaethau	**49,613**	**50,387**	**50,986**	**599**	**0**	**0**	**599**	**1,189**

Cyffredinol

Fe welir fod y gorwariant o £1,189k a ragwelwyd yn yr ail chwarter bron wedi ei hanneru i £599k. Mae hyn yn dilyn gwaith da iawn mewn rhai mesydd i gryfhau rheolaeth o'r cyllidebau ac i ostwng y gorwariant. Mae'r gwaith yma yn parhau ond mae'n glir o'r rhagolygon diweddaraf yma y bydd 'na orwariant sylweddol yn parhau at ddiwedd y flwyddyn, ac mewn absenoldeb o adnoddau ariannol wrth gefn gan yr adran, byddant yn edrych i'r Cabinet am gymorth. Fe argymhellir ar hyn yn chwarter olaf o'r flwyddyn.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Gwasanaeth Oedolion

Maes:-	Gwasanaeth Pobl Hŷn	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		18,739	**18,512**	**18,891**	**379**			**379**	**606**

Bellach fe ragwelir gorwariant o £379k, sydd yn ostyngiad o (£227k) am yr ail chwarter, ac yn cynnwys, yn bennaf, gorwariant o £179k ar Gartrefi Annibynnol (gostyngiad o (£149k)), oherwydd lleihad net o 13 achos 'lleoliad nyrsio', a chyfraniadau ychwanegol o (£434k) (cynnydd o £125k) oherwydd cyfuniad o ail asesu amgylchiadau cyfranwyr a derbyniad o gyfraniadau o ffynonellau eraill.
Fe gynhwysir hefyd gorwariant o £578k ar Ofal Cartref (cynnydd o £52k) ac sydd hefyd yn destun addasiad demograffig a bid perthnasol ar gyfer Cyllideb 2015-16.

Maes:-	Gwasanaethau Anabledd Dysgu	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		13,249	**13,277**	**13,449**	**172**			**172**	**260**

Yn dilyn gwaith sylweddol gan y Gwasanaeth i adolygu'r pecynnau gofal ac i ail negodi'r cyfraniadau gan y Gwasanaeth Iechyd, fe welir ostyngiad o (£88k) yn y lefel gorwariant a ragwelir ers yr ail chwarter.

Maes:-	Gwasanaethau Iechyd Meddwl	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		3,318	**3,335**	**3,486**	**151**			**151**	**207**

Eto fe ragwelir gostyngiad net o (£56k) yn y lefel gorwariant ac yn bennaf oherwydd sefyllfa Breswyl a Nyrsio i lawr (£45k) i orwariant o £195k, tanwariant o (£33k) am Gynlluniau Cefnogol (gwelliant o (£13k)), arbedion staffio unwaith ac am byth o (£35k) (gwelliant o £7k), ond gorwariant o £75k ar Lety Cefnogol (cynnydd o £9k) o ganlyniad i adolygu sefyllfa dau achos.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

		Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	**Gwasanaethau Anabledd Corff**	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		2,087	**2,082**	**2,022**	**(60)**			**(60)**	**(45)**

Y sefyllfa ddiweddaraf yn weddol gyson â'r darlun a ragwelwyd yn yr ail chwarter gyda'r gostyngiad o (£15k) yn bennaf oherwydd lleihad o (£12k) mewn gwariant ar Daliadau Uniongyrchol.

		Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	**Eraill (Oedolion)**	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		3,178	**3,207**	**3,252**	**45**			**45**	**25**

Cynnydd o £20k mewn gorwariant ers yr ail chwarter, ac yn cynnwys yn bennaf costau staffio ychwanegol dros dro.

	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Cyfanswm Oedolion	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	40,571	**40,413**	**41,100**	**687**			**687**	**1,053**

Gostyngiad sylweddol o £366k yn y Cyfanswm Oedolion ers yr ail chwarter, gyda'r Adran yn parhau i weithredu i geisio gwella'r sefyllfa ariannol ymhellach.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Maes:-	Gwasanaeth Darparu	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		0	**277**	**522**	**245**			**245**	**308**

Gostyngiad o (£63k) yn y lefel gorwariant o £308k a ragwelwyd yn yr ail chwarter, ac yn cynnwys gorwariant o £92k ar Ofal Preswyl (gostyngiad o (£12k)) sydd yn bennaf oherwydd costau staffio uwch.
Hefyd cynhwysir gorwariant o £173k ar Ofal Cymunedol sy'n ostyngiad o (£60k) ers yr ail chwarter. Roedd y lefel gorwariant blaenorol oherwydd costau staffio a chostau teithio uwch. Bellach, fe welir fod costau staffio yn yr ail hanner o'r flwyddyn wedi gostwng yn sylweddol, ond fod costau teithio yn parhau yn uchel ac yn debygol o ddangos gorwariant o oddeutu £115k erbyn diwedd y flwyddyn.
Er bod y gwasanaeth yn parhau i geisio datrys y sefyllfa, ymddengys bydd angen camau pendant iawn cyn gynted â phosib hefo'r trefniadau perthnasol i osgoi dechrau'r flwyddyn ariannol newydd mewn sefyllfa debyg.
Rydym wedi bod yn adrodd ar y broblem yma ers tro bellach, ac yn yr amgylchiadau fe ofynnir i'r Gwasanaeth sicrhau trefniadau priodol mewn lle cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd yn Ebrill i reoli'r gyllideb.
Yn ychwanegol, fe gynhwysir yma hefyd tanwariant o (£18k) ar gostau Rheolaeth a Gweinyddiaeth, tanwariant o (£13k) ar Ofal Dydd a gorwariant o £11k ar Lety Cefnogol.

Maes:-	Gwasanaeth Tai	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		5,020	**5,142**	**4,919**	**(223)**			**(223)**	**(165)**

Cynnydd o (£57k) yn y lefel tanwariant ers yr ail chwarter, ac yn cynnwys yn bennaf, tanwariant o (£80k) ar Tai Sector Breifat oherwydd arbedion staffio unwaith ac am byth ynghyd a derbyniad incwm ychwanegol, tanwariant o (£73k) ar Digartrefedd sydd yn ei hyn yn cynnwys tanwariant o (£120k) ar Llety Dros Dro a gorwariant o £61k ar Hosteli yn dilyn lleihad mewn derbyniad incwm rhent. Yn ychwanegol, fe gynhwysir tanwariant o (£21k) ar gostau staffio'r Gwasanaeth, ynghyd a thanwariant o (£41k) ar Ganolfan Teithwyr oherwydd arbedion costau gweithredol ynghyd â derbyniad incwm ychwanegol.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

		Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	**Gofal Cwsmer a'r Gwasanaeth Cofrestru**	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		16	**308**	**275**	**(33)**			**(33)**	**(20)**

Nifer o wahaniaethau ar sawl pennawd ac yn adlewyrchu yn bennaf arbedion staffio unwaith ac am byth.

		Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	**Gwasanaethau Cefnogol Adrannol**	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		4,006	**4,247**	**4,170**	**(77)**			**(77)**	**13**

Gostyngiad o (£90k) mewn gwariant net ers yr adolygiad ail chwarter, ac yn cynnwys, yn bennaf, arbedion staffio unwaith ac am byth (£57k), tanwariant (£6k) gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth a thanwariant (£11k) gan yr Uned Contractau.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Plant a Theuluoedd	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynhonellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaeth Gweithredol	**1,705**	**1,673**	**1,780**	**107**	**0**	**0**	**107**	**117**
Gwasanaeth Lleoliadau	**7,696**	**7,669**	**7,373**	**(296)**	**0**	**0**	**(296)**	**(352)**
Gwasanaeth Ol-16	**970**	**970**	**1,039**	**69**	**0**	**0**	**69**	**119**
Eraill	**4,108**	**4,254**	**4,157**	**(97)**	**0**	**0**	**(97)**	**(51)**
Cyfanswm Gwahaniaethau	**14,479**	**14,566**	**14,349**	**(217)**	**0**	**0**	**(217)**	**(167)**

Adlewyrchu cynnydd o (£50k) yn y lefel o danwariant adrannol.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: PLANT A THEULUOEDD

	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Gwasanaeth Gweithredol	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	1,705	**1,673**	**1,780**	**107**			**107**	**117**

Gostyngiad o (£10k) yn y lefel gorwariant blaenorol a ragwelwyd, ac sydd oherwydd lleihad costau staffio ychwanegol dros dro.

	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Gwasanaeth Lleoliadau	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	7,696	**7,669**	**7,373**	**(296)**			**(296)**	**(352)**

Gostyngiad o (£56k) yn y tanwariant blaenorol a ragwelwyd, ac yn cynnwys tanwariant o (£69k) gan y Tîm Lleoliadau oherwydd yn bennaf arbedion staffio unwaith ac am byth, tanwariant o (£261k) ar leoliadau All-Sirol, a thanwariant o (£100k) ar Faethu a Mabwysiadu arall (sydd yn ostyngiad o £74k ers yr ail chwarter oherwydd cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn ystod y trydydd chwarter).
Fe gynhwysir hefyd gorwariant o £100k ar Faethu drwy Asiant, sy'n gynnydd o £43k ers yr ail chwarter oherwydd un achos ychwanegol ac ymestyn cyfnod nifer o achosion eraill, a gorwariant o £34k ar Weithwyr Cefnogol a Gwasanaethau Eraill.

	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Gwasanaeth Ôl-16	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	970	**970**	**1,039**	**69**			**69**	**119**

Sefyllfa gorwariant blaenorol o £119k bellach wedi gostwng (£50k) i orwariant o £69k, oherwydd yn bennaf un achos arbennig wedi dod i ben.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Eraill	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
	4,108	**4,254**	**4,157**	**(97)**			**(97)**	**(51)**

Cynnydd o (£46k) mewn tanwariant net ar nifer o benawdau gan gynnwys Gwasanaethau Arbenigol (£17k), Rheolaeth Gwasanaeth (£8k), Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (£18k), a thanwariant o (£55k) ar Gostau Llys a Chyfreithiol.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg	Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cludiant	**4,505**	**4,210**	**4,396**	**186**	**(97)**	**0**	**89**	**3**
Diswyddo ac Ymddeol Cynnar	**342**	**320**	**574**	**254**	**(254)**	**0**	**0**	**0**
Integreiddio	**458**	**319**	**727**	**408**	**0**	**0**	**408**	**243**
Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol	**947**	**1,140**	**1,332**	**192**	**(115)**	**0**	**77**	**44**
Strategaeth Cynhwysiad	**803**	**803**	**738**	**(65)**	**0**	**0**	**(65)**	**(30)**
Cronfa Dosbarthiadau Mawr	**318**	**318**	**268**	**(50)**	**0**	**0**	**(50)**	**(50)**
Eraill	**13,990**	**14,615**	**14,517**	**(98)**	**0**	**0**	**(98)**	**(119)**
Ysgolion Datganoledig	**67,621**	**67,617**	**67,617**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**
Cyfanswm Gwahaniaethau	**88,984**	**89,342**	**90,169**	**827**	**(466)**	**0**	**361**	**91**

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: ADDYSG

		Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	**Cludiant**	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		4,505	**4,210**	**4,396**	**186**	**(97)**		**89**	**3**

Gorwariant gros wedi cynyddu ers yr ail chwarter ac yn cynnwys gorwariant o £127k ar Fysus Ysgolion, gorwariant drwy ddiffyg incwm o £25k ar Incwm Cludiant Ol-16 a gorwariant o £35k ar Gludiant Tacsis Ysgolion.
Bwriedir defnyddio £97k o adnodd wrth gefn i ostwng y gorwariant net i £89k.

		Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	**Diswyddo ac Ymddeol Cynnar**	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		342	**320**	**574**	**254**	**(254)**		**0**	**0**

Sefyllfa gorwariant gros o £254k, sy'n gynnydd o £3k ers yr ail chwarter, ac yn adlewyrchu cost diswyddo/ymddeol cynnar mewn ysgolion lle bu gostyngiad mewn niferoedd disgyblion. Mae'r Adran yn bwriadu defnyddio cronfa benodol wrth gefn i ariannu'r gorwariant ond gan nad ydi'r ffynhonnell yma yn ddi-ben-draw, mae'n dilyn, pe byddai'r tuedd perthnasol yn parhau fe olygai pwysedd ariannol pellach ar y Cyngor yn y dyfodol.

		Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	**Integreiddio**	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		458	**319**	**727**	**408**			**408**	**243**

Y sefyllfa gorwariant yma wedi codi yn wreiddiol yn ystod yr ail chwarter o ganlyniad i gychwyn y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi, a'r sefyllfa bellach wedi gwaethygu hefo gorwariant ychwanegol o £165k wedi codi yn y trydydd chwarter. Mae'r Adran yn parhau i asesu'r rhesymau tu ôl i'r lefel gorwariant yma a hefyd yn ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer ariannu'r diffyg o fewn adnoddau'r Adran ar gyfer eleni.

CYLLIDEB REFENIW 2014/15 - TRYDYDD CHWARTER

ADRAN: ADDYSG

		Cyllideb Agoriadol 2014/15	Cyllideb Arfaethedig 2014/15	Sefyllfa a Ragwelir 2014/15	Gor / (Tan) Wariant Gros	Defnydd o Ffynonhellau Eraill	Addasiadau a Argymhellir	Gor / (Tan) Wariant Net	Gor / (Tan) Wariant Net Adolygiad Ail Chwarter
Maes:-	**Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
		947	**1,140**	**1,332**	**192**	**(115)**		**77**	**44**

Niferoedd Disgyblion a Llefydd Gweigion	Dim cyfraniad at leihau llefydd gweigion fel y disgwylia Llywodraeth Cymru ac Estyn. Y dalgylch yn parhau gyda thua 470 o lefydd gweigion - ddim yn bell o 50%. Dros 50% o lefydd gweigion yn parhau yn yr Uwchradd. 42% o lefydd gweigion yn Ysgol Beuno Sant yn parhau.	Lleihad yn nifer y llefydd gweigion yn nhref Y Bala. Creu ysgol o faint addas. Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch. Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.	Lleihad yn nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala. Creu ysgol o faint addas. Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch. Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.	Dim cyfraniad at leihau llefydd gweigion fel y disgwylia Llywodraeth Cymru ac Estyn. Y dalgylch yn parhau gyda thua 470 o lefydd gweigion - ddim yn bell o 50%. 42% o lefydd gweigion yn Ysgol Beuno Sant yn parhau.
Maint Dosbarthiadau ac Amrediad Oedran	Dosbarthiadau yn parhau gydag amrediad oedran eang. Maint dosbarthiadau yn amrywio rhwng 11 a 27 o ran niferoedd yn y cynradd.	Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala. Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ysgolion gwledig yn parhau fel cynt.	Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala. Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i gyfoedion mewn dosbarthiadau mwy – plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau faint mwy addas. Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ysgolion gwledig yn parhau fel cynt.	Dosbarthiadau yn parhau gydag amrediad oedran eang. Maint dosbarthiadau yn amrywio rhwng 11 a 27 o ran niferoedd yn y cynradd.
Arweinyddiaeth a Staffio	Dim diswyddiadau staff. Un corff llywodraethol i bob ysgol. Hyn yn cadw'r cysylltiad cryf gyda'r cymunedau lleol. Bydd angen parhau i gyflogi'r un nifer o staff a phenaethiaid yn y dalgylch. Dim arbedion refeniw. Her o recriwtio penaethiaid yn parhau Penaethiaid yn treulio llawer o amser yn dysgu yn hytrach nag yn rheoli.	Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol. Medru defnyddio sgiliau athrawon yn ehangach, a rhoi mwy o gyfleodd i staff rannu arbenigedd a phrofiad, ar draws ystod oedran 3-19. Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm. Un corff llywodraethol yn nhref Y Bala, pan oedd 3 yn flaenorol. Bydd angen Pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19. Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu. Y manteision uchod ddim yn berthnasol i'r ysgolion gwledig. Y pellteroedd teithio rhwng y 3 ysgol a'r campws gydol oes yn amharu ar y cydweithio. Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr. Parhad i'r angen o sicrhau fod 4 pennaeth yn yr dalgylch.	Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol. Mwy o gyfleoedd i rhannu ymarfer da ac i baratoi adnoddau ar y cyd Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm (a hyn yn wir i raddau ar draws yr holl ddalgylch). Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol. Cyfle i sefydlu rolau newydd y gellir eu rhannu rhwng ysgolion (swyddi gweinyddu, byrsar) 2 gorff llywodraethol yn hytrach na 6. Gwell defnydd o staff ac adnoddau rhwng y 3 ysgol wledig, a rhwng y ffederasiwn a'r campws Cysondeb yn y polisïau gyda dim ond un polisi sengl yn y dref, ac un ar gyfer yr ysgolion wledig Bydd y niferoedd o benaethiaid ar gyfer y ffederasiwn yn ddibynnol ar benderfyniad y corff llywodraethu Bydd angen pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19. Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu. Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr. Her o arwain dros safleoedd gwahanol yn yr	Medru defnyddio sgiliau athrawon yn ehangach, a rhoi mwy o gyfleodd i staff rannu arbenigedd a phrofiad, ond i raddau llai Bydd rhaid cael eglurdeb ar y mater, ond rhagwelir byddai 1 corff llywodraethol yn nhref Y Bala pan oedd 3 yn flaenorol. Model all fod yn heriol yn rheolaethol oherwydd statws Eglwysig Beuno Sant a statws cymunedol Ysgol Y Berwyn. Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol yn dibynnu ar yr union strwythur reolaethol

			ysgolion wledig. Y pellteroedd teithio rhwng y 3 ysgol ffederasiwn a'r campws gydol oes yn amharu ar ar y gallu i gydweithio.	
Cymuned	Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol. Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch Y Berwyn yn cael eu gwarchod. Dim buddsoddiad cyfalaf ar gyfer adnoddau a fyddai'n cael ei rannu gan y cyhoedd	Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol. Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch Y Berwyn yn cael eu gwarchod. Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned. Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol. Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi darpariaeth addysg gynaliadol yn y cymunedau gwledig a sicrhau gwell cydlynnu a chydweithio drwy waith y Cyd-bwyllgor	Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol. Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod. Cyfleoedd i ehangu profiadau cymdeithasol i blant Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned. Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol. Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi darpariaeth addysg gynaliadol yn y cymunedau gwledig a sicrhau gwell cydlynnu a chydweithio drwy waith y Cyd-bwyllgor	Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol. Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod. Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned. Colli cyfle i adleoli a ddatblygu nifer o gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol.
Iaith	Ni fydd unrhyw newid i'r sefyllfa ieithyddol presennol.	Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog. Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol.	Cyfleoedd i gryfhau trwy gael cysondeb yn polisïau ac rhannu arbenigedd Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog. Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol.	Ni chynigir mwy o gyfleodd i blant Ysgol Beuno Sant i gymysgu a defnyddio'u Cymraeg gyda'u cyfoedion.
Adnoddau Ariannol	Dim arbedion refeniw. Gwariant cyfalaf ychwanegol oherwydd parhau i gynnal a chadw'r un nifer o ysgolion. Y Cyngor yn peidio â manteisio ar gyllid Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru. Amrediad sylweddol yng nghost y disgybl yn parhau. Cost cynnal a chadw 6 safle yn parhau.	Gwariant y disgybl yn rhan o'r dalgylch yn fwy cyfartal a darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau. Llai o gost cynnal a chadw adeiladau. Dim gwariant o ran talu costau teithio ychwanegol. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbediad refeniw. Lleihad posibl yn niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyfleoedd cyflogaeth. Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.	Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal - Darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau. Mwy o gyfleoedd i rhannu adnoddau Llai o gost cynnal a chadw adeiladau. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw. Cydweithio yn medru arwain at well defnydd o adnoddau ariannol Lleihad posibl yn niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyfleoedd cyflogaeth. Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.	Dim gwariant i dalu costau teithio ychwanegol. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbediad refeniw. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyflogaeth. Dim arbedion refeniw. Y Cyngor yn peidio â manteisio ar gyllid Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru. Amrediad sylweddol yng nghost y disgybl yn parhau. Cost cynnal a chadw 6 safle yn parhau.
Ffactorau Daearyddol	Pellteroedd teithio yn aros yr un fath.	Pellteroedd teithio yn aros yr un fath.	Pellteroedd teithio y plant yn aros yr un fath. Pellter teithio ychwanegol i'r uwch rheolwyr a staff rhwng safleoedd ysgolion y ffederasiwn (yn ddibynnol ar y strwythur staffio)	Pellteroedd teithio yn aros yr un fath.
Categori Ysgol	Parhau gyda'r dewis i rhieni o ddarpariaeth addysg cynradd cymunedol ac yr Eglwys yng Nghymru	Byddai'r model yn galluogi parhad darpariaeth addysg gynradd gymunedol yn ogystal ag yr Eglwys yng Nghymru, yn ddibynnol ar y categori a ddewisir ar gyfer yr Ysgol 3-19 Newydd.	Mae'r model yn galluogi parhad o ddewis i rieni o ddarpariaeth addysg cynradd cymunedol ac yr Eglwys yng Nghymru, yn ddibynnol ar ganlyniad asesiadau	Parhau gyda'r dewis i rhieni o ddarpariaeth addysg cynradd cymunedol ac yr Eglwys yng Nghymru
Sylwadau ychwanegol	Y gymuned leol ac ehangach yn anhapus fod addewid am Gampws Gydol Oes yn Y Bala yn 2011. Colli cyfle i sefydlu darpariaeth addysg cryf hir dymor yn yr ardal. Nid yw'n debygol bydd cyfle tebyg i ddenu arian cyfalaf sylweddol yn digwydd yn y dyfodol Dim newid yng nghategori cyfreithiol unrhyw ysgol.	Bydd yn anoddach i wireddu buddion posibl y model (enwedig rhannu arbenigedd athrawon) oherwydd y diffyg trefniant ffurfiol rhwng ysgol.	Diwygiadau i Reoliadau Ffedereiddio Llywodraeth Cymru wedi dod i rym ers gwanwyn 2014 sy'n rhoi y mecanwaith i Awdurdodau Lleol ffedereiddio ysgolion	Model cymhleth. Angen edrych yn fanylach ar oblygiadau ymddiriedolaeth gydweithio, ac os yw'n bosibl yng Nghymru.

Ystyriaethau	**Model 5** **CAMPWS GYDOL OES DDALGYLCHOL AR GYFER YR HOLL ARDAL**	**Model 6** **CAMPWS GYDOL OES.** **OM EDWARDS, BRO TRYWERYN, FFRIDD Y LLYN YN FFEDEREIDDIO GYDA'R CAMPWS GYDOL OES**	**Model 7** **CAMPWS GYDOL OES** **AC YSGOL ARDAL AML-SAFLE,** **CYDWEITHIO DALGYLCHOL**	**Model 8** **CAMPWS GYDOL AC YSGOL ARDAL AML-SAFLE, FFEDEREIDDIO**
Amgylchedd Ddysgu	Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli ar 1 safle. Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala. Gan mai 1 ysgol dalgylchol fydd y model yma, byddai'n haws sicrhau fod yr elfen yma o fudd i ddisgyblion y safleoedd gwledig yn ogystal. Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal. Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu. Cyfleoedd yn codi i ddefnyddio arbenigedd staff ar draws safleoedd y campws gydol oes Bydd yn haws cyd-gynllunio gweithgareddau a chreu mwy o gyfleoedd i blant cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol Ni fydd holl ddisgyblion y dalgylch yn gallu manteisio'n llawn ar amgylchedd ddysgu 21ain Ganrif.	Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli 1 safle. Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala. Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal. Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu Cyfleoedd yn codi i ddefnyddio arbenigedd staff ar draws yr ysgolion gwledig a'r campws yn y dref Bydd yn haws cyd-gynllunio gweithgareddau a chreu mwy o gyfleoedd i blant cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol Ni fydd holl ddisgyblion yr ardal yn gallu manteisio ar amgylchedd 21ain Ganrif.	Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli ar 1 safle. Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala. Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal. Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu. Trwy sefydlu cydbwyllgor dalgylchol bydd yn bosibl gwneud trefniadau i blant yr holl dalgylch cael mynediad i fudd y campws gydol oes Bydd yn haws cyd-gynllunio gweithgareddau a chreu mwy o gyfleoedd i blant cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Defnyddio arbenigedd staff ar draws safleoedd yn yr ysgol aml-safle, ac ar draws sectorau yn yr campws yn y dref yn arwain at well parhad a chysondeb yn addysg y plant Ni fydd holl ddisgyblion y dalgylch yn gallu manteisio ar amgylchedd ddysgu 21ain ganrif. Bydd cyfundrefn ffurfiol yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn yr dalgylch	Adeilad, cyfleusterau ac adnoddau 3 ysgol yn cael eu canoli ar 1 safle. Amgylchedd addysgol gwell a chyfleusterau o safon i ddisgyblion cynradd tref Y Bala. Cyfleoedd yn codi i ddefnyddio arbenigedd staff ar draws safleoedd yr ysgol aml-safle a'r campws yn y dref er mwyn sicrhau parhad a chysondeb yn addysg y plant Budd i holl ddisgyblion uwchradd yr ardal. Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd ddysgu. Bydd yn haws cyd-gynllunio gweithgareddau a chreu mwy o gyfleoedd i blant cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol Cyfundrefn ffurfiol cadarn yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn yr dalgylch Ni fydd holl ddisgyblion yr ardal yn gallu manteisio ar amgylchedd ddysgu 21ain Ganrif well.
Niferoedd Disgyblion	Lleihad yn nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala. Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala. Her yn codi o geisio rheoli mynediad i'r safleoedd cynradd	Lleihau nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala. Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.	Lleihad yn nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala. Creu ysgol o faint addas. Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch. Her yn codi o geisio rheoli mynediad i'r safleoedd wledig Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala.	Lleihau nifer llefydd gweigion yn nhref Y Bala. Lleihad tebygol o 300 o lefydd gweigion yn y dalgylch Ni fydd newid yn nifer y llefydd gweigion yng ngweddill y dalgylch y tu allan i dref Y Bala. Her yn codi o geisio rheoli mynediad i'r safleoedd wledig
Maint Dosbarthiadau ac Amrediad Oedran	Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala. Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i cyfoedion mewn dosbarthiadau mwy – plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau maint mwy addas Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ardaloedd gwledig yn parhau fel ynghynt.	Dosbarthiadau maint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala ac yn yr oedran uwchradd. Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i cyfoedion mewn dosbarthiadau mwy – plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau maint mwy addas Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ardaloedd gwledig yn parhau fel ynghynt.	Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala. Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i gyfoedion mewn dosbarthiadau mwy – plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau faint mwy addas. Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ysgolion gwledig yn parhau fel cynt.	Dosbarthiadau o faint mwy addas a lleihad mewn amrediad oedran o fewn dosbarthiadau yn nhref Y Bala ac yn yr oedran uwchradd. Cyfleoedd yn codi i blant dod at ei gilydd i weithio gyda'i cyfoedion mewn dosbarthiadau mwy – plant o lefel cyrhaeddiad tebyg hefyd yn gallu gweithio mewn grwpiau maint mwy addas Bydd maint dosbarthiadau ysgolion ac amrediad oedran yr ardaloedd gwledig yn parhau fel ynghynt.
Arweinyddiaeth a Staffio	Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol. Medru defnyddio sgiliau athrawon yn ehangach, a rhoi mwy o gyfleodd i staff rannu arbenigedd a phrofiad, a hyn yn wir ar draws yr holl ddalgylch. Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm, a hyn yn wir ar draws yr holl ddalgylch. 1 corff llywodraethol yn hytrach na 6. Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd dysgu. Cyfleoedd i gael arweinyddion pynciau craidd unigol ar gyfer yr ysgol cyfan Cyfundrefn ffurfiol cadarn yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn yr dalgylch Gan mai 1 ysgol fydd, bydd mwy o hyblygrwydd yn y trefniadau arweinyddiaeth a staffio.	Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol. Medru defnyddio sgiliau athrawon yn ehangach, a rhoi mwy o gyfleoedd i staff rannu arbenigedd a phrofiad ar draws ystod oedran 3-19. Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm 1 corff llywodraethol yn hytrach na 6 Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd dysgu. Cyfundrefn ffurfiol cadarn yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn yr dalgylch Gwell defnydd o staff ac adnoddau rhwng y 3 ysgol gwledig a'r campws. Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol Mwy o gyfleoedd i rhannu ymarfer da ac i baratoi adnoddau ar y cyd	Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol. Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm (a hyn yn wir i raddau ar draws yr holl ddalgylch). Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol 2 bennaeth – un ar gyfer y campws, un ar gyfer yr ysgol aml-safle 2 gorff llywodraethol yn hytrach na 6. Gwell defnydd o staff ac adnoddau yn yr ysgol aml-safle newydd, a rhwng yr ysgol aml-safle a'r campws Bydd angen pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19, a phennaeth sydd yn medru arwain ysgol ardal aml-safle. Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu. Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr. Y pellteroedd teithio rhwng y 3 safle yr ysgol ardal aml-safle a'r campws gydol oes yn amharu ar y cydweithio. Her o arwain dros safleoedd gwahanol yn yr safleoedd	Mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain, rheoli a gweithredu'n strategol. Mwy o hyblygrwydd o ran cynllunio a chyflwyno cwricwlwm (a hyn yn wir i raddau ar draws yr holl ddalgylch). 2 corff llywodraethol yn hytrach na 6. Posibilrwydd o adnoddau cymunedol ar y safle, a gall y rhain fod o fudd i'r disgyblion a chyfrannu at yr amgylchedd dysgu. Cyfundrefn ffurfiol cadarn yn cael ei sefydlu ar gyfer darpariaeth addysg yn yr dalgylch Gwell defnydd o staff ac adnoddau rhwng y rhwng y ddwy ysgol. Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol Mwy o gyfleoedd i rhannu ymarfer da ac i baratoi adnoddau ar y cyd Cyfle i gynyddu cysondeb polisïau yn y dalgylch Bydd angen pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19, a phennaeth sydd yn medru arwain ysgol ardal aml-safle ac ysgol ddalgylchol.

	Mwy o gyfleoedd i ddatblygu rheolwyr canol Polisïau sengl ar gyfer y dalgylch cyfan Bydd angen pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19, ac ysgol ddalgylchol. Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu. Baich gwaith y Llywodraethwyr yn fawr. Y pellteroedd teithio rhwng yr holl safleoedd, a nifer y safleoedd yn amharu ar allu Pennaeth i reoli'n effeithiol.	Cyfle i gynyddu cysondeb polisïau yn y dalgylch Bydd angen Pennaeth sydd yn medru arwain a rheoli amrediad oedran 3-19. Bydd y niferoedd o benaethiaid ar gyfer y ffederasiwn yn ddibynnol ar penderfyniad y corff llywodraethu Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu. Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr. Pellteroedd teithio rhwng y 3 safle gwledig yn rwystr i ffedereiddio llwyddiannus. Her o arwain dros safleoedd gwahanol.	wledig.	Bydd y niferoedd o benaethiaid ar gyfer y ffederasiwn yn ddibynnol ar penderfyniad y corff llywodraethu Posibilrwydd o ostyngiad yn nifer y swyddi dysgu. Baich gwaith y llywodraethwyr yn fawr. Y pellteroedd teithio rhwng yr ysgol ardal aml-safle a'r campws gydol oes yn medru effeithio ar lwyddiant ffedereiddio. Her o arwain dros safleoedd gwahanol.
Cymuned	Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb safle darpariaeth addysg. Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol. Presenoldeb safle ymhob cymuned, ond dim hunaniaeth gymunedol i'r safleoedd. Byddai cau'r holl ysgolion yn cael effaith ar y cymunedau hynny. Byddai angen cynllun lliniaru cynhwysfawr ar gyfer unrhyw effaith negyddol. Byddai'r opsiwn yma yn mynd yn groes i drafodaethau lleol blaenorol. Posibilrwydd byddai llai o weithgareddau yn cael ei cynnal (e.e. sioeau Nadolig, ffeiriau haf). Byddai modd sicrhau mesurau lliniaru effeithiau negyddol hyn	Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb ysgol. Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned. Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol. Byddai'r opsiwn yma yn mynd yn groes i drafodaethau lleol blaenorol.	Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb safle darpariaeth addysg. Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod, ac er nad oes gan bob cymuned eu hysgol eu hunain, bydd yr hunaniaeth wledig yn cael ei chynnal. Cyfleoedd i ehangu profiadau cymdeithasol i blant Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned. Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol. Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi darpariaeth addysg gynaliadol yn y cymunedau gwledig a sicrhau gwell cydlynnu a chydweithio drwy waith y Cyd-bwyllgor Byddai'r opsiwn yma yn mynd yn groes i drafodaethau lleol blaenorol. Posibilrwydd byddai llai o weithgareddau yn cael ei cynnal (e.e. sioeau Nadolig, ffeiriau haf). Byddai modd sicrhau mesurau lliniaru effeithiau negyddol hyn	Ni fydd unrhyw gymuned yn colli presenoldeb safle darpariaeth addysg. Natur gymunedol unigryw cymunedau gwledig dalgylch y Berwyn yn cael eu gwarchod, ac er nad oes gan bob cymuned eu hysgol eu hunain, bydd yr hunaniaeth wledig yn cael ei chynnal. Oherwydd proffil y Bala fel tref wledig gyda phoblogaeth fechan, ni ddisgwylir effaith sylweddol ar y gymuned. Gyda thrafodaeth pellach, bydd cyfleoedd i ystyried cyd-leoli gwasanaethau cymunedol mewn ffordd sydd yn fwy cynaliadol ar gyfer y dyfodol. Posibilrwydd byddai llai o weithgareddau yn cael ei cynnal (e.e. sioeau Nadolig, ffeiriau haf). Byddai modd sicrhau mesurau lliniaru effeithiau negyddol hyn Byddai'r opsiwn yma yn mynd yn groes i drafodaethau lleol blaenorol.
Iaith	Cyfleoedd i gryfhau trwy sefydlu un polisi ar draws y dalgylch Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog. Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol. Er, bydd angen gofalu fod sefydlu'r drefn newydd yn parhau gyda'r ymarfer da a nodwyd eisoes gan Estyn.	Cyfleoedd i gryfhau trwy cael cysondeb yn polisïau ac rhannu arbenigedd Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog. Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol.	Cyfleoedd i gryfhau trwy cael cysondeb yn polisïau ac rhannu arbenigedd Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog. Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol. Er, bydd angen gofalu fod sefydlu'r drefn newydd yn parhau gyda'r ymarfer da a nodwyd eisoes gan Estyn.	Cyfleoedd i gryfhau trwy cael cysondeb yn polisïau ac rhannu arbenigedd Bydd cyfleoedd pendant i gefnogi disgyblion sy'n ceisio magu hyder tra'n defnyddio'r ddwy iaith. Dylai hyn hefyd ysgogi mwy o ddisgyblion i barhau gyda'u haddysg nail ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyiethog. Bydd y nifer uwch o blant hefyd o fudd i disgyblion i ddefnyddio'u Cymraeg gyda chyfoedion yn ddyddiol. Er, bydd angen gofalu fod sefydlu'r drefn newydd yn parhau gyda'r ymarfer da a nodwyd eisoes gan Estyn.
Adnoddau Ariannol	Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal - Darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau. Llai o gost cynnal a chadw adeiladau. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw. Gwell defnydd o adnoddau ariannol gan mai 1 ysgol sydd. Lleihad posibl yn niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyfleoedd cyflogaeth. Costau teithio ychwanegol rhwng y safleoedd. Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.	Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal - Darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau. Llai o gost cynnal a chadw adeiladau. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw. Ffedereiddio yn medru arwain at well defnydd o adnoddau ariannol. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyflogaeth. Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau. Costau teithio ychwanegol rhwng y safleoedd.	Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal - Darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau. Llai o gost cynnal a chadw adeiladau. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw. Cydweithio yn medru arwain at well defnydd o adnoddau ariannol Lleihad posibl yn niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyfleoedd cyflogaeth. Costau teithio ychwanegol i Bennaeth a staff rhwng safleoedd Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.	Gwneud gwariant y disgybl yn yr ardal yn fwy cyfartal a darpariaeth fwy effeithlon o adnoddau. Llai o gost cynnal a chadw adeiladau. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio ac felly arbedion refeniw. Ffedereiddio yn arwain at well defnydd o adnoddau ariannol. Lleihad posibl yn y niferoedd staffio yn golygu colli swyddi mewn ardal brin ei chyflogaeth. Costau teithio ychwanegol rhwng y safleoedd. Cost cynnal a chadw 3 safle gwledig yn parhau.
Ffactorau Daearyddol	Pellteroedd teithio yn aros yr un fath. Pellter teithio ychwanegol i bennaeth a staff rhwng yr holl safleoedd.	Pellteroedd teithio yn parhau'r un fath i'r disgyblion. Pellter teithio ychwanegol i'r benaeth a staff rhwng y safleoedd ysgol ardal aml-saflea'r campws	Pellteroedd teithio y plant yn aros yr un fath. Pellter teithio ychwanegol i'r benaeth a staff rhwng y safleoedd ysgol ardal aml-safle	Pellteroedd teithio yn parhau'r un fath i'r disgyblion. Pellter teithio ychwanegol i'r benaeth a staff rhwng y safleoedd ysgol ardal aml-saflea'r campws

Categori Ysgol	Byddai gweithredu'r model yn dileu unai addysg cymunedol neu Eglwys yng Nghymru yn yr dalgylch	Byddai gweithredu'r model yn dileu unai addysg cymunedol neu Eglwys yng Nghymru yn yr dalgylch	Byddai'r model yn galluogi parhad darpariaeth addysg gynradd gymunedol yn ogystal ag yr Eglwys yng Nghymru, yn ddibynnol ar y categori a ddewisir ar gyfer yr ysgolion a sefydlwyd.	Byddai gweithredu'r model yn dileu unai addysg cymunedol neu Eglwys yng Nghymru yn yr dalgylch
Sylwadau Ychwanegol	Y model yma yn cydbwyso dadleuon ariannol ail-drefnu a sicrhau natur wledig gymunedol yr ardal. Model radical ac yn her i bennaeth fod yn gyfrifol am y sector gynradd ac uwchradd dros 4 safle gwahanol	Diwygiadau i Reoliadau Ffedereiddio Llywodraeth Cymru wedi dod i rym ers gwanwyn 2014 sy'n rhoi y mecanwaith i Awdurdodau Lleol ffedereiddio ysgolion	Y model yma yn dibynnu ar reoli ysgol ardal aml-safle yn effeithiol a hefyd cydweithio rhyngddo a'r campws gydol oes. Cydweithio yn ddibynnol ar nifer o ffactorau amwys a phersonoliaethau. Hawdd fyddai cau un neu fwy o'r safleoedd yn y dyfodol, heb orfod cau ysgol. Gall hyn olygu y byddai'r trigolion lleol yn amheus o'r model hwn.	Diwygiadau i Reoliadau Ffedereiddio Llywodraeth Cymru wedi dod i rym ers gwanwyn 2014 sy'n rhoi y mecanwaith i Awdurdodau Lleol ffedereiddio ysgolion

Ysgolion Esgobaeth Llanelwy



Diocese of St Asaph Church Schools

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

ESGOBAETH LLANELWY / DIOCESE OF ST ASAPH

Mr Arwyn Thomas
Pennaeth Addysg
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

13 Ionawr 2015

Annwyl Mr Thomas

Ynghlwm fe welwch ymateb Esgobaeth Llanelwy i'r cam cyn ymgynghori ar ddalgylch y Berwyn, Meirionnydd. Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu ymholiad, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi, gan y byddwn yn barod iawn i drafod unrhyw fater.

Yn gywir

R.S. Williams

Rosalind Williams
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes

Swyddfa'r Esgobaeth, Stryd Fawr, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0RD
Diocesan Office, High Street, St Asaph, Denbighshire, LL17 0RD
T 01745 532 593 **F** 01745 530078 **E** rosalindwilliams@churchinwales.org.uk
Gwefan / web-site: www.dioceseofstasaph.org.uk
Mae Esgobaeth Llanelwy yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Diocese of St Asaph welcomes correspondence in Welsh or English

Cynnig ar gyfer ad-drefnu ysgolion yn Nalgylch y Berwyn

Ymateb cyn yr ymgynghoriad

Esgobaeth Llanelwy

1) Sefydlwyd Ysgol Beuno Sant ym 1872 fel Ysgol Eglwys i ddarparu addysg ar gyfer plant y Bala, Llanycil, Llanfor, Llangywer a Llandderfel yn yr hen Sir Feirionnydd. Yn y newidiadau dilynol i system addysg Cymru yn sgil Ddeddf Addysg 1944, daeth Ysgol Beuno Sant yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, gan barhau i wasanaethu plant yn yr ardal. Yn sgil datblygiadau yn y system addysg, cafodd ysgol uwchradd ei hadeiladu i ddarparu addysg estynedig i blant yr ardal. Mae'r ymgynghoriad yn awr yn ceisio barn ar ddyfodol addysg yn ardal y Bala.

2) Blaenoriaeth holl randdeiliaid yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol yn y dyfodol yn ardal y Bala yn fodel o'r safon uchaf sy'n cynnig yr addysg orau yn yr amgylchedd gorau i blant. Drwy ymgynghori, deialog ac ystyriaeth y gellir cyrraedd y canlyniad gorau. Bu cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid yn nalgylch yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio gan yr ymgynghoriad hwn, ac mae nifer o ddewisiadau wedi cael eu trafod a'u gwerthuso, gan gynnwys modelau cydweithio, ysgolion sengl ac aml-safle a ffederaleiddio. Ond mae'r dystiolaeth yn dal i ffafrio sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes yn y Bala.

3) Fel darparwr presennol yn y dref, mae'r Esgobaeth yn dymuno bod yn rhan o ddeialog ac ymgynghoriad i sicrhau bod y penderfyniad yn rhoi'r ddarpariaeth addysgol orau, gan gydnabod cyfluniad presennol y ddarpariaeth a sut i greu cynnig newydd sy'n cydnabod anghenion yr holl randdeiliaid.

Trefniadau ar hyn o bryd

4) Categori cyfreithiol Ysgol Beuno Sant yw ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir. Mae'r cynigwyr yn awgrymu nifer o ddewisiadau sy'n cynnwys ystyried ysgol Gymuned, Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgol Wirfoddol a Reolir.

5) Pe baem yn cynnal y dewis a'r cynnig fel y mae, byddai unrhyw ddarpariaeth arall yn cynnwys Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir, ond mae nifer o ddewisiadau yn cael eu hystyried, ac rydym wedi ystyried y modelau sydd wedi eu rhestru yn adran 4. Fodd bynnag, rydym wedi cyfyngu ein sylwadau i'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag Ysgol Beuno Sant.

6) Mae'r dewis sy'n ymwneud â champws dysgu gydol oes a fydd yn gartref i nifer o ysgolion yn ymddangos fel pe bai'n cynnig y mwyaf o fudd wrth werthuso'r dewis hwnnw. Fodd bynnag, byddem yn cytuno na fyddai'r dewis o ymddiriedolaeth gydweithio leol yn cynnig gwelliannau sylweddol i gyfleusterau na'r ddarpariaeth. Mae'r dewisiadau sy'n cynnwys campws dysgu gydol oes ac sy'n ymgorffori Ysgol Beuno Sant yn cynnig nifer o ddewisiadau

yn ymwneud â chymeriad y ddarpariaeth. Mae dau fath o ysgol eglwys, sef Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, sydd â mwyafrif y llywodraethwyr yn llywodraethwyr sefydledig, ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir, sydd â llai o lywodraethu uniongyrchol gan yr Eglwys yng Nghymru a rhagor o'r rheolaeth a'r rheoli yn nwylo'r Awdurdod Lleol.

7) Gwahaniaethau rhwng categorïau gwahanol o ysgolion Eglwys

	Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir	Ysgolion Gwirfoddol a Reolir
Adeiladau	Yn eiddo i'r ymddiriedolwyr, ond gall fod yn amodol ar ôl-feddiant rhoddwr gwreiddiol y tir. Y ddogfen ymddiriedolaeth yn pennu ar ba sail y rhedir yr ysgol. Cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw adeiladau ac atgyweiriadau newydd (gyda chefnogaeth grant gan Lywodraeth Cymru hyd at 85% o wariant cymeradwy). Darperir meysydd chwarae gan yr Awdurdod Lleol.	Yn eiddo i'r ymddiriedolwyr, ond gall fod yn amodol ar ôl-feddiant rhoddwr gwreiddiol y tir. Yr holl gostau amnewid, atgyweirio a chostau adeiladu eraill yn gyfrifoldeb ar yr Awdurdod Lleol. Darperir meysydd chwarae gan yr Awdurdod Lleol.
Staff (a) Addysgu	Y llywodraethwyr yn cyflogi, yr Awdurdod Lleol yn talu. Gall llywodraethwyr ofyn am dystiolaeth o ymrwymiad Cristnogol fel rhan o'r broses ymgeisio am swyddi addysgu.	Y llywodraethwyr yn penodi, a'r Awdurdod Lleol yn cyflogi ac yn talu. Y llywodraethwyr yn rhwymedig i bolisïau penodi'r Awdurdod Lleol.
Staff (b) cymorth	Y llywodraethwyr yn cyflogi, yr Awdurdod Lleol yn talu.	Yr Awdurdod Lleol yn cyflogi ac yn talu.
Addoli	Neilltuol Gristnogol; yn adlewyrchu'r	Neilltuol Gristnogol; yn adlewyrchu'r

	traddodiad Anglicanaidd a gall gynnwys addoli yn eglwys y plwyf.	traddodiad Anglicanaidd a gall gynnwys addoli yn eglwys y plwyf.
Addysg Grefyddol	Yr Ysgol yn defnyddio maes llafur (“enwadol”) yr Eglwys yng Nghymru sy’n adlewyrchu’r traddodiadau Anglicanaidd.	Rhaid i'r ysgol ddilyn maes llafur yr Awdurdod Lleol oni bai bod y rhieni'n gofyn am un enwadol.
Aelodaeth y Corff Llywodraethu	Mae gan lywodraethwyr (sefydledig) yr eglwys fwyafrif llwyr dros yr holl lywodraethwyr eraill. Mae'r offeiriad plwyf fel arfer yn aelod o'r corff llywodraethu yn rhinwedd ei swydd. Mae pob llywodraethwr yn cyfuno i ethol Cadeirydd. Mae’n rhaid i gyfran o’r llywodraethwyr sefydledig fod yn rhieni hefyd.	Llywodraethwyr (sefydledig) yr eglwys yn y lleiafrif. Mae'r offeiriad plwyf fel arfer yn aelod o'r corff llywodraethu yn rhinwedd ei swydd. Mae pob llywodraethwr yn cyfuno i ethol Cadeirydd.
Cyllid	85% o gyllid cyfalaf yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae’n rhaid i’r Llywodraethwyr ddod o hyd i’r 15% arall.	Fformiwla rheoli ysgolion yn lleol yr Awdurdod lleol.
Derbyn	Y llywodraethwyr yn penderfynu ar y polisi ac yn gwneud y penderfyniadau yn	Yr Awdurdod Lleol sy’n gyfrifol am y polisi derbyn, ond mae’n rhaid iddo ymgynghori

	unol â gofynion y Cod Derbyn. Mae'n rhaid iddyn nhw ymgynghori â'r Awdurdod Lleol a'r holl awdurdodau derbyn eraill yn yr ardal bob blwyddyn.	â'r corff llywodraethu bob blwyddyn.
Cyngor	Mae gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol hawliau penodol i fynychu cyfarfodydd y llywodraethwyr i roi cyngor. Mae gan Gyfarwyddwyr Addysg yr Esgobaeth hawliau cyfochrog.	Mae gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol hawliau penodol i fynychu cyfarfodydd y llywodraethwyr i roi cyngor. Mae gan Gyfarwyddwyr Addysg yr Esgobaeth hawliau cyfochrog.
Arolygiadau	Arolygwyr ESTYN yn craffu ar hunan-arfarnu'r ysgol. Arolygwyr GWELLA (Adran 50) yn arolygu natur unigryw'r Ysgol Eglwys, gan gynnwys arweinyddiaeth, Addysg Grefyddol, addoli, datblygiad ysbrydol a moesol ac ethos yr ysgol.	Arolygwyr ESTYN yn craffu ar hunan-arfarnu'r ysgol. Arolygwyr GWELLA (Adran 50) yn arolygu natur unigryw'r Ysgol Eglwys, gan gynnwys arweinyddiaeth, addoli, datblygiad ysbrydol a moesol (yn enwedig Addysg Grefyddol) ac ethos yr ysgol.

8) Nid yw'r Eglwys yng Nghymru, yn wahanol i nifer o grwpiau 'ffydd' eraill, yn ceisio addysgu o fewn daliadau ffydd benodol, ond ymgysylltu â phawb yn lle hynny. Wrth geisio gwasanaethu pawb a chynnig cwricwlwm eang a chytbwys, y mae hefyd wedi ei wreiddio mewn cred gadarn fod gan bob unigolyn anghenion ysbrydol y dylid eu datblygu, yn union fel sgiliau a doniau eraill. Felly, mae'r Eglwys yng Nghymru, yn unigryw efallai ymysg darparwyr addysg 'ffydd', yn cydbwyso'r cysyniadau o wasanaeth i bawb gyda chyfleoedd i feithrin ysbrydolrwydd y rhai sydd am ddatblygu'r maes hwn o'u bywydau.

9) Byddai Esgobaeth Llanelwy yn hoffi gweld model sy'n darparu amgylchedd dysgu lle caiff pob disgybl ei barchu a'i annog ym mhopeth y bydd yn ei wneud; a lle mae pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi.

10) Os mai Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir fyddai'r dewis a ffefrir, byddai'r Esgobaeth yn mynd ati i annog llywodraethwyr sefydledig i fod yn gynrychioliadol o'r cymunedau ffydd eraill yn yr ardal. Gellir gweld y maes llafur ar gyfer Addysg Grefyddol ar http://wncre.bangor.ac.uk/syllabus.pdf Byddai'r polisi derbyniadau yn caniatáu i blant o'r dalgylch cyfan fynd i'r ysgol, yn debyg iawn i fwriad gwreiddiol RJ Lloyd Price pan sefydlwyd Ysgol Beuno Sant. Nid oedd yr ysgol yn gyfyngedig, ond yn gynhwysol, a byddai hyn yn parhau.

11) Os mai Ysgol Wirfoddol a Reolir fyddai'r dewis a ffefrir, byddai'r ysgol newydd yn addysgu'r un maes llafur AG y cytunwyd arno â'r ysgolion cymuned, sy'n cynnwys credoau a safbwyntiau crefyddol eraill. Nid yw ysgol eglwys yn mesur ei meini prawf llwyddiant yn ôl nifer y disgyblion sy'n arddel Cristnogaeth, ond mae'n ceisio arfogi disgyblion gyda'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth iddyn nhw werthuso heriau moesol a moesegol bywyd yn feirniadol a dod o hyd i'w hymateb eu hunain, pa un ai a yw hynny ar lwybr Cristnogaeth ai peidio. Bwriad ysgol eglwys yw rhoi rhodd o addysg eang sy'n caniatáu i blant wneud penderfyniad gwybodus.

12) Mae ysgolion yr Eglwys yng Nghymru yn ceisio darparu'r safon uchaf posibl o addysg mewn cyd-destun nodweddiadol Gristnogol. Nid ydyn nhw'n ceisio troi disgyblion at y ffydd, ond yn hytrach wasanaethu, ac mae tystiolaeth yn dangos bod ethos Gristnogol a gweledigaeth addysgol gref yn helpu i godi safonau a chyflawniad, a galluogi pob plentyn i gyflawni ei botensial. Mae hyn yn cael ei fynegi yn Adolygiad Addysg yr Eglwys yng Nghymru http://cinw.s3.amazonaws.com/wp-content/uploads/2013/07/edrev-cy.pdf a dogfen Ffydd mewn Addysg Llywodraeth Cymru http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/130425-faith-in-education-cy.pdf

13) Mae gan unrhyw riant sy'n dewis anfon eu plentyn i ysgol eglwys yr hawl i ddewis peidio addoli ar y cyd na derbyn addysg grefyddol. Byddai gan y Pennaeth a'r staff fynediad at gymorth a gwasanaethau tîm Addysg yr Esgobaeth (yn ychwanegol at Gyngor Gwynedd), a all roi cyngor a chefnogaeth ar faterion cwricwlwm ac ethos, ac sy'n darparu hyfforddiant rheolaidd i staff. Yn ogystal, byddai ganddyn nhw fynediad at rwydwaith o ymgynghorwyr a chynghorwyr wedi eu comisiynu gan yr Esgobaeth, ac fe fyddai ganddyn nhw fynediad at hyfforddiant, adnoddau a gweithgareddau hefyd.

14) Mae gan ysgolion Eglwys 'Ymwelydd yr Esgob' penodol, a fyddai'n cefnogi a herio'r ysgol; yn cynnig cyngor a chefnogaeth ac yn ymgorffori'r gofal bugeiliol sydd gan Esgob Llanelwy dros yr ysgolion yn ei esgobaeth.

15) Mae Esgobaeth Llanelwy ac Esgobaeth Bangor wedi darparu ysgolion i blant Gwynedd ers cryn amser. Rydym eisiau i rieni allu dewis y cyfleusterau a'r adnoddau addysgol gorau i'w plant. Yn ddiweddar, mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal adolygiad o ddalgylch y Gader. Pe bai'r adolygiad hwn yn arwain at gael gwared ar yr ysgol eglwys yn yr ardal honno, yna'r ddarpariaeth yn y Bala yw'r unig ddewis arall i rieni mewn ardal eang o Wynedd, fel y crybwyllir yn adran 5.2, a byddai hyn yn ystyriaeth hanfodol.

16) Ar ôl ystyried y dewisiadau yn ofalus, mae Esgobaeth Llanelwy yn cytuno mai dewis 3, sef sefydlu campws dysgu gydol oes 3-19 oed, sydd fwyaf priodol i'w ystyried a dod yn destun ymgynghori ymhellach. Fodd bynnag, am y rhesymau a roddwyd yn yr ymateb hwn, teimlir y dylai statws y campws fod yn wirfoddol a reolir neu'n wirfoddol a gynorthwyir. Byddai hyn yn rhoi ehangder o ddewis i rieni yn nalgylch y Bala a dalgylch y Gader, ac am y rhesymau a nodir uchod, byddai'n rhoi addysg eang o ansawdd uchel i ddisgyblion. Byddai Esgobaeth Llanelwy yn hoffi gweld model sy'n darparu amgylchedd dysgu lle caiff pob disgybl ei barchu a'i annog ym mhopeth y bydd yn ei wneud; a phob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Byddem yn hoffi gweithio mewn partneriaeth â'r holl bartïon i gyflawni hyn.

Rosalind Williams
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Esgobaeth Llanelwy
13 Ionawr 2015

Adroddiad Asesiad Ardrawiad Ieithyddol

Dalgylch Y Berwyn



Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

This map is reproduced from Ordanance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD
   - 1.1 Sefyllfa Gwynedd
   - 1.2 Polisi Iaith
   - 1.3 Cefndir Addysgol

2. PROFFIL IEITHYDDOL DALGYLCH Y BERWYN
   - 2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd
   - 2.2 Wardiau
     - 2.2.1 Ward Bala
     - 2.2.2 Ward Llandderfel
     - 2.2.3 Ward Llanuwchllyn
   - 2.3 Ysgolion
     - 2.2.1 Ysgol Y Berwyn
     - 2.3.1 Ysgol Bro Tegid
     - 2.3.2 Ysgol Beuno Sant
     - 2.3.3 Ysgol Ffridd y Llyn
     - 2.3.4 Ysgol Bro Tryweryn
     - 2.3.5 Ysgol OM Edwards
   - 2.4 Lefelau Cyrhaeddiad
   - 2.5 Holiadur Ieithyddol Dalgylch Y Berwyn

3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG
   - 3.1 Effaith wrth sefydlu Campws Gydol Oes (CGO) yn Y Bala
   - 3.2 Rhestr Hir Modelau Posib

4. CASGLIAD

1. Cyflwyniad

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau ieithyddol yn allweddol i strategaethau addysg y Sir. Mae'r Cyngor yn ad-drefnu ysgolion nalgylch Y Berwyn, ac mae'n ofynnol, yn unol a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013), i cynnal asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r sefyllfa ynglŷn â'r prif ystyriaethau iaith yn ymwneud ag effeithiau yr opsiynau dan sylw yn Y Bala.

1.1 Sefyllfa Gwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2011 yn nodi fod 65,900 (56%) o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen, ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod 65.4% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 69%.

Yng Ngwynedd, fel mewn nifer o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Yn y pegynau eithaf, megis Aberdyfi, Tywyn a ward Menai ym Mangor, mae rhwng 18%-38% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bo cymaint â 78% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymraeg e.e. Llanrug.

1.2 Polisi iaith

Cynradd

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd CA1. Yn CA2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Uwchradd

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel angenrheidiol, sef 3+ , ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11. Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y sir fod yn hyderus ddwyieithog.

1.3 Cefndir Addysgol

Mabwysiadwyd strategaeth *"Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd"* gan y Cyngor yn Ebrill 2009 ac fe'i hadolygwyd yn Rhagfyr 2010. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth *"Rhaglen Strategol – Tuag at 2025"* gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisïau a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol, i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

2. Proffil Ieithyddol Dalgylch Y Bala

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae bron i dri chwarter o'r boblogaeth sirol wedi'i eni yng Nghymru (66.8%). Mae 65.4% o'r boblogaeth dros dair blwydd oed yn siaradwyr Cymraeg – yn sylweddol uwch na ffigwr Cymru gyfan o 19%. Yn gyffredinol, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rhai a anwyd yng Nghymru yn cynyddu tuag at y gorllewin, ac wrth deithio yn fewndirol o'r ardaloedd arfordirol mwy poblog. Mae'r gallu i siarad Cymraeg ar ei uchaf yng Ngwynedd yn ward Llanrug (87.8% yn siarad Cymraeg), ac ar ei hisaf yn ardal Menai Bangor (18.6%).

2.2 Wardiau

2.2.1 Ward Bala

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth ward Bala yn 1,974. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos fod ychydig dros 76.7% o boblogaeth ward Bala wedi'i eni yng Nghymru, gyda 78.5% yn siarad Cymraeg. Mae'r ffigyrau hyn yn uwch na'r cyfartaledd sirol Gwynedd (65.4%), ac mae canran o'r siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol.

	Bala		Gwynedd		Cymru	
2011	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Poblogaeth 3+ mlwydd oed	1,889	95.7%	117,789	96.6%	2,955,841	96.5%
Gallu siarad Cymraeg	1,482	78.5%	77,000	65.4%	562,016	19.0%
Dim sgiliau Cymraeg	282	14.9%	31,177	26.5%	2,167,987	73.3%
Gallu deall Cymraeg lafar yn unig	104	5.5%	8,125	6.9%	157,792	5.3%
Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	132	7.0%	6,838	5.8%	80,429	2.7%
Gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	75	4.0%	3,947	3.4%	45,524	1.5%
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	1,271	67.3%	65,921	56.0%	430,717	14.6%
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	25	1.3%	1,781	1.5%	73,392	2.5%

2.2.2 Ward Llandderfel

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth ward Llandderfel yn 1,511. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos fod ychydig dros 68.8% o boblogaeth ward Llandderfel wedi'i eni yng Nghymru, gyda 70.8% yn siarad Cymraeg. Mae'r ffigyrau hyn yn cydymffurfio gyda'r canran sirol Gwynedd (65.4%), ac mae canran o'r siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol.

	Llandderfel		Gwynedd		Cymru	
2011	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Poblogaeth 3+ mlwydd oed	1,459	96.6%	117,789	96.6%	2,955,841	96.5%
Gallu siarad Cymraeg	1,033	70.8%	77,000	65.4%	562,016	19.0%
Dim sgiliau Cymraeg	326	22.3%	31,177	26.5%	2,167,987	73.3%
Gallu deall Cymraeg lafar yn unig	82	5.6%	8,125	6.9%	157,792	5.3%
Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	66	4.5%	6,838	5.8%	80,429	2.7%
Gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	43	2.9%	3,947	3.4%	45,524	1.5%
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	924	63.3%	65,921	56.0%	430,717	14.6%
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	18	1.2%	1,781	1.5%	73,392	2.5%

2.2.3 Ward Llanuwchllyn

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth ward Llanuwchllyn yn 877. Mae cyfrifiad 2011 yn dangos fod ychydig dros 74.7% o boblogaeth ward Llanuwchllyn wedi'i eni yng Nghymru, gyda 78.6% yn siarad Cymraeg. Mae'r ffigyrau hyn yn uwch na'r cyfartaledd sirol Gwynedd (65.4%), ac mae canran o'r siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch na'r canran cenedlaethol.

	Llanuwchllyn		Gwynedd		Cymru	
2011	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Poblogaeth 3+ mlwydd oed	847	96.6%	117,789	96.6%	2,955,841	96.5%
Gallu siarad Cymraeg	666	78.6%	77,000	65.4%	562,016	19.0%
Dim sgiliau Cymraeg	134	15.8%	31,177	26.5%	2,167,987	73.3%
Gallu deall Cymraeg lafar yn unig	41	4.8%	8,125	6.9%	157,792	5.3%
Gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	51	6.0%	6,838	5.8%	80,429	2.7%
Gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	27	3.2%	3,947	3.4%	45,524	1.5%
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	585	69.1%	65,921	56.0%	430,717	14.6%
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	9	1.1%	1,781	1.5%	73,392	2.5%

2.2 Ysgolion

Yn dalgylch Y Berwyn mae un ysgol uwchradd (Ysgol Y Berwyn) a pump ysgol gynradd(Beuno Sant, Bro Tegid, Ffridd y Llyn, Bro Tryweryn ac OM Edwards).

Ysgolion	Categori Ieithyddol
Ysgol Y Berwyn	Cyfrwng Cymraeg [WM]
Ysgol Beuno Sant	Cyfrwng Cymraeg [WM]
Ysgol Bro Tegid	Cyfrwng Cymraeg [WM]
Ysgol Ffridd y Llyn	Cyfrwng Cymraeg [WM]
Ysgol Bro Tryweryn	Cyfrwng Cymraeg [WM]
Ysgol OM Edwards	Cyfrwng Cymraeg [WM]

2.3.1 Ysgol Y Berwyn

Roedd bwlch ar gael yng Nghwestiwn 3 i rieni ychwanegu unrhyw sylwadau eraill mewn unrhyw ffurf, a bu i 14 o'r rhieni (8.8%) fanteisio ar y cyfle hwn. Roedd yr ymatebion hyn yn amrywio o gadw maint dosbarthiadau'n fach, i ddarparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r pellter i'r ysgol agosaf. Fodd bynnag, roedd yna nifer o rieni oedd yn teimlo nad oedd yr opsiynau oedd ar gael yn gynrychiolaeth deg o'r ffactorau sy'n bodoli wrth ddewis ysgol, neu roedd ganddynt farn gref iawn am natur y cwestiwn. Nododd un rhiant fod amryw o ffactorau wedi apelio at ei blant, megis perthynas agos rhwng yr ysgol a'r Eglwys, ei naws a'i darpariaethau ac mai hyn a gyfrannodd at ddewis Beuno Sant. Roedd rhiant arall, nad yw ei blentyn yn mynychu Beuno Sant, yn teimlo'n gryf y dylai plant sy'n mynychu'r ysgol fod ag ymrwymiad i'r Eglwys a theimlai nad oedd hyn i'w weld yn y Bala. Cwyn dau o'r rhieni oedd nad oedd dewis ond mynd am y pedwerydd opsiwn (yr unig beth sy'n bwysig i mi yw fod fy mhlentyn yn cael addysg dda), ac na ddylid awgrymu o gwbl y dylai rieni ddewis rhwng naill ai darpariaethau crefyddol neu ansawdd yr addysg. Trafodir ymatebion tebyg i Gwestiwn 5 yn nes ymlaen.

Cwestiwn 4a: Pwysigrwydd Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Ddewis Ysgol

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi pwysigrwydd ar raddfa o bedwar pwynt ("Pwysig Iawn", "Pwysig", "Ddim yn bwysig", "Ddim yn bwysig o gwbl"), pob un o'r saith ffactor all ddylanwadu ar y penderfyniad wrth ddewis ysgol i'w plentyn. Roedd y saith eitem fel a ganlyn:

- Ansawdd yr addysg
- Y disgwyliad ffurfiol fod gwerthoedd Cristnogol wedi'u gwreiddio ym mywyd yr ysgol
- Yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y plant
- Y pellter teithio i'r ysgol
- Perthynas dda rhwng rhieni ac athrawon
- Adeiladau ac adnoddau o safon uchel ar gael yn yr ysgol
- Darpariaethau ychwanegol (e.e. clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol)

Ni lwyddodd rhai o'r rhieni i benderfynu ar ambell eitem (cyfartaledd o 3 i bob eitem), ac o'r herwydd, ni chafodd y rhain eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Ansawdd yr Addysg

Yn ôl pob un o'r ymatebwyr, roedd *Ansawdd yr Addysg*, fan leiaf, yn "Bwysig" wrth ddewis ysgol, nododd 95.6% ei fod yn "Bwysig Iawn" a 4.4% ei fod yn "Bwysig". Ni wnaeth unrhyw riant nodi nad oedd ansawdd yr addysg yn bwysig neu nad oedd yn bwysig o gwbl. Yr eitem hon wnaeth dderbyn y nifer fwyaf o ymatebion "Pwysig Iawn" o bob un o'r saith eitem.

Tabl 4. Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg

	Pwysig Iawn	Pwysig	Ddim yn Bwysig	Ddim yn Bwysig o Gwbl	Cyfanswm
Nifer	151	7	0	0	158
%	95.6%	4.4%	0.0%	0.0%	100.0%

Ffigwr 2. Canran Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg



Y Disgwyliad Ffurfiol fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol

O'r holl eitemau, yr eitem hon wnaeth dderbyn y nifer leiaf o "Pwysig Iawn" a'r nifer uchaf o "Ddim yn Bwysig o Gwbl", gan dderbyn 10.4% ac 11% o gyfanswm yr ymatebion yn ôl eu trefn. Roedd mwy na hanner y rhieni (53.9%) yn meddwl fod gwerthoedd Cristnogol yn

“Bwysig Iawn” neu'n “Bwysig” wrth ddewis ysgolion, a 46.1% o'r farn naill ai nad oedd hyn yn bwysig neu nad oedd hyn yn bwysig o gwbl.

Tabl 5. Pwysigrwydd Gwerthoedd Cristnogol wrth Ddewis Ysgol

	Pwysig Iawn	Pwysig	Ddim yn Bwysig	Ddim yn Bwysig o Gwbl	Cyfanswm
Nifer	16	67	54	17	154
%	10.4%	43.5%	35.1%	11.0%	100.0%

	Pwysig Iawn neu Bwysig	Ddim yn Bwysig neu Ddim yn bwysig o Gwbl
Nifer	83	71
%	53.9%	46.1%

Ffigwr 3. Canran Pwysigrwydd Gwerthoedd Cristnogol wrth Ddewis Ysgol



Nododd mwyafrif yr ymatebwyr fod *Gwerthoedd Cristnogol* naill ai'n “Bwysig” neu “Ddim yn Bwysig”, gyda 43.5% yn nodi eu bod yn bwysig a 35.1% yn nodi nad ydynt yn bwysig. Wrth rannu'r ymatebion i'r rhai Cadarnhaol (‘Pwysig Iawn’ a ‘Phwysig’) a'r rhai Negyddol (‘Ddim yn Bwysig’ a ‘Ddim yn Bwysig o Gwbl’), gwelwn fod ychydig mwy o ymatebwyr wedi ateb yn Gadarnhaol i'r eitem, o gymharu â'r rhai a atebodd yn Negyddol (53.9% yn ymateb yn Gadarnhaol a 46.1% yn ymateb yn Negyddol).

Tabl 6. Pwysigrwydd Gwerthoedd Cristnogol yn yr Ysgol fesul pob Ysgol Unigol, a hefyd y rhaniad rhwng yr ymatebion Cadarnhaol (Pwysig Iawn neu Bwysig) a'r ymatebion Negyddol (Ddim yn Bwysig neu Ddim yn Bwysig o Gwbl)

	Pwysig Iawn		Pwysig		Ddim yn Bwysig		Ddim yn Bwysig o Gwbl	
Ysgol Beuno Sant	2	12.5%	5	31.3%	8	50%	1	6.3%
Ysgol Bro Tegid			15	40.5%	16	43.2%	6	16.2%
Ysgol Bro Tryweryn	3	13.6%	12	54.6%	7	31.8%		
Ysgol Ffridd y Llyn	6	40.0%	5	33.3%	2	13.3%	2	13.3%
Ysgol OM Edwards	3	9.4%	13	40.6%	12	37.5%	4	12.5%
Ysgol y Berwyn	2	6.5%	16	51.6%	9	29.0%	4	12.9%
Dim ymateb			1	100.0%				
Cyfanswm	16	10.4%	67	43.5%	54	35.1%	17	11.0%

Pwysig Iawn neu Bwysig		Ddim yn bwysig neu Ddim yn Bwysig o Gwbl	
83	53.9%	71	46.1%

Yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol y Plant.

O ran yr ysgolion yn *Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol y Plant*, nododd 48.4% o'r ymatebwyr fod hyn yn "Bwysig" wrth ddewis ysgol, a nododd 36.8% ei fod yn "Bwysig Iawn" (gweler Tabl 7). O ran ymatebion negyddol, nododd 12.3% nad oedd yr eitem yn bwysig a dim ond 2.6% (4 person) wnaeth nodi nad oedd yn bwysig o gwbl. Wrth gymharu'r Cadarnhaol ("Pwysig Iawn" a "Phwysig") a'r Negyddol ("Ddim yn Bwysig", "Ddim yn Bwysig o Gwbl") gwelwn fod 85.2% o'r bobl wedi ymateb yn Gadarnhaol o gymharu ag 14.8% yn ymateb yn Negyddol.

Tabl 7. Pwysigrwydd Datblygiad Ysbrydol a Moesol

	Pwysig Iawn	Pwysig	Ddim yn Bwysig	Ddim yn Bwysig o Gwbl	Cyfanswm
Nifer	57	75	19	4	155
%	36.8%	48.4%	12.3%	2.6%	100.0%

Ffigwr 4. Canran Pwysigrwydd Datblygiad Ysbrydol a Moesol



Y Pellter Teithio i'r Ysgol.

Nododd dros hanner y rhieni (55.1%) fod y *Pellter Teithio i'r Ysgol* yn "Bwysig" wrth ddewis ysgol, ac roedd bron i draean (30.1%) yn nodi ei fod yn "Bwysig Iawn". Nododd cyfanswm o 14.7% o'r ymatebwyr naill ai nad oedd y pellter teithio yn bwysig neu nad oedd yn bwysig o gwbl.

Tabl 8. Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol

	Pwysig Iawn	Pwysig	Ddim yn Bwysig	Ddim yn Bwysig o Gwbl	Cyfanswm
Nifer	47	86	18	5	156
%	30.1%	55.1%	11.5%	3.2%	100.0%

Ffigwr 5. Canran Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol



Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon

Nododd mwyafrif y rhieni (81%) fod cael *Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon* yn "Bwysig Iawn", a nododd 18.4% ei fod yn "Bwysig". Felly, roedd 99.4% o'r rhieni wedi ymateb i'r eitem hon yn Gadarnhaol ("Pwysig Iawn" neu "Bwysig"), gan ei gosod yn ail i ansawdd yr addysg o ran eitemau cadarnhaol y rhestr hon. Dim ond un person wnaeth nodi nad oedd perthynas dda yn bwysig.

Tabl 9. Pwysigrwydd Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon

	Pwysig Iawn	Pwysig	Ddim yn Bwysig	Ddim yn Bwysig o Gwbl	Cyfanswm
Nifer	128	29	1	0	158
%	81.0%	18.4%	0.6%	0.0%	100.0%

Ffigwr 6. Canran Pwysigrwydd Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon



Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel ar Gael yn yr Ysgol

Yn yr un modd â'r eitem flaenorol, nododd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr (98.7%) fod *Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel* naill ai'n "Bwysig Iawn" (61.1%) neu'n "Bwysig" (37.6%). Nododd dau o'r rhieni (1.3%) nad oedd y rhain yn bwysig ac ni wnaeth neb nodi nad oeddynt yn bwysig o gwbl.

Tabl 10. Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel

	Pwysig Iawn	Pwysig	Ddim yn Bwysig	Ddim yn Bwysig o Gwbl	Cyfanswm
Nifer	96	59	2	0	157
%	61.1%	37.6%	1.3%	0.0%	100.0%

Ffigwr 7. Canran Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel



Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)

O ran darpariaethau ychwanegol, roedd 43.6% o'r rhieni yn teimlo fod *Darpariaethau Ychwanegol* yn "Bwysig", a 25% yn eu hystyried yn "Bwysig Iawn", felly roedd mwy na dwy ran o dair o'r rhieni wedi ymateb yn Gadarnhaol i'r eitem hon. Fodd bynnag, roedd 30.8% o'r rhieni yn teimlo nad oedd y rhain yn bwysig ac roedd un rhiant yn teimlo nad oeddynt yn bwysig o gwbl.

Tabl 11. Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)

	Pwysig Iawn	Pwysig	Ddim yn Bwysig	Ddim yn Bwysig o Gwbl	Cyfanswm
Nifer	39	68	48	1	156
%	25.0%	43.6%	30.8%	0.6%	100.0%

Ffigwr 8. Canran Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)



Crynodeb o Gwestiwn 4a

Roedd y cwestiwn yn adnabod elfennau oedd yn amlwg yn bwysig i rieni wrth ddewis ysgol. Yr eitem oedd yn cael ei hystyried bwysicaf yn fwyaf cyson oedd *Ansawdd yr Addysg*, ac nid oedd unrhyw un o'r rhieni wedi nodi naill ai nad oedd hyn yn bwysig neu nad oedd yn bwysig o gwbl. Er bod mwyafrif y rhieni yn teimlo ei bod yn bwysig i'r ysgol gefnogi *Datblygiad Ysbrydol a Moesol*, roedd y diffyg gwahaniaeth sylweddol rhwng ymatebwyr yn nodi ei bod yn bwysig i ysgol gael *Gwerthoedd Cristnogol* a'r rhai oedd yn teimlo nad oedd hynny yn bwysig, yn awgrymu nad yw'r *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* hwn o reidrwydd i fod mewn gosodiad traddodiadol neu Gristnogol ffurfiol. Yn ogystal, adnabuwyd elfennau amgylcheddol megis adeiladau ysgolion a pherthynas dda gydag athrawon fel ffactorau pwysig wrth ddewis ysgol.

Cwestiwn 4b: Trefnu Eitemau 4a yn ôl eu Pwysigrwydd.

Gofynnwyd i'r rhieni restru pa mor bwysig oedd pob un o'r saith elfen a welwyd yng nghwestiwn 4a, gan ddefnyddio graddfa o 1 i 7, a nodi 1 fel y lefel pwysicaf:

- Ansawdd yr addysg
- Y disgwyliad ffurfiol fod gwerthoedd Cristnogol wedi'u gwreiddio ym mywyd yr ysgol
- Yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y plant
- Y pellter teithio i'r ysgol
- Perthynas dda rhwng rhieni ac athrawon
- Adeiladau ac adnoddau o safon uchel ar gael yn yr ysgol
- Darpariaethau ychwanegol (e.e. clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol)

Mae'n ymddangos fod nifer o ymatebwyr wedi camddehongli'r cwestiwn hwn, ac ni wnaeth 69 o'r ymatebwyr (43.4%) gwblhau'r cwestiwn yn unol â'i fwriad. O'r herwydd, mae'r dadansoddiad a ganlyn yn cynnwys ymatebion 90 o rieni.

Ansawdd yr Addysg

Yn yr un modd â'r eitem yng Nghwestiwn 4a, nodwyd *Ansawdd yr Addysg* fel yr elfen bwysicaf wrth ddewis ysgol gyda 93.3% o'r rhieni yn ei osod yn gyntaf, 3.3% yn ei osod yn ail, a'r radd isaf a roddwyd iddo oedd 5ed.

Tabl 12. Graddau Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg

	1af	2il	3ydd	4ydd	5ed	6ed	7fed	Cyfan swm
Nifer	84	3	1	1	1	0	0	90
%	93.3%	3.3%	1.1%	1.1%	1.1%	0.0%	0.0%	100.0 %

Ffigwr 9. Canran Graddau Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg



Y Disgwyliad Ffurfiol fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol

Roedd y rhan fwyaf o'r graddau a roddwyd i'r eitem hon (84.5%) yn 5 neu'n is, gyda 21.1% yn ei gosod yn y chweched safle a bron i hanner (46.7%) yn ei gosod yn y seithfed safle. Drwy ei gymharu â Chwestiwn 4a, gwelir o'r rhieni a nododd fod *Gwerthoedd Cristnogol* yn "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig", mai dim ond 17% wnaeth osod yr eitem hon yn 1af neu'n 2il, gyda'r gyfran fwyaf (28.3%) yn ei gosod yn 5ed, a 15% yn ei rhoi yn 7fed. O'r rhai hynny wnaeth ateb nad oedd *Gwerthoedd Cristnogol* naill ai'n Bwysig neu Ddim yn Bwysig o Gwbl, gosododd 81% ohonynt yr eitem yn 7fed.

Tabl 13. Graddau Pwysigrwydd fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol

	1af	2il	3ydd	4ydd	5ed	6ed	7fed	Cyfans wm
Nifer	2	6	0	6	15	19	42	90
%	2.2%	6.7%	0.0%	6.7%	16.7%	21.1%	46.7%	100.0%

Ffigwr 10. Canran Graddau Pwysigrwydd fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol



Yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol y Plant.

O gymharu â'r eitem flaenorol, roedd dosbarthiad graddau Datblygiad Ysbrydol a Moesol yn fwy cytbwys, gyda'r gyfran fwyaf o ymatebwyr (23.3%) yn ei osod yn drydydd. Tra roedd 41.1% o ymatebwyr yn rhoi'r eitem yn y safle cyntaf, ail neu drydydd, gosododd 37.7% o ymatebwyr yr eitem yn bumed, chweched neu seithfed o ran pwysigrwydd.

Tabl 14. Graddau Pwysigrwydd fod yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol

	1af	2il	3ydd	4ydd	5ed	6ed	7fed	Cyfanswm
Nifer	2	14	21	19	13	19	2	90
%	2.2%	15.6%	23.3%	21.1%	14.4%	21.1%	2.2%	100.0%

Tabl 11. Canran Graddau Pwysigrwydd fod yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol



Y Pellter Teithio i'r Ysgol.

Nid oedd y *Pellter i'r Ysgol* yn cael ei raddio'n arbennig o uchel o ran y ffactorau sy'n effeithio ar rieni wrth iddynt ddewis ysgol, gyda 15.6% ohonynt yn ei osod yn ail neu'n 3ydd i'r ffactor, a neb yn ei ystyried fel y ffactor pwysicaf. Gosododd y gyfran fwyaf o rieni (32.2%) y ffactor yn bumed, a derbyniodd radd o 4ydd, 5ed neu 6ed gan bron i dri chwarter y rhieni (73.3%).

Tabl 15. Graddau Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol

	1af	2il	3ydd	4ydd	5ed	6ed	7fed	Cyfan swm
Nifer	0	7	7	19	29	18	10	90
%	0.0%	7.8%	7.8%	21.1%	32.2%	20.0%	11.1%	100.0 %

Ffigwr 12. Canran Graddau Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol



Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon

Barnwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 4a fod yr eitem hon yn ffactor pwysig i rieni wrth ddewis ysgol, ac mae patrwm tebyg i'w weld fan hyn, gydag 80% o'r ymatebwyr yn ei gosod yn 1af, 2il neu'n 3ydd. Fodd bynnag, dim ond un rhiant wnaeth osod yr eitem yn y safle cyntaf, gyda'r gyfran fwyaf (45.6%) yn ei gosod yn yr ail safle.

Tabl 16. Graddau Pwysigrwydd Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon

	1af	2il	3ydd	4ydd	5ed	6ed	7fed	Cyfan swm
Nifer	1	41	30	13	4	1	0	90
%	1.1%	45.6%	33.3%	14.4%	4.4%	1.1%	0.0%	100.0 %

Ffigwr 13. Canran Graddau Pwysigrwydd ar gyfer Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon



Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel

Mae dosbarthiad y graddau hyn wedi'u canoli rhwng yr 2il a'r 4ydd safle, ac roedd dros dri chwarter yr ymatebwyr (76.7%) yn eu sgorio'n ail, trydydd neu bedwerydd. Dim ond un ymatebwr wnaeth nodi mai *Adeiladau ac Adnoddau Ysgol* oedd yr elfen bwysicaf tra bod 3.3% o'r ymatebwyr wedi nodi mai hon fyddai'r eitem lleiaf pwysig.

Tabl 17. Graddau Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel

	1af	2il	3ydd	4ydd	5ed	6ed	7fed	Cyfan swm
Nifer	1	19	26	24	10	7	3	90
%	1.1%	21.1%	28.9%	26.7%	11.1%	7.8%	3.3%	100.0 %

Ffigwr 14. Canran Graddau Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel



Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)

Yng Nghwestiwn 4a nododd dwy ran o dair o'r ymatebwyr (68.6%) fod *Darpariaethau Ychwanegol* naill ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig". Fodd bynnag, o ran graddio darpariaethau ychwanegol yn ôl eu pwysigrwydd, ymddengys eu bod yn cael eu hystyried yn llai pwysig nag eitemau eraill ar y rhestr. Ni wnaeth unrhyw yn o'r ymatebwyr osod yr elfen hon yn gyntaf neu'n ail o ran pwysigrwydd, gyda 5.6% o ymatebwyr yn gosod yr eitem yn y trydydd safle a 85.6% yn ei graddio'n bumed neu'n is. Gosodwyd yr eitem hon yn y seithfed safle gan y gyfran fwyaf o rieni (36.7%).

Tabl 18. Graddau Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)

	1af	2il	3ydd	4ydd	5ed	6ed	7fed	Cyfan swm
Nifer	0	0	5	8	18	26	33	90
%	0.0%	0.0%	5.6%	8.9%	20.0%	28.9%	36.7%	100.0 %

Ffigwr 15. Canran Graddau Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)



Crynodeb o'r Cwestiwn

Mae Cwestiwn 4b yn cadarnhau casgliadau Cwestiwn 4a oedd yn awgrymu mai *Ansawdd yr Addysg* oedd y ffactor pwysicaf i'r ymatebwyr wrth iddynt ddewis ysgol. Er bod 95.6% a 4.4% yn nodi fod *Ansawdd yr Addysg* un ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig" yng Nghwestiwn 4a, yn y cwestiwn hwn gosododd 93.3% o'r ymatebwyr yr eitem hon yn gyntaf o'r saith eitem yn y rhestr. Yng Nghwestiwn 4a dosbarthwyd y *Disgwyliad bod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol* yn weddol gytbwys rhwng y rheini oedd yn teimlo ei fod yn bwysig a'r rheini oedd yn teimlo nad oedd yn bwysig, ond yng Nghwestiwn 4b roedd tueddiad i'r eitem gael ei gosod yn 4ydd neu'n is o ran pwysigrwydd. Yn ogystal, er bod *Darpariaethau Ychwanegol* megis clybiau brecwast yn cael eu nodi'n bwysig yn gyffredinol yng Nghwestiwn 4a, roedd tueddiad iddynt gael eu gosod yn isel o ran pwysigrwydd yng Nghwestiwn 4b, gyda'r gyfran fwyaf o'r ymatebwyr yn eu gosod yn y seithfed safle.

Rhoddwyd sgôr penodol i bob eitem drwy luosi nifer yr ymatebwyr oedd wedi'i gosod yn 1af, 2il, 3ydd ac ati gyda gwerth y radd honno. Felly, pe bai pawb wedi rhoi'r eitem yn 1af, byddai'n derbyn sgôr o 90 (1x90=90), pe bai pawb wedi ei rhoi yn 7fed, byddai'n derbyn sgôr o 630 (90 x 7 = 630), a phe bai'r ymatebion wedi'u rhannu rhwng 30 o ymatebwyr yn ei gosod yn drydydd, 50 yn ei gosod yn 4ydd a 10 yn ei gosod yn 5ed, byddai gan yr eitem honno sgôr o 280 (3 x 30 = 90; 4 x 50 = 200; 5 x 10 = 50 felly: 30 + 200 + 50 = 280). Trefnwyd yr eitemau hyn yn ôl eu sgôr, gyda sgôr uwch yn nodi fod yr eitem wedi cael ei gosod yn is ar y raddfa. Yn ôl y disgwyl, yn dilyn y dadansoddi blaenorol, *Ansawdd yr Addysg* a ddaeth yn gyntaf yn seiliedig ar y sgôr, gyda graddfa gyfartalog o 1.1. Daeth y *Berthynas rhwng Rhieni ac Athrawon* yn ail i hyn, ac yna *Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel* i ddilyn. Ar gyfartaledd roedd *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* yn fwy nag un radd uwchben *Gwerthoedd Cristnogol*. Rhoddwyd y sgôr uchaf i *Ddarpariaethau Ychwanegol*, oedd ond ychydig yn uwch na *Gwerthoedd Cristnogol*, ac ar gyfartaledd derbyniodd y ddau radd o 5.8 o ran pwysigrwydd.

Tabl 19. Eitemau Cwestiwn 4b wedi'u Trefnu yn ôl Sgôr Pwysigrwydd

	Sgôr	Gradd Gyfartalog
Ansawdd Addysg	102	1.1
Perthynas rhwng Rhieni ac Athrawon	251	2.8
Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel	326	3.6
Datblygiad Ysbrydol a Moesol	362	4.0
Pellter Teithio	434	4.8
Gwerthoedd Cristnogol	521	5.8
Darpariaethau Ychwanegol	524	5.8

Cwestiwn 5: Sylwadau Ychwanegol

O'r 159 o ymatebwyr, dewisodd 24 ohonynt gynnwys sylwadau ychwanegol yn yr adran hon. Dosbarthwyd hwy i un o dri dosbarth a cheir trafodaeth arnynt isod.

Crefydd ac Addysg

O'r 24 ymateb i Gwestiwn 5, roedd eu hanner yn ymwneud â'r berthynas rhwng crefydd ac addysg, tra roedd y gweddill yn ymwneud ag agweddau o addysg nad ydynt yn berthnasol i grefydd, ac fe'u trafodir isod. Roedd un o'r ymatebwyr yn teimlo fod ei ysgol

(Ysgol Ffridd y Llyn) yn rhagorol, ond roedd yn pryderu "bod y traddodiad cryf o addysg Gristnogol yn y wlad hon yn diflannu'n raddol". Roedd dau o'r farn y dylai rhieni gael yr hawl i anfon eu plant i ysgolion sy'n darparu addysg wedi'i hintegreiddio â chrefydd, waeth beth fo'u crefydd. Roedd un rhiant yn bryderus iawn nad oedd disgyblion sy'n mynychu Ysgol Beuno Sant yn ymwneud digon â'r Eglwys ac nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd. Dywedodd eraill eu bod o blaid ysgolion sy'n cael eu rhedeg gan yr Eglwys, a theimlant nad oedd yr holiadur yn adlewyrchu'r cysylltiadau cryf rhwng yr Eglwys a'r ysgol. Roeddynt yn teimlo'n gryf fod yr holiadur yn eu gorfodi i ddewis rhwng crefydd ac ansawdd yr addysg.

Roedd eraill yn teimlo i'r gwrthwyneb. Nododd un rhiant ei fod yn Gristion, ond nad oedd yn teimlo fod gan yr Eglwys rôl mewn addysg yng Nghymru, a theimlai fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y niferoedd bychain sy'n mynychu Ysgol Beuno Sant. Roedd eraill o'r farn fod ffactorau megis Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm, a'r gallu i gael cyfarwyddyd ysbrydol a chrefyddol yn yr eglwys, yn golygu nad oedd angen integreiddio ymhellach rhwng yr Eglwys ac addysg.

Ansawdd yr Addysg

Mynegodd nifer o ymatebwyr eu bod yn fodlon â safon yr addysg ar hyn o bryd, neu cynigwyd ffyrdd i wella ganddynt. Nodwyd gan rai ei bod hi'n bwysig bod addysg yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd un o'r farn ei bod hi'n bwysig iddi fod yn addysg wledig. Cred rhai fod dosbarthiadau bychain yn bwysig, tra bod eraill yn teimlo y dylai pob dosbarth gael yr un athrawon trwy'r amser gan bwysleisio gwerth staff dysgu da. Pwysleisiodd un o'r rhieni bwysigrwydd y chweched dosbarth yn Ysgol y Berwyn.

Cymuned

Nododd rhai o'r ymatebwyr hefyd ei bod hi'n bwysig i dref y Bala gadw ei hysgol uwchradd, ac y dylai hefyd agor fel canolfan ddysgu oedolion i gael datblygiad personol o fewn y gymuned. Awgrymodd un y byddai'n ddefnyddiol pe bai ysgolion yn medru derbyn plant am gyfnodau o hanner diwrnod cyn iddynt gychwyn yn llawn amser, ac y byddai hyn yn fuddiol i rieni sy'n gweithio.

Adran 3. Trafodaeth

Bwriad yr holiadur oedd casglu barn y rhieni o ran yr amrywiol elfennau sy'n eu harwain at ddewis ysgol i'w plant, ac i asesu'r angen am sefydliad addysg wedi'i redeg gan Gyngor Gwynedd ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru. Rhoddwyd un holiadur i bob plentyn ym mhob ysgol, ac o'r tua 674 o holiaduron (yn seiliedig ar ffigyrau Cyngor Gwynedd ar gyfer 2013) a fyddai wedi'u dosbarthu, daeth 160 ohonynt yn ôl (23.7%). Mae cyfraddau ymateb i holiaduron yn dueddol o fod yn isel, ond gan gofio ei bod yn bosib fod gan rieni fwy nag un plentyn ym mhob ysgol (neu yn achos 31 o'r ymatebion, o leiaf un plentyn mewn ysgol gynradd ac un plentyn yn Ysgol y Berwyn), gallwn ragdybio'n eithaf siŵr fod y 160 o ymatebwyr yn rieni i fwy na 160 o blant. Roedd nifer yr ymatebion a ddaeth o Ysgol y Berwyn yn unig (heb blant mewn ysgol gynradd) yn syfrdanol o isel (9.4%). Mae'r rhesymau am hyn yn aneglur, ond fe all gynrychioli fod rhieni'r plant hynny sy'n mynychu ysgol uwchradd yn amharod i roi eu barn ar fater sydd ond yn effeithio ar ysgolion cynradd. Wrth ystyried nifer yr ymatebwyr sydd â phlant sy'n mynychu ysgol gynradd ac Ysgol y Berwyn, mae nifer y rhieni sydd â phlant sy'n mynychu Ysgol y Berwyn yn cynyddu i 61, neu 19.1% o'r tua 319 o holiaduron a ddosbarthwyd.

O ran iaith yr ymatebion, fe wnaeth 59.4% lenwi'r holiadur drwy gyfrwng y Gymraeg, a 40.6% yn Saesneg. Er nad yw hyn yn adlewyrchu defnydd iaith aelwydydd, mae'r ffigyrau hyn yn ymdebygu'n fawr i ganlyniadau Cyfrifiad 2011 oedd yn awgrymu fod 56% o bobl Gwynedd yn medru siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. O'r herwydd, er gwaethaf maint gweddol fychan y sampl, byddai modd casglu fod y sampl yn adlewyrchu cyfansoddiad y boblogaeth o ran y defnydd o iaith, ei fod yn lled gynrychioli'r boblogaeth hon ac yn adlewyrchu barn rhieni sydd â phlant sy'n mynychu'r ysgolion cynradd lleol. Fodd bynnag, gan ystyried y gwahaniaeth yn nifer yr ymatebwyr sydd â phlant mewn ysgolion cynradd o gymharu ag ysgolion uwchradd, mae'n debygol na ellid gwneud unrhyw gymhariaeth ystyrlon rhwng y cynradd a'r uwchradd.

Ansawdd yr Addysg

Ar gyfer pob un o'r cwestiynau, roedd yr ymatebwyr yn tueddu i nodi mai'r dylanwad pwysicaf wrth ddewis ysgol yw ansawdd yr addysg. Wrth ymateb i Gwestiwn 3, lle'r oedd

gofyn i ymatebwyr nodi pa un o'r pedwar datganiad oedd yn cyfleu eu barn orau wrth ddewis ysgol, nododd 76.9% ohonynt "*yr unig beth sy'n bwysig i mi yw fod fy mhlentyn yn cael addysg dda*", gyda nifer o rieni'n gwneud sylwadau i'r perwyl hwn, megis, *"Our child's education is the most important thing to us as a family"*.

Roedd nifer fechan o'r ymatebwyr yn teimlo fod cwestiwn 3 yn eu gorfodi i ddewis rhwng addysg Gristnogol ac addysg o ansawdd uchel, gan ddadlau na fyddai neb yn dewis ysgol grefyddol sy'n darparu addysg wael. Fodd bynnag, yng Nghwestiwn 4a, gofynnwyd i'r rhieni restru pwysigrwydd ansawdd addysg wrth ddewis ysgol ar raddfa pedwar pwynt, a nododd 95.6% ohonynt ei fod yn "Bwysig Iawn", gyda 4.4% yn nodi ei fod yn "Bwysig". Ni wnaeth neb nodi "Ddim yn Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig o Gwbl". Pan ofynnwyd yng Nghwestiwn 4b iddynt raddio'r saith eitem o 1 i 7, gyda rhif 1 yn dynodi'r eitem bwysicaf, nododd 93.3% mai'r eitem hon oedd y pwysicaf. Y radd isaf a dderbyniodd yr eitem oedd 5ed o 7. Pan roddwyd sgoriau i'r graddau hyn (gweler Tabl 19), daeth *Ansawdd yr Addysg* yn gyntaf, gyda gradd gyfartalog o 1.1, mwy nag un radd gyfan yn uwch na'r eitem oedd yn y safle nesaf. Yn amlwg, yn seiliedig ar y data hwn, *Ansawdd yr Addysg* oedd y ffactor pwysicaf i bron iawn pob un o'r ymatebwyr.

Os y cytunir yn gyffredinol mai *Ansawdd yr Addysg* yw'r ffactor pwysicaf wrth ddewis ysgol, mae'r ffactorau sy'n galluogi hyn hefyd yn derbyn gradd uchel. O ran graddau cyfartalog (gweler Tabl 19), yr eitem a dderbyniodd yr ail radd uchaf (cyfartaledd o 2.8) oedd *Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon,* gydag *Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel* yn drydydd (cyfartaledd o 3.6). Fodd bynnag, *Darpariaethau Ychwanegol*, megis clybiau brecwast, ddaeth yn olaf, gyda gradd gyfartalog o 5.8. Ymddengys fod rhieni'n rhoi pwyslais uchel ar elfennau sy'n cyfrannu at addysg o ansawdd uchel, ond eu bod yn teimlo nad yw clybiau allgyrsiol yn ychwanegu fawr o werth i'r profiad addysgol.

Rôl Crefydd wrth Ddewis Ysgol

Yng Nghwestiwn 3, gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa ddatganiad oedd yn cyfleu eu barn orau wrth ddewis ysgol i'w plant. Roedd modd i'r rhieni ymateb eu bod yn dymuno anfon eu plentyn i ysgol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd yn unig, eu bod yn

dymuno anfon eu plentyn i ysgol sy'n cael ei chynnal ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru, bod cynnal ysgolion ar y cyd â'r Eglwys yn bwysig i ddarparu dewis i rieni (nid o reidrwydd hwy eu hunain), neu mai'r unig beth sy'n bwysig yw ansawdd yr addysg.

O'r ymatebwyr wnaeth ateb y cwestiwn, nododd 16% eu bod yn dymuno i'w plentyn fynychu ysgol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd yn unig, gan awgrymu difaterwch o ran mynychu ysgol gydag elfen grefyddol. Ysgrifennodd un o'r ymatebwyr eu bod yn poeni am rôl yr Eglwys yn y broses o benderfynu ar ddarpariaeth addysg. Roedd nifer y rhieni hyn yn fwy na'r nifer a atebodd ei bod yn bwysig i'w plant fynychu ysgol sy'n cael ei chynnal ar y cyd â'r Eglwys, neu fod gan rieni y dewis i anfon eu plant i'r ysgolion hyn, cyfanswm o 7.1%. Fodd bynnag, nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr (76.9%) mai'r unig beth oedd yn bwysig iddynt hwy oedd ansawdd addysg eu plant.

Wrth edrych ar hyn yn unigol, nid yw o reidrwydd yn awgrymu fod yna ddiffyg galw am ysgolion sy'n cael eu cynnal ar y cyd â'r Eglwys, dim ond bod 16% o'r sampl yn ymddangos yn ddifater ynghylch y syniad, neu nad oeddynt eisiau i'w plant fynychu un. Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi fod 59.5% o bobl Gwynedd a 64.8% o bobl ardal y Bala yn ystyried eu hunain yn Gristnogion (nid yw'r data enwadol ar gael), ac mae Cwestiwn 4a yn adlewyrchu hyn yn fras. Pan ofynnwyd iddynt restru pwysigrwydd *Y Disgwyliad Ffurfiol fod Gwerthoedd Cristnogol yn Greiddiol i fywyd yr Ysgol* ar raddfa pedwar pwynt, roedd yr ymatebion bron iawn wedi'u rhannu'n hafal, gydag ychydig mwy yn nodi ei fod naill ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig" (53.9%) o gymharu â naill ai "Ddim yn Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig o Gwbl" (46.1%). Wrth edrych ar y rhai hynny a ddywedodd eu bod yn dymuno i'w plant fynychu ysgol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd yn unig, nododd 39.1% fod Gwerthoedd Cristnogol yn "Bwysig", ond dim ond tri ohonynt (12%) wnaeth nodi nad oedd hynny'n "bwysig o gwbl".

Roedd y rhai hynny a nododd mai'r unig beth sy'n bwysig yw *Ansawdd yr Addysg* wedi'u rhannu bron yn union rhwng y rhai hynny a nododd fod *Gwerthoedd Cristnogol* naill ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig", a'r rhai hynny oedd yn teimlo eu bod naill ai "Ddim yn Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig o Gwbl" (52.1% o gymharu â 47.9% yn ôl eu trefn). Felly, ymddengys fod nifer o rieni'n dymuno cael rhyw elfen o *Werthoedd Cristnogol* yn ysgol eu plentyn, hyd yn oed os nad oedd yr ysgol yn cael ei chynnal ar y cyd â'r Eglwys yn ffurfiol.

Yng Nghwestiwn 4b gofynnwyd i rieni restru, yn ôl trefn eu pwysigrwydd, 7 ffactor all ddylanwadu ar eu penderfyniad wrth ddewis ysgol. Dim ond dau o'r bobl oedd wedi ymateb yn gywir i'r holiadur wnaeth nodi fod *Y Disgwyliad Ffurfiol o Werthoedd Cristnogol* yn dod yn gyntaf yn eu rhestr. Yn wir, fe wnaeth 84.5% nodi fod pwysigrwydd yr eitem hon o dan y canolrif (5ed, 6ed neu 7fed). O'r sawl wnaeth nodi fod *Gwerthoedd Cristnogol* yn "Bwysig Iawn" yng Nghwestiwn 4a (ac wedi llenwi 4b yn llwyddiannus), rhoddodd 3 ohonynt (50%) radd o un ai 5ed neu 6ed allan o saith i'r eitem. O'r sawl wnaeth nodi fod *Gwerthoedd Cristnogol* naill ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig" yng nghwestiwn 4a ac a lenwodd 4b yn llwyddiannus, rhoddodd 69.6% ohonynt radd o 5ed neu is i'r eitem, gyda 15.2% yn ei graddio'n 7fed. O'r sawl a nododd nad oedd *Gwerthoedd Cristnogol* yn "Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig o Gwbl", ac a lenwodd 4b, rhoddodd pawb radd o 5ed neu is i'r eitem, gydag 81% ohonynt yn ei gosod yn 7fed.

Mae'n glir fod oddeutu hanner yr ymatebwyr yn credu fod *Gwerthoedd Cristnogol* o leiaf yn "Bwysig", fodd bynnag, mae'n ymddangos er eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, nad ydynt yn cael eu hystyried i fod cyn bwysiced â *Pherthynas Dda gyda'r Athrawon*, neu *Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel* i addysg eu plant. Diddorol felly yw cymharu perfformiad yr eitem *Gwerthoedd Cristnogol* gyda'r eitem nesaf yn y rhestr, "*Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y plant*". Derbyniodd *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* radd uwch na *Gwerthoedd Cristnogol* ym mhob ymateb, gyda 85.2% yn nodi fod *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* naill ai'n "Bwysig Iawn" neu'n "Bwysig" (o gymharu â 53.9% ar gyfer *Gwerthoedd Cristnogol*). Derbyniodd yr eitem hon raddau uchel gan bobl a oedd wedi nodi nad oedd *Gwerthoedd Cristnogol* yn bwysig wrth ddewis ysgol. O ran y bobl a nododd nad oedd *Gwerthoedd Cristnogol* yn "Bwysig" neu "Ddim yn Bwysig o Gwbl", nododd 71.4% ohonynt fod *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* naill ai'n "Bwysig" neu'n "Bwysig Iawn" (54.3% o gymharu â 171% yn ôl eu trefn).

O gymharu â'r data ar *Werthoedd Cristnogol*, roedd graddau pwysigrwydd *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* wedi cael eu dosbarthu'n fwy cytbwys (gweler Ffigwr 16). Roedd ymatebwyr yn tueddu i osod yr eitem yn 5ed neu'n is yn llai aml na'r eitem *Gwerthoedd Cristnogol* (37.7% o ymatebion *Datblygiad Ysbrydol a Moesol* wedi'u gosod yn 5ed neu'n is

o gymharu â 84.5% ar gyfer *Gwerthoedd Cristnogol*), a gosododd 41.1% ohonynt yr eitem yn 1af, 2il neu'n 3ydd (2.2%, 15.6% a 23.3% yn ôl eu trefn) o ran pwysigrwydd.

Ffigwr 16. Cymharu Gwerthoedd Cristnogol a Datblygiad Ysbrydol a Moesol ar draws y Graddau Pwysigrwydd



	1st	2nd	3rd	4th	5th	6th	7th
Christian Values	2%	7%	0%	7%	17%	21%	47%
Spiritual/Moral Development	2%	16%	23%	21%	14%	21%	2%

Wrth gymharu'r graddau pwysigrwydd yn Nhabl 16, gwelwn fod gan Ddatblygiad Ysbrydol a Moesol radd gyfartalog o 4.0, tra bod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u gosod bron i ddwy radd yn is, gyda gradd gyfartalog o 5.8. Unwaith eto, er bod ychydig dros hanner y rhieni wedi nodi fod Gwerthoedd Cristnogol yn bwysig iddynt, ymddengys bod yr eitem yn cael ei gosod yn is na Datblygiad Ysbrydol a Moesol o ran pwysigrwydd, sydd ei hun yn eitem llai pwysig nag ansawdd yr addysg, yn ogystal â'r adnoddau sy'n galluogi hynny.

Sylwadau i Gloi

Mae'r holiadur a ddosbarthwyd i rieni dalgylch y Berwyn yn adnabod nifer o bwyntiau pwysig sy'n berthnasol i anghenion addysgol disgyblion a rhieni, yn ogystal â dyfodol darpariaeth addysg yr ardal. Mae tri prif bwynt yn deillio o'r dadansoddiad.

1. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n credu mai ansawdd yr addysg y mae eu plant yn ei derbyn yw'r ffactor pwysicaf wrth ddewis ysgol. Derbyniodd hwn bwyslais arbennig o uchel ac fe'i nodwyd fel y ffactor pwysicaf un gan bron i bob un o'r rhieni. Ymddengys bod y rhieni'n credu fod perthynas dda rhwng rhieni ac athrawon a chyfleusterau o safon uchel yn yr ysgolion yn hollbwysig ar gyfer darparu addysg ragorol, o ystyried eu graddau uchel a'u bod wedi'u gosod yn ail a thrydydd i ansawdd yr addysg.
2. Mae rhieni'n credu fod ffactorau megis y pellter i'r ysgol a darpariaethau ychwanegol yn bwysig wrth ddewis ysgol. Fodd bynnag, o gymharu â ffactorau eraill, nid ydynt mor bwysig â ffactorau megis ansawdd cyfleusterau'r ysgol a datblygiad ysbrydol a moesol yn yr ysgol.
3. Mae llawer o rieni hefyd yn credu fod datblygiad ysbrydol a moesol eu plant yn ffactor pwysig wrth ddewis ysgol. Mae tueddiad i hyn gael ei osod yn bwysicach nac ymgorffori Gwerthoedd Cristnogol yn addysg eu plant, hyd yn oed i rieni nad ydynt yn teimlo fod integreiddio gwerthoedd Cristnogol yn benodol yn bwysig iddynt. Er gwaethaf hyn, roedd ychydig dros hanner y rhieni (53.9%) yn teimlo ei bod hi'n bwysig neu'n bwysig iawn ymgorffori rhyw ffurf ar werthoedd Cristnogol yn addysg eu plentyn, ac nid ydynt o bosib yn gwrthwynebu'r syniad o gael addysg mewn ysgol sy'n cael ei chynnal gan yr Eglwys yng Nghymru.
4. Gan ystyried fod mwy na thri chwarter (76.9%) y rhieni'n dweud mai'r unig beth sy'n bwysig iddynt hwy wrth ddewis ysgol yw ansawdd yr addysg, mae'n deg tybio nad yw mwyafrif y rhieni yn nalgylch y Berwyn o reidrwydd yn pryderu p'un a yw ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd neu gan yr Eglwys yng Nghymru, cyn belled â bod yr ysgol yn darparu'r addysg orau bosib. Ar gyfer y mwyafrif hwn o rieni, mae'n amlwg mai ansawdd yr addysg yw'r flaenoriaeth, waeth pwy sy'n ei darparu.

Atodiad A: Mwy o Dablau Data

Maeʾr atodiad a ganlyn yn darparu dadansoddiad oʾr sgoriau aʾr graddau a roddwyd i bob eitem yng Nghwestiwn 3, 4a a 4b fesul ysgol. Maeʾr holl gyfansymiau yn cynrychioli cyfanswm yr ymatebion fesul ysgol. Caiff eitemau sydd yr un fath yng Nghwestiynau 4a a 4b eu cynnwys ar yr un dudalen er mwyn cymharu eu sgôr aʾu gradd. Noder fod yr ymatebwr nad oedd wedi cynnwys enw ysgol wedi cael ei eithrio o'r tablau hyn.

Tabl 20: Cwestiwn 3, Pa Ddatganiad Syʾn Cyfleu Barn Orau Wrth Ddewis Ysgol, Fesul Ysgol

	Plentyn yn Mynychu Ysgol a Gynhelir gan Gyngor Gwynedd yn Unig		Plentyn yn mynychu ysgol a gynhelir ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru		Ysgol yn cael ei chynnal ar y cyd â'r Eglwys yng Nghymru i roi'r Dewis i Rieni		Yr unig beth sy'n Bwysig yw Addysg Dda		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant			1	6.7%	3	20%	11	73.3%	15
Ysgol Bro Tegid	14	36.8%					24	63.2%	38
Ysgol Bro Tryweryn	1	4.2%	1	4.2%			22	91.7%	24
Ysgol Ffridd y Llyn	1	6.3%			3	18.8%	12	75.0%	16
Ysgol OM Edwards	6	18.8%			1	3.1%	25	78.1%	32
Ysgol y Berwyn	3	9.8%			2	6.5%	26	83.9%	31

Cwestiwn 4a a 4b: Ansawdd yr Addysg

Tabl 21: Cwestiwn 4a, Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg, Fesul Ysgol

	Pwysig Iawn		Pwysig		Ddim yn Bwysig	Ddim yn Bwysig o Gwbl	Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	14	87.5%	2	12.5%			16
Ysgol Bro Tegid	36	94.7%	2	5.3%			38
Ysgol Bro Tryweryn	25	100.0%		0.0%			25
Ysgol Ffridd y Llyn	15	100.0%		0.0%			15
Ysgol OM Edwards	31	96.9%	1	3.1%			32
Ysgol y Berwyn	29	93.5%	2	6.5%			31

Tabl 22: Cwestiwn 4b, Graddau Pwysigrwydd Ansawdd yr Addysg, Fesul Ysgol

	1af		2il		3ydd		4ydd		5ed		6ed	7fed	Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	8	88.8%							1	11.1%			9
Ysgol Bro Tegid	18	100.0%											18
Ysgol Bro Tryweryn	14	93.3%					1	6.7%					15
Ysgol Ffridd y Llyn	7	87.5%	1	12.5%									8
Ysgol OM Edwards	21	91.3%	1	4.3%	1	4.3%							23
Ysgol y Berwyn	16	94.1%	1	5.9%									17

Cwestiwn 4a a 4b: Y Disgwyliad Ffurfiol fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol

Tabl 23: Cwestiwn 4a, Pwysigrwydd y Disgwyliad Ffurfiol fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol

	Pwysig Iawn		Pwysig		Ddim yn Bwysig		Ddim yn Bwysig o Gwbl		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	2	12.5%	5	31.3%	8	50.0%	1	6.3%	16
Ysgol Bro Tegid			15	40.5%	16	43.2%	6	16.2%	37
Ysgol Bro Tryweryn	3	13.6%	12	54.5%	7	31.8%			22
Ysgol Ffridd y Llyn	6	40.0%	5	33.3%	2	13.3%	2	13.3%	15
Ysgol OM Edwards	3	9.4%	13	40.6%	12	37.5%	4	12.5%	32
Ysgol y Berwyn	2	6.5%	17	54.8%	9	29.0%	4	12.9%	31

Tabl 24: Cwestiwn 4b, Graddau Pwysigrwydd Disgwyliad Ffurfiol fod Gwerthoedd Cristnogol wedi'u Gwreiddio ym Mywyd yr Ysgol

	1af		2il		3ydd		4ydd		5ed		6ed		7fed		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	1	11.1%	2	22.2%					1	11.1%			5	55.5%	9
Ysgol Bro Tegid							3	16.7%			5	27.8%	10	55.6%	18
Ysgol Bro Tryweryn							2	13.3%	3	20.0%	4	26.7%	6	40.0%	15
Ysgol Ffridd y Llyn			1	12.5%			1	12.5%			1	12.5%	5	62.5%	8
Ysgol OM Edwards	1	4.3%	1	4.3%					7	30.4%	5	21.7%	9	39.1%	23
Ysgol y Berwyn			2	11.8%					4	23.5%	4	23.5%	7	41.2%	17

Cwestiwn 4a a 4b: Yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol y Plant.

Tabl 25: Cwestiwn 4a, Pwysigrwydd yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol y Plant.

	Pwysig Iawn		Pwysig		Ddim yn Bwysig		Ddim yn Bwysig o Gwbl		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	4	25%	10	62.5%	2	12.5%			16
Ysgol Bro Tegid	14	36.8%	16	42.1%	4	10.5%	4	10.5%	38
Ysgol Bro Tryweryn	9	40.9%	10	45.5%	3	13.6%			22
Ysgol Ffridd y Llyn	9	56.3%	5	31.3%	2	12.5%			16
Ysgol OM Edwards	11	34.4%	16	50.0%	5	15.6%			32
Ysgol y Berwyn	10	33.3%	17	56.7%	3	10%			30

Tabl 26: Cwestiwn 4b, Graddau Pwysigrwydd yr Ysgol yn Cefnogi Datblygiad Ysbrydol a Moesol y Plant.

	1af		2il		3ydd		4ydd		5ed		6ed		7fed		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant			1	11.1%			2	25.0%	3	25.0%	3	37.5%			9
Ysgol Bro Tegid			3	16.7%	4	22.2%	4	22.2%	4	22.2%	3	16.7%			18
Ysgol Bro Tryweryn			2	13.3%	3	20.0%	1	6.7%	1	6.7%	7	46.7%	1	6.7%	15
Ysgol Ffridd y Llyn	1	12.5%	2	25.0%			3	37.5%			2	25.0%			8
Ysgol OM Edwards	1	4.3%	2	8.7%	7	30.4%	5	21.7%	4	17.4%	4	17.4%			23
Ysgol y Berwyn			4	23.5%	7	41.2%	4	23.5%	1	5.9%			1	5.9%	17

Cwestiwn 4a a 4b: Pellter Teithio i'r Ysgol

Tabl 27: Cwestiwn 4a, Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol

	Pwysig Iawn		Pwysig		Ddim yn Bwysig		Ddim yn Bwysig o Gwbl		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	3	18.8%	13	81.3%					16
Ysgol Bro Tegid	13	34.2%	18	47.4%	5	13.2%	2	5.3%	38
Ysgol Bro Tryweryn	11	50.0%	9	40.9%	1	4.5%	1	4.5%	22
Ysgol Ffridd y Llyn	4	25.0%	11	68.8%	1	6.3%			16
Ysgol OM Edwards	10	31.3%	15	46.9%	6	18.8%	1	3.1%	32
Ysgol y Berwyn	6	19.4%	20	64.5%	4	12.9%	1	3.2%	31

Tabl 28: Cwestiwn 4b, Graddau Pwysigrwydd Pellter Teithio i'r Ysgol

	1af	2il	3ydd	4ydd	5ed	6ed	7fed	Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	1 11.1%	1 11.1%	2 22.2%	2 22.2%	2 22.2%	1 11.1%		9
Ysgol Bro Tegid		2 11.1%	2 11.1%	7 38.9%	5 27.8%	2 11.1%		18
Ysgol Bro Tryweryn	4 26.7%		4 26.7%	7 46.7%				15
Ysgol Ffridd y Llyn		1 12.5%	1 12.5%	2 25.0%	3 37.5%	1 12.5%		8
Ysgol OM Edwards	2 8.7%	1 4.3%	7 30.4%	5 21.7%	5 21.7%	3 13.0%		23
Ysgol y Berwyn		2 11.8%	3 17.6%	6 35.3%	3 17.6%	3 17.6%		17

Cwestiwn 4a a 4b: Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon

Tabl 29: Cwestiwn 4a, Pwysigrwydd Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon

	Pwysig Iawn		Pwysig		Ddim yn Bwysig		Ddim yn Bwysig o Gwbl		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	12	75.0%	4	25.0%					16
Ysgol Bro Tegid	35	92.1%	3	7.9%					38
Ysgol Bro Tryweryn	22	91.7%	2	8.3%					24
Ysgol Ffridd y Llyn	13	81.3%	3	18.8%					16
Ysgol OM Edwards	24	75.0%	7	21.9%	1	3.1%			32
Ysgol y Berwyn	21	67.7%	10	32.3%					31

Tabl 30: Cwestiwn 4b, Graddau Pwysigrwydd Perthynas Dda rhwng Rhieni ac Athrawon

	1af		2il		3ydd		4ydd		5ed		6ed		7fed		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant			3	33.3%	3	33.3%	2	22.2%			1	11.1%			9
Ysgol Bro Tegid			11	61.1%	7	38.9%									18
Ysgol Bro Tryweryn			8	53.3%	6	40.0%	1	6.7%							15
Ysgol Ffridd y Llyn			1	12.5%	3	37.5%	2	25.0%	2	25.0%					8
Ysgol OM Edwards			12	52.2%	6	26.1%	3	13.0%	2	8.7%					23
Ysgol y Berwyn	1	5.9%	6	35.3%	5	29.4%	5	29.4%							17

Cwestiwn 4a a 4b: Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel ar Gael yn yr Ysgol

Tabl 31: Cwestiwn 4a, Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel ar Gael yn yr Ysgol

	Pwysig Iawn		Pwysig		Ddim yn Bwysig		Ddim yn Bwysig o Gwbl		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	7	43.8%	9	56.3%					16
Ysgol Bro Tegid	27	71.1%	11	28.9%					38
Ysgol Bro Tryweryn	15	60.0%	8	32.0%					25
Ysgol Ffridd y Llyn	10	62.5%	5	31.3%	1	6.3%			16
Ysgol OM Edwards	20	62.5%	11	34.4%	1	3.1%			32
Ysgol y Berwyn	17	53.1%	15	46.9%					31

Tabl 32: Cwestiwn 4b, Graddau Pwysigrwydd Adeiladau ac Adnoddau o Safon Uchel ar Gael yn yr Ysgol

	1af		2il		3ydd		4ydd		5ed		6ed		7fed		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant			2	22.2%	4	44.4%	2	22.2%			1	1.1%			9
Ysgol Bro Tegid			4	22.2%	5	27.8%	6	33.3%	2	11.1%			1	5.6%	18
Ysgol Bro Tryweryn	1	6.7%	1	6.7%	4	26.7%	4	26.7%			3	20.0%	2	13.3%	15
Ysgol Ffridd y Llyn			3	37.5%	2	25.0%			2	25.0%	1	12.5%			8
Ysgol OM Edwards			5	21.7%	8	34.8%	7	30.4%	2	8.7%	1	4.3%			23
Ysgol y Berwyn			4	23.5%	3	17.6%	5	29.4%	4	23.5%	1	5.9%			17

Cwestiwn 4a a 4b: Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)

Tabl 33: Cwestiwn 4a, Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)

	Pwysig Iawn		Pwysig		Ddim yn Bwysig		Ddim yn Bwysig o Gwbl		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant	6	37.8%	6	37.8%	4	25.0%			16
Ysgol Bro Tegid	11	28.9%	17	44.7%	10	26.3%			38
Ysgol Bro Tryweryn	5	22.7%	14	63.6%	2	9.1%	1	4.5%	22
Ysgol Ffridd y Llyn	7	43.8%	5	31.3%	4	25.0%			16
Ysgol OM Edwards	7	21.9%	12	37.5%	13	40.6%			32
Ysgol y Berwyn	3	9.7%	14	45.2%	14	45.2%			31

Tabl 34: Cwestiwn 4b, Graddau Pwysigrwydd Darpariaethau Ychwanegol (e.e. Clybiau Brecwast, Clybiau ar ôl Ysgol)

	1af	2il	3ydd		4ydd		5ed		6ed		7fed		Cyfanswm
Ysgol Beuno Sant			1	11.1%	1	11.1%	2	22.2%	2	22.2%	3	33.3%	9
Ysgol Bro Tegid					3	16.7%	5	27.8%	5	27.8%	5	27.8%	18
Ysgol Bro Tryweryn			2	13.3%	2	13.3%	4	26.7%	1	6.7%	6	40.0%	15
Ysgol Ffridd y Llyn			2	25.0%	1	12.5%	2	25.0%	1	12.5%	2	25.0%	8
Ysgol OM Edwards					1	4.3%	3	13.0%	8	34.8%	11	47.8%	23
Ysgol y Berwyn							2	11.8%	9	52.9%	6	35.3%	17

Atodiad B: Yr Holiadur

A

1. Ym mha dref/pentref ydych chi'n byw?

2. Pa ysgol mae eich plentyn (plant) yn ei mynychu? (Rhowch dic yn erbyn y rhai perthnasol)

Ysgol Beuno Sant	☐	1
Ysgol Bro Tegid	☐	2
Ysgol Bro Tryweryn	☐	3
Ysgol Ffridd y Llyn	☐	4
Ysgol OM Edwards	☐	5
Ysgol y Berwyn	☐	6

3. Pa ddatganiad sy'n cyfleu eich barn orau wrth ddewis ysgol i'ch plentyn? (Ticiwch **un** ateb yn unig)

Mae'n bwysig i mi fod fy mhlentyn yn mynychu ysgol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd yn unig	☐	1
Mae'n bwysig i mi fod fy mhlentyn yn mynychu ysgol sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Gwynedd mewn partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru a gyda chefnogaeth gan enwadau Cristnogol eraill	☐	2
Mae'n bwysig fod ysgolion a gynhelir gan Gyngor Gwynedd mewn partneriaeth â'r Eglwys yng Nghymru a gyda chefnogaeth gan enwadau Cristnogol eraill ar gael yn fy ardal er mwyn cynnig dewis i rieni	☐	3
Yr unig beth sy'n bwysig i mi yw bod fy mhlentyn yn cael addysg dda.	☐	4

Unrhyw sylwadau eraill (nodwch os gwelwch yn dda):

4a. Dyma restr o ffactorau all ddylanwadu ar eich penderfyniad wrth ddewis ysgol i'ch plentyn. Nodwch bwysigrwydd y pwyntiau hyn gan dicio <u>un</u> blwch i bob pwynt.

	1 **Pwysig Iawn**	2 **Pwysig**	3 **Ddim yn Bwysig**	4 **Ddim yn bwysig o gwbl**
Ansawdd yr addysg	☐	☐	☐	☐
Y disgwyliad ffurfiol fod gwerthoedd Cristnogol wedi'u gwreiddio ym mywyd yr ysgol	☐	☐	☐	☐
Yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y plant	☐	☐	☐	☐
Y pellter teithio i'r ysgol	☐	☐	☐	☐
Perthynas dda rhwng rhieni ac athrawon	☐	☐	☐	☐
Adeiladau ac adnoddau o safon uchel ar gael yn yr ysgol	☐	☐	☐	☐
Darpariaethau ychwanegol (e.e. clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol)	☐	☐	☐	☐

4b. Rhestrwch y pwyntiau isod yn ôl eu pwysigrwydd. Defnyddiwch raddfa o 1 i 7 gan nodi 1 fel y pwysicaf.

Ansawdd yr addysg	☐
Y disgwyliad ffurfiol fod gwerthoedd Cristnogol wedi'u gwreiddio ym mywyd yr ysgol	☐
Yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y plant	☐
Y pellter teithio i'r ysgol	☐
Perthynas dda rhwng rhieni ac athrawon	☐
Adeiladau ac adnoddau o safon uchel ar gael yn yr ysgol	☐
Darpariaethau ychwanegol (e.e. clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol)	☐

5. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu ynghylch y materion sydd wedi'u cynnwys yn yr holiadur hwn?

Adroddiad Asesiad Ardrawiad Cymunedol

Modelau Posib Dalgylch Y Berwyn



www.gwynedd.gov.uk

Mapiwyd y map hwn o Ddaeargrid yr Ordnance Survey gyda chaniatâd yr Ordnance Survey ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.
© Hawlfraint y Goron. Mae atgynyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008
This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office
© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Gwynedd - 100023387 -2008

CYNNWYS

		Tudalen
1.	Cyflwyniad	3
2.	Crynodeb o'r dalgylch	4
3.	Ysgolion y Dalgylch	5
3.1	Cyd-destun yr ysgolion yn ôl arolygiadau Estyn	5
3.2	Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion	7
3.3	Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig	7
3.4	Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig	8
3.5	Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol	8
3.6	Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?	9
3.7	Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch	9
3.8	Asesiad o effaith ardrawiad cymunedol modelau posibl	10
4.	Casgliadau	11

1. CYFLWYNIAD

Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, mae angen gwneud asesiad effaith cymunedol yn unol a Chod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013. Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig.

"Mewn rhai ardaloedd, gall yr ysgol fod yn ganolbwynt i weithgarwch cymunedol hefyd, a gallai goblygiadau ei chau fod yn fwy na mater o ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd arbennig mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgol ar gyfer darparu gwasanaethau i'r gymuned leol."

"Dylai'r achos y mae cyflwynwyr cynigion yn ei baratoi dangos bod asesiad wedi'i gynnal ar effaith cau ysgol ar y gymuned, a sut y gallai'r cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd gael eu cynnal. Os oes cynnig i gau ysgol, dylai Awdurdodau Lleol ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd i gynnal neu wella ymgysylltu â'r broses addysg ac â chyfleusterau eraill a gynigir gan ysgolion fel gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol a allai helpu i fynd i'r afael â thlodi plant."

Ffynhonnell: Cylchlythyr 006 /2013

Mae trafodaethau ad-drefnu ysgolion yn cael eu cynnal yn nalgylch Y Berwyn sef yr ardal o amgylch Y Bala, ym Meirionnydd. O fewn dalgylch Y Berwyn mae 6 ysgol; un ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion 11-19 (Ysgol Y Berwyn) a 5 ysgol gynradd. Mae Ysgol Bro Tegid ac Ysgol Beuno Sant syn nhref y Bala a mae tair ysgol gynradd wledig - Ysgol OM Edwards yn Llanuwchllyn, Ysgol Bro Tryweryn yn Frongoch, ac Ysgol Ffridd y Llyn yng Nghefnddwysarn.

2. CRYNODEB O'R DALGYLCH

Yr Ardal

Mae tref Y Bala yn hen dref farchnad ar lan llyn naturiol mwyaf Cymru, Llyn Tegid ac o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Bala a Phenllyn yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg a'r diwylliant ac mae ei thirwedd naturiol, golygfeydd, amaethyddiaeth a'i hanes cyfoethog yn ei gwneud yn ardal adnabyddus trwy Gymru.

Mae'r dalgylch sy'n cwmpasu tref Y Bala hefyd yn cynnwys ardaloedd Cymunedau Llanuwchllyn, Llandderfel, Llanycil a Llangower.

Mae dalgylch Y Berwyn yn ddalgylch gwledig iawn yn gryf, o ran hanes, ac yn gadernid i'r iaith Gymraeg. Ceir nifer o gymunedau unigol, sydd â hunaniaeth gref. Mae'r dalgylch yn ddiwylliannol fywiog gyda nifer o weithgareddau megis corau cerdd dant a phartïon llefaru, corau, aelwydydd yr Urdd, traddodiad Eisteddfodol cref a chlybiau ffermwyr ifanc.

Yr Economi

Mae economi'r ardal yn ddibynnol iawn ar nifer fechan o sectorau amlwg, sef y sector cyfanwerthu/ dosbarthu manwerthu, Gwestai, arlwyo, y sector gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd a'r sector gwneuthuro. O ran cyfleodd cyflogaeth mae 22.53% o'r boblogaeth sydd mewn cyflogaeth (boed yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig) yn cael eu cyflogi yn y sector a nodir gyntaf uchod, 21.36% yn gweithio yn yr ail a 18.90% yn y trydydd. Mae'r sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota hefyd yn bwysig gyda 11.54% o'r boblogaeth yn gyflogedig yn y sector yma. Mae amlygrwydd a phwysigrwydd y sectorau yma i'r economi ac i gyflogaeth ac incwm lleol yn adlewyrchu'r tueddiad sirol a chenedlaethol o ddibyniaeth arnynt.

Amddifadedd

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 (Malc) dynodir ward Llandderfel a Llanuwchllyn a ward Y Bala yn y 50% isaf o fewn Gwynedd.

Yn ôl Uned Data Llywodraeth Leol, mae Llanuwchllyn a Llandderfel yn rhif 53 allan o 70 ardal yng Nghymru sydd wedi eu hadnabod fel ardaloedd mwyaf pell o wasanaethau.

Noda cyfrif hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm) fod 1.8% o boblogaeth oedran gweithio Bala a Penllyn yn derbyn y lwfans hwn ym mis Rhagfyr 2005, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Gwynedd o 2.6%. Roedd y % uchaf o'r hawlwyr i'w canfod yn ward Y Bala (2.6%), gyda Llandderfel yn is (1.4%) a'r % isaf o hawlwyr i'w canfod yn ward Llanuwchlllyn (0.8%).

O'r 2.1% o Hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn Bala a Penllyn mae 47.5% ohonynt yn perthyn i'r grŵp oedran 25-49, a'r mwyafrif o'r cyfan ohonynt (65.6%) yn ddiwaith ers llai na chwe mis. Mae'r patrwm yn Bala a Penllyn yn dilyn y tueddiadau sirol a chenedlaethol.

3. Ysgolion Y Dalgylch

3.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i ysgolion dalgylch Y Berwyn gan arolygwyr Estyn.

Ysgol Y Berwyn

Mae Ysgol Y Berwyn yn Ysgol gymunedol, naturiol ddwyieithog ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 mlwydd oed, wedi ei lleoli yn nhref fechan Y Bala. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal wledig eang. Daw rhan fwyaf y disgyblion o bum ysgol gynradd y dalgylch yng Ngwynedd. Mae carfan fechan o ddysgwyr yn trosglwyddo o ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych a Chonwy. Chwech y cant o ddisgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, ffigur sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.7%. Mae 22% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, gyda 3% ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ffigyrau hyn ychydig yn uwch na'r ffigyrau cenedlaethol. Daw 79% o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg eu hiaith ond mae 97% o'r disgyblion yn dilyn y llwybr mamiaith yn y Gymraeg TGAU. Nid oes disgybl yn derbyn cymorth ar gyfer dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol.
(Tachwedd 2013)

Ysgol Beuno Sant

Mae Beuno Sant yn ysgol gynradd wirfoddol dan gymorth yr Eglwys yng Nghymru sy'n gwasanaethu tref y Bala a'r cyffiniau. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn amser llawn i'r dosbarth yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae 20% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol ar hyn o bryd, sydd yn agos at gyfartaledd Cymru. Daw 58% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn nodi mai dim ond 6% o ddisgyblion sydd o gefndir lle'r Gymraeg yw prif iaith yr aelwyd. Cymraeg yw cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed. Mae tua 34% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.
(Ebrill 2014)

Ysgol Bro Tegid

Mae Ysgol Bro Tegid, sydd wedi ei lleoli yn nhref Y Bala, yn gwasanaethu'r dref a'r ardal wledig o'i chwmpas. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Derbynnir hwy (*disgyblion*) i'r ysgol yn y Medi wedi iddynt gael eu pedwerydd pen-blwydd.

Daw 71% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf; 1% o gefndir lleiafrifol ethnig a'r gweddill o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith cyfathrebu. Y Gymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu'r ysgol. Cynrychiolir amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac ni ystyrir bod yr ardal yn un ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Saith y cant o'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Dynodir 27% o ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig gyda 1% ar ddatganiad.
(Chwefror 2011)

Ysgol Bro Tryweryn

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Fron Goch sydd oddeutu ddwy filltir o dref Y Bala yng Ngwynedd. Mae bron pob disgybl o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Nid oes yr un disgybl sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae gan 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Nid oes yr un disgybl sydd yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.
(Tachwedd 2014)

Ysgol Ffridd y Llyn

Mae Ysgol Ffridd y Llyn yn ysgol ardal, naturiol ddwyieithog wedi'i lleoli hanner ffordd rhwng pentrefi Sarnau a Llandderfel, nepell o'r Bala yn Sir Gwynedd. Sefydlwyd yr ysgol yn 1977 a gwasanaetha'r ysgol y Pentref a'r ardal gyfagos.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o 3-11 oed. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod allu lawn ac ar y cyfan, mae eu cyrhaeddiad yn dda pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae'r ardal yn un sydd heb fod o dan anfantais na mantais economaidd. 4% o ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru ar ffurflen gyfrifiad yr ysgol fel rhai sydd â hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol a bernir bod 76% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn iaith gyntaf, neu i safon gyfatebol. Daw 56% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn iaith gyntaf, neu i safon gyfatebol. Daw 56% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel prif iaith a 44% o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith y teulu.

Mae pob disgybl yn perthyn i'r grŵp ethnig gwyn. Nid yw'r Cyngor Sir yn 'gofalu' am unrhyw blentyn ac nid oes un disgybl yn derbyn gwersi yn Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan un disgybl ddatganiad anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae tri disgybl arall wedi eu hadnabod fel rhai y mae anghenion dysgu ychwanegol (ADY) arnynt.
(Chwefror 2010)

Ysgol O.M. Edwards

Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentref Llanuwchllyn a'r ardal amaethyddol o'i chwmpas. Nid ystyrir yr ardal yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae tua 2% o'r disgyblion a hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae tua 10% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Mae 3% yn derbyn cymorth ar lefel gweithredu gan yr ysgol, 3% yn derbyn cymorth ar lefel gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac mae 3% â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r holl ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig.

Ystyrir yr ysgol yn un naturiol Gymraeg. Daw 88% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Y Gymraeg yw prif gyfrwng addysg a gwaith yr ysgol. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen gyda'r Saesneg yn cael ei chyflwyno'n raddol i blant o Flwyddyn 1 ymlaen pan yw'n briodol i'r unigolyn. Addysgir yr holl ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o saith oed ymlaen gyda'r nod o gael y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed.
(Mai 2012)

3.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Ysgol	Capasiti Llawn	Nifer ar y gofrestr Medi 2014	Nifer o Lefydd Gwag 2014	% o Lefydd Gwag 2014	Dynodiad yr Ysgol
Ffridd Y Llyn	71	64	7	10%	Cymunedol
OM Edwards	98	94	4	4%	Cymunedol
Bro Tryweryn	60	49	11	18%	Cymunedol
Bro Tegid	95	115	0	0%	Cymunedol
Beuno Sant	89	46	43	48%	Gwirfoddol a Gynorthwyir (Eglwys yng Nghymru)
Y Berwyn	730	317	413	57%	Cymunedol

3.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion disgyblion

Ag eithrio Ysgol Beuno Sant, mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddisgyblion fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad). Does gan Ysgol Beuno Sant ddim dalgylch am ei bod yn ysgol Eglwysig.

Disgyblion All-Dalgylch Cynradd:

		Byw yn Dalgylch Ysgol (Medi 2014)							
		Bro Tegid	**OM Edwards**	**Bro Tryweryn**	**Ffridd y Llyn**	**Beuno Sant**	**Arall**	**Cyfanswm Ysgol**	**Cyfanswm All-dalgylch mesul Ysgol**
Mynychu Ysgol (Medi 2014)	**Bro Tegid**	108	1	1	3	*Ysgol Eglwysig felly dim dalgylch wedi ei diffinio*	2 x Gwynedd	**115**	**7 (6%)**
	OM Edwards	5	86	3	0		0	**94**	**8 (9%)**
	Bro Tryweryn	2	9	30	2		2 x Dinbych 1 x Conwy	**46**	**16 (35%)**
	Ffridd y Llyn	12	1	3	40		4 x Dinbych 3 x Llandrillo / Corwen 1 x Maesincla	**64**	**24 (38%)**
	Beuno Sant	43	0	1	1		1 x Dinbych	**46**	**-**
	Arall	43	0	1	1				
Cyfanswm yn byw y Dalgylch		**171**	**97**	**38**	**46**				
Cyfanswm All-dalgylch mesul dalgylch		**63 (37%)**	**11 (11%)**	**8 (21%)**	**6 (13%)**				
Cyfanswm Disgyblion All-dalgylch		**88 (25%)**							

Disgyblion All-dalgylch Uwchradd:

	Byw yn Dalgylch Ysgol (Medi 2014)					
	Y Berwyn	**Y Moelwyn**	**Ardudwy**	**Y Gader**	**All Sirol**	**Cyfanswm**
Mynychu Ysgol y Berwyn 2014-15	240 (76%)	5 (1%)	1 (1%)	1 (1%)	70 (22%)	**317**
Cyfanswm Disgyblion All-dalgylch		77 (24%)				

3.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig

	Bala (Ysgolion Bro Tegid, Y Berwyn a Beuno Sant)	OM Edwards	Bro Tryweryn	Ffridd y Llyn
Canolfan Gymuned	✓	✓		
Capel/Eglwys	✓	✓	✓	✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓		
Siop	✓	✓	✓	
Caffi/Tafarn	✓	✓		
Swyddfa Bost	✓	✓		
Meddygfa/Fferyllfa	✓			
Llyfrgell	✓			
Cae Chwarae Plant	✓		✓	
Banc	✓			
Cartref Henoed	✓			
Canolfan Hamdden	✓			
Garej	✓	✓		
Atyniad Twristaidd	✓	✓	✓	
Neuadd y Pentref	✓	✓	✓	
Cylch Ti a Fi	✓	✓	✓	

3.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol

	Bro Tegid	Beuno Sant	O M Edwards	Bro Tryweryn	Ffridd y Llyn	Y Berwyn
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)			✓			✓
Aelwyd yr Urdd		✓	✓			
Dramâu						✓
Grwpiau Gwirfoddol						✓
Bore/Noson Goffi			?			
Arwerthiant Cymunedol						✓
Llyfrgell Cymunedol						✓
Ymarfer Côr						✓
Cymraeg i Oedolion						✓
Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned						✓
Cylch/Ysgol Feithrin	✓		✓			
Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon		✓	✓			✓
Clwb ar ôl Ysgol		✓	✓		✓	✓
Clwb Diddordeb Lleol			✓	✓		✓

3.6 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?

Ysgol	Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau
Ffridd Y Llyn	Mae safle'r ysgol yn parhau ym mhob un o'r modelau arfaethedig a ystyrir.
OM Edwards	Mae safle'r ysgol yn parhau ym mhob un o'r modelau arfaethedig a ystyrir.
Bro Tryweryn	Mae safle'r ysgol yn parhau ym mhob un o'r modelau arfaethedig a ystyrir.
Bro Tegid	Bydd modd defnyddio safle ac adnoddau'r Campws Gydol Oes arfaethedig sydd o fewn pellter rhesymol.
Beuno Sant	Bydd modd defnyddio safle ac adnoddau'r Campws Gydol Oes arfaethedig sydd o fewn pellter rhesymol
Y Berwyn	Mae safle'r ysgol yn parhau ym mhob un o'r modelau arfaethedig a ystyrir.

Dylid nodi y bydd safle unrhyw ysgol sy'n cau yn cael ystyriaeth ôl-ddefnydd yn unol â pholisi ôl-ddefnydd y Cyngor.

3.7 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Dyma'r pellteroedd teithio i'r ysgolion eraill yn y dalgylch.

Ysgol	Pellter ac amser teithio i ysgolion eraill Dalgylch Y Berwyn					
	Pellter ac Amser	OM Edwards	Bro Tryweryn	Bro Tegid	Beuno Sant	Y Berwyn
Ffridd Y Llyn	Milltiroedd	8.9	5.8	3.0	3.0	3.0
	Munudau	512	10	5	5	5
OM Edwards	Milltiroedd		8.5	5.5	5.5	5.5
	Munudau		14	8	8	8
Bro Tryweryn	Milltiroedd			2.7	2.7	2.5
	Munudau			12	10	10
Bro Tegid					200m	200m
	Munudau				5	5
Beuno Sant						50m
	Munudau					1
Y Berwyn	Milltiroedd					
	Munudau					

3.8 Asesiad o effaith ardrawiad cymunedol modelau posib

Model 1	Gwneud dim.	Dim newid i'r sefyllfa bresennol
Model 2	• Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu Campws Gydol Oes (CGO) ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala • Yna creu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y CGO a'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn.	Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Cyfle i gryfhau cydweithio cymunedol yn yr ardal ehangach drwy'r Cyd-bwyllgor.
Model 3	• Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala. • Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gan greu cydbwyllgor dalgylchol rhwng y ffederasiwn a'r CGO.	Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth addysg o fewn y cymunedau gwledig a sicrhau cydweithio cymunedol yn yr ardal ehangach drwy'r Cyd-bwyllgor.
Model 4	• Cau ysgolion y Berwyn a Bro Tegid a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala. • Sefydlu Ymddiriedolaeth Gydweithio Leol rhwng Ysgol Beuno Sant a'r CGO • Ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn parhau fel ag y maent.	Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Dim newid yn yr ardaloedd gwledig
Model 5	• Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid, Beuno Sant Bro Tegid, OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala	Byddai hwn yn newid arwyddocaol i gymunedau'r dalgylch. Byddai cau'r holl ysgolion gwledig yn cael effaith ar y cymunedau hynny. Byddai angen cynllun lliniaru cynhwysfawr.
Model 6	• Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala • Cynllunio i ffedereiddio'r tair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn gyda'r CGO.	Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Cyfle i gryfhau'r ddarpariaeth addysg o fewn y cymunedau gwledig.
Model 7	• Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala • Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn • Cydweithio rhwng yr Ysgol Ardal Aml-safle 'r CGO.	Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Byddai presenoldeb safle ysgol yn parhau ymhob un o'r cymunedau gwledig
Model 8	• Cau ysgolion y Berwyn, Bro Tegid a Beuno Sant a chreu CGO ar safle presennol Ysgol y Berwyn yn y Bala • Cau ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle ar safleoedd presennol y dair ysgol wledig, sef ysgolion OM Edwards, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn • Cynllunio i ffedereiddio'r CGO a'r Ysgol Ardal Aml-safle wledig.	Dim newid arwyddocaol o ran effaith cymunedol oherwydd maint fychan tref Bala, mae cyfle i adleoli a datblygu nifer o weithgareddau cymunedol, ond bydd angen trafodaeth penodol ar leoliad darparu rhai elfennau i'r dyfodol. Byddai presenoldeb safle ysgol yn parhau ymhob un o'r cymunedau gwledig.

4. CASGLIADAU

Fel rhan o rai o'r modelau mae safleoedd presennol ysgolion Bro Tegid a Beuno Sant yn cael eu cau.

Dangosir o'r wybodaeth a gyflwynwyd bod ysgolion yn nhref Y Bala yn rhannu rhai cyfleusterau ac adnoddau yn barod, ac felly ni fydd unrhyw newid sylweddol nac effaith gymunedol niweidiol yn Y Bala oherwydd gall defnydd cymunedol ar gyfer Y Bala parhau ar safle presennol Ysgol Y Berwyn lle cynllunnir lleoli'r Campws Gydol Oes fel rhan o nifer y modelau.

Bydd cyfle yn ystod yr ymgynghoriad ar unrhyw gynnig i amlygu a thrafod yn llawn yr effaith ar ddarpariaeth a gynhelir ar safleoedd fydd yn cau er mwyn ceisio atebion a ffordd ymlaen. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd angen ystyriaeth i leoliad darpariaeth y Cylch Meithrin sydd yn cael ei ddarparu ar safle Ysgol Bro Tegid ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn trafod posibiliadau ail-leoli, all gynnwys parhau ar y safle presennol, ail-leoli i safle'r Campws Gydol Oes arfaethedig, neu symud i safle arall yn nhref Y Bala gyda chynrychiolwyr priodol.

Mae her a chyfle i'r ysgol a'r gymuned i ddatblygu ar y Campws Gydol Oes yn nhref y Bala a sicrhau fod y safle yn gweithredu fel hub ar gyfer nifer o anghenion nid yn unig i gymuned tref y Bala, ond ar gyfer holl gymunedau Penllyn. Mae elfennau penodol fel y llyfrgell a darpariaeth theatrig a sinematig yn medru cael eu hadnabod o fewn datblygiad y campws.

Fel rhan o'r modelau posib, nid oes unrhyw un o'r modelau dan ystyriaeth yn golygu fod unrhyw ysgol mewn cymuned wledig yn cau. Golyga hyn, nad oes unrhyw effaith ar gymunedau gwledig ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn na Ffridd y Llyn – sef pentrefi a chymunedau Llanuwchllyn, Frongoch, Llandderfel, Sarnau a Cefnddwysarn.

Mae cyfle o fewn y model o ffedereiddio ysgolion OM Edwards, Bro Tryweryn a Ffridd y Llyn i gryfhau'r ddarpariaeth addysgol yn y cymunedau gwledig i'r dyfodol. Yn ogystal, mae cyfleoedd cymunedol ehangach drwy'r Cydbwyllgor i gryfhau'r ddarpariaeth addysgol a hefyd yn gymunedol drwy'r Cydbwyllgor dalgylchol a gynigir

ADRODDIAD I'R CABINET
19 Chwefror 2015

Aelod(au) Cabinet: Cynghorydd Gareth Roberts a Cynghorydd Mair Rowlands

Pwnc: **Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2013/2014 - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

Swyddog cyswllt: Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol

Y penderfyniad a geisir

Gofynnir i Aelodau'r Cabinet:

- Rhoi ystyriaeth i'r camau sydd wedi eu hadnabod a'u cymryd i ymateb i gasgliadau ag argymhellion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a chynnig unrhyw sylw ychwanegol sydd angen i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Pennaethiaid Adran Oedolion Iechyd a Llesiant ac yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd eu hystyried.
- Derbyn yr adroddiad a rhoi sel bendith i'r rhaglen waith sy'n ymateb i argymhellion a meysydd gwella AGGCC.

Barn yr aelod lleol

Nid yw'n fater lleol.

Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth i'r Aelodau'r Cabinet parthed prif ganfyddiadau ag argymhellion Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru o berfformiad Cyngor Gwynedd o'u hadolygiad a gwerthusiad o berfformiad blynyddol Gwynedd 2013/14, yn ogystal â darparu gwybodaeth am gamau ymateb Cyngor Gwynedd ar gyfer 2014/15.

Cyd-destun, cefndir a phwrpas Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol AGGCC 2013-14

Cynhelir adolygiad a gwerthusiad o berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn flynyddol gan AGGCC. Bydd yr adroddiad adolygiad sydd yn deillio o'r gwaith yn nodi'r meysydd sydd wedi gwella a meysydd i'w gwella yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn dan sylw.

Fel rhan o'r broses bydd AGGCC yn rhoi ystyriaeth i ystod helaeth o ffynonellau tystiolaeth ar gael, gan gynnwys y trefniadau i gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol gyflwyno adroddiadau yn flynyddol am eu perfformiad, a chynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau. Ystyrir hefyd sylwadau archwilwyr ac arolygwyr eraill, yn ogystal â defnyddio gwaith rheoleiddio AGGCC eu hunain.

Cyflwynir copi o Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2013/2014 AGGCC ar gyfer Gwynedd fel **Atodiad 1**.

Rhesymau dros argymell y penderfyniad

i. AGGCC wedi adrodd yn adolygiad 2013/14 y gwelwyd gwelliant fesul tipyn yn y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013/14.
ii. AGGCC wedi adnabod meysydd penodol lle mae Gwynedd wedi sicrhau cynnydd ynddynt yn 2013/14
iii. AGGCC wedi adnabod meysydd sydd angen eu gwella i'r dyfodol.
iv. Bod cynllun ymateb / rhaglen waith eisoes yn ei le gan Gyngor Gwynedd a bod hwnnw wedi ei drafod ym Mhwyllgor Craffu Gwasanaethau Rhagfyr 2014 lle roedd swyddogion AGGCC yn bresennol er mwyn iddynt gyflwyno'r prif ganfyddiadau yn deillio o'u hadolygiad blynyddol.

Ystyriaethau perthnasol

Prif ganfyddiadau Adolygiad a Gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd 2013/14

Yn gryno, nododd yr AGGCC:

i. Gwelwyd gwelliant fesul tipyn yn y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013/14, gyda gwasanaethau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth yn y gwasanaethau i oedolion, gwelliant parhaus ym mherfformiad y gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

ii. Mae'r cyngor yn bwriadu gwneud arbedion sylweddol yn y gwasanaethau cymdeithasol erbyn 2017-18. Bydd hyn yn gofyn am newid cyflym ac mae'n rhoi pwysau sylweddol ar y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig y gwasanaethau i oedolion, i wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff gofal a chymorth ei gomisiynu a'i ddarparu.

iii. Mae'r cyngor wedi gwneud paratoadau i fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Mae'r cyngor wedi gwneud newidiadau i'w arweinyddiaeth o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, yn unol â chanllawiau statudol ynghylch rôl ac atebolrwydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.Serch hynny, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol o'r agenda gwasanaethau cymdeithasol.

iv. Mae gan y cyngor weledigaeth i gynllunio a datblygu gwasanaethau gyda'r gymuned a phartneriaid. Mae wedi amlinellu ei gynlluniau er mwyn

integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn y mae ganddynt anghenion cymhleth, gan roi pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar.

v. Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn rhoi adroddiad cynhwysfawr a manwl i'r dinasyddion ynghylch perfformiad y cyngor. Mae strwythur yr adroddiad yn nodi'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn creu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy sy'n diogelu'r rhai sy'n agored i niwed ac sy'n cyflawni'r gwelliant angenrheidiol.

Camau nesaf ag amserlen

Camau ymateb Cyngor Gwynedd (fesul materion a amlygwyd gan AGGCC)

Yn ogystal i adnabod meysydd penodol lle fo Gwynedd wedi sicrhau cynnydd yn 2013/14, mae AGGCC hefyd yn adnabod meysydd lle bo angen sicrhau gwelliant a chynnydd i'r dyfodol. Yn naturiol bydd yna ofyn a disgwyliad ar y Cyngor i fod yn cymryd camau gweithredol er mwyn ymateb i'r meysydd gwella yma.

I'r perwyl yma rydym eisoes wedi llunio templed camau ymateb yn 2014/15 â rhaglen waith fesul maes gwella a gyflwynir fel **Atodiad 2**. Mae y rhaglen waith yma hefyd yn cadarnhau ba gyfarfod(ydd) bydd y meysydd gwella yn cael eu hadrodd iddynt yn cynnwys timau rheoli adrannol, paneli cyflawni a phaneli cysylltiedig a chyfrifoldebau corfforaethol. Rydym yn chwilio am sel bendith y Cabinet i'r rhaglen waith yma.

Mae nifer helaeth o'r camau ymateb ar gyfer eleni wedi eu hymgorffori o fewn cynlluniau gweithredu 2014/15 maes gofal Cynllun Strategol Gwynedd, rhaglen waith y Panel Rhiantu Corfforaethol a'r Panel Strategol Diogelu. Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol dilynol y Cynllun Strategol (y cyfnod 2015-2017) hefyd yn ymateb i'r meysydd gwella strategol a'r meysydd risg a amlygwyd gan AGGCC.

Bydd angen sicrhau ymrwymiad llawn gan y Gwasanaethau perthnasol i fod yn darparu'r wybodaeth berthnasol yn rheolaidd er mwyn gallu monitro yn rheolaidd.

Cyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 11 Rhagfyr 2014

Ar gais gan AGGCC bu i'w uwch-swyddogion AGGCC fynychu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 11 Rhagfyr 2014 er mwyn cyflwyno ag amlinellu eu prif ganfyddiadau o'u hadolygiad blynyddol o berfformiad 2013/14 Gwynedd. Yn y pwyllgor, trafodwyd yn ogystal camau ymateb / rhaglen waith Cyngor Gwynedd i'r meysydd gwella sydd wedi eu hadnabod gan AGGCC.

Penderfyniad y Pwyllgor Craffu oedd derbyn a nodi cynnwys yr adolygiad gan AGGCC ac y rhaglen waith ymatebol ac gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol gyflwyno diweddariad ar y rhaglen waith erbyn Mis Mawrth 2015. Bydd adroddiad cynnydd yn mynd gerbron Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 16 Ebrill 2015.

Cyflwynir y prif adborth a'r pwyntiau a godwyd ym Mhwyllgor Craffu Gwasanaethau 11 Rhagfyr 2014 yn **Atodiad 3**.

Atodiadau

1. Atodiad 1 - Adolygiad a Gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd 2013-14
2. Atodiad 2 - Templed camau ymateb Gwynedd yn 2014/15 i feysydd angen gwella fel y adnabuwyd yn adolygiad blynyddol AGGCC 2013/14.
3. Atodiad 3 - y prif adborth a'r pwyntiau a godwyd ym Mhwyllgor Craffu Gwasanaethau 11 Rhagfyr 2014.

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

"Mae materion fel hyn o'r pwys mwyaf gan eu bod yn ymwneud a'r modd yr ydym fel Cyngor yn delio a rhai o'n trigolion mwyaf bregus. Mae'n bwysig eithriadol felly bod y Cabinet yn gwyntyllu unrhyw bryderon sydd am drefniadau presennol y Cyngor ac yn bodloni ei hun bod y cynigion i wella yn ddigonol ac yn gyraeddadwy."

Y Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad ynglyn ac ystod o gyfrifoldebau statudol. Mae'n bwysig felly fod y Cabinet yn rhoi sylw manwl i adroddiad yr Arolygaeth ynghyd a'r camau mewn ymateb wrth ddod i gasgliad ar yr argymhellion."

Y Pennaeth Cyllid:

"Mae'r Adolygiad yma'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo rhaglen waith sy'n ymateb i argymhellion AGGCC. Derbyniais sicrwydd nad oes camau yn y rhaglen waith sydd heb adnodd priodol mewn lle ar ei gyfer - naill ai yng nghyllideb sylfaenol yr Adran, neu arian un-tro wedi'i neilltuo yn y Cynllun Strategol.

Yn wyneb sefyllfa ariannol cyfredol awdurdodau lleol, dylai'r Arolygiaeth gydnabod y bydd rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fel pob adran arall, addasu i wneud mwy am gost llai dros y blynyddoedd nesaf."

AGGCC
CSSIW

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013–14

Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd

Hydref 2014

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2013–14

ISBN digidol 978 1 4734 2348 0
© Hawlfraint y Goron 2014
WG23296

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2013 - 2014

Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwynedd

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2013 - 14 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd, a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Gwelwyd gwelliant fesul tipyn yn y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd yn ystod 2013-14, gyda gwasanaethau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth yn y gwasanaethau i oedolion, gwelliant parhaus ym mherfformiad y gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r cyngor yn bwriadu gwneud arbedion sylweddol yn y gwasanaethau cymdeithasol erbyn 2017-18. Bydd hyn yn gofyn am newid cyflym ac mae'n rhoi pwysau sylweddol ar y gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig y gwasanaethau i oedolion, i wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff gofal a chymorth ei gomisiynu a'i ddarparu.

Mae'r cyngor wedi gwneud paratoadau i fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Mae'r cyngor wedi gwneud newidiadau i'w arweinyddiaeth o fewn y gwasanaethau cymdeithasol, yn unol â chanllawiau statudol ynghylch rôl ac atebolrwydd y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol. Serch hynny, mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau perchnogaeth gorfforaethol o'r agenda gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gan y cyngor weledigaeth i gynllunio a datblygu gwasanaethau gyda'r gymuned a phartneriaid. Mae wedi amlinellu ei gynlluniau er mwyn integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn y mae ganddynt anghenion cymhleth, gan roi pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar.

Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn rhoi adroddiad cynhwysfawr a manwl i'r dinasyddion ynghylch perfformiad y cyngor. Mae strwythur yr adroddiad yn nodi'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn creu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy sy'n diogelu'r rhai sy'n agored i niwed ac sy'n cyflawni'r gwelliant angenrheidiol.

Yr ymateb i feysydd i'w gwella y llynedd

Y maes i'w wella a nodwyd y llynedd	Cynnydd yn ystod 2013 – 14
Cynnal momentwm wrth ail-lunio gwasanaethau preswyl i bobl hŷn.	Mae'r gwasanaeth wedi datblygu fesul tipyn mewn ffordd barhaus.
Rhagweld y galw am gymorth	Ceir gwybodaeth gadarn sy'n rhagweld

cymunedol.	y galw am y gwasanaeth.
Datblygu amrediad y gwasanaethau yn y gymuned o fewn gwasanaethau oedolion a phlant.	Datblygwyd gwasanaethau newydd ym maes gwasanaethau oedolion a phlant.
Sicrhau bod gwasanaethau yn hyrwyddo annibyniaeth i bobl hŷn.	Ceir defnydd cynyddol o alluogi, teleofal a thaliadau uniongyrchol.
Sicrhau adolygiadau amserol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn unol â chanllawiau statudol.	Gwelliant sylweddol yn y perfformiad, ond mae'n parhau i fod ychydig yn is na'r perfformiad cyfartalog yng Nghymru.
Gwella'r broses o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.	Gwelliant sylweddol mewn perfformiad ac mae bellach yn uwch na'r perfformiad cyfartalog yng Nghymru.
Sicrhau mewnbwn iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.	Ychydig welliant, ond mae'r perfformiad yn parhau i fod lawer yn is na'r perfformiad cyfartalog yng Nghymru.
Sefydlu system sicrhau ansawdd o fewn y gwasanaethau i oedolion.	Nid oes system gynhwysfawr er mwyn sicrhau ansawdd wedi cael ei datblygu eto.
Sicrhau trefniadau rheolaidd a chyson er mwyn goruchwylio staff.	Adolygwyd polisi a chanllawiau a gwnaethpwyd trefniadau monitro.
Sicrhau bod perthnasoedd priodol, protocolau a chyngor proffesiynol yn cynorthwyo'r cyfarwyddwr statudol.	Sefydlwyd strwythur newydd. Bydd y cyngor yn gweithio ar brotocolau ac yn eu cymeradwyo.
Gweithredu'r polisi diogelu corfforaethol.	Sefydlwyd llywodraethu, strwythur a pholisïau diogelu corfforaethol newydd. Nid yw'r effeithiolrwydd a'r effaith wedi cael eu gwerthuso eto.
Codi proffil cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ymhlith aelodau.	Mae angen ei ddatblygu ymhellach. Mae'r cyngor yn cryfhau cyfrifoldebau trwy gyfrwng 'addunedau' i blant sy'n derbyn gofal.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

- Ymweliad Safle - Cynllun Lleoli Oedolion.
- Arolygiad cenedlaethol o ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, sy'n dangos ymddygiad agored i niwed neu beryglus Ionawr i Fai 2014 ('arolygiad plant sy'n derbyn gofal').

- Adolygiad blynyddol o'r defnydd o Drefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yng Nghymru 2014.

Mae AGGCC wedi llwyddo i gynnal ei rhaglen arolygiadau wedi'u trefnu y brif ffrwd ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n gweithredu yn ardal Gwynedd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu chwarterol gydag uwch-swyddogion y cyngor sy'n adolygu perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol.

Meysydd y bydd AGGCC yn ymateb iddynt flwyddyn nesaf

- Y rhaglen newid ar gyfer y gwasanaethau i oedolion.
- Cynllunio gofal a chymorth gwaith cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Gweithrediad argymhellion yn dilyn yr adolygiad achos difrifol a'r adolygiad dynladdiadau domestig.
- Yn ogystal, bydd AGGCC yn cyfrannu at adolygiad a arweinir gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) a fydd yn ystyried a yw cynghorau yn rhoi cymorth effeithiol i bobl hŷn i fyw bywydau annibynnol, gan gynnwys trwy gyfrwng gwaith cydgysylltiedig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynnydd wrth weithredu proses sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

Perfformiad

Llunio gwasanaethau

Oedolion

Mae gan y cyngor strategaethau comisiynu mewn grym a bydd y rhain yn cael eu diweddaru. Mae'r cyngor wedi ystyried goblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar gyfer Gwynedd, ac mae wedi rhoi hyfforddiant i'w staff ynghylch y goblygiadau. Mae'r cyfarwyddwr wedi disgrifio ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd i bartneriaid ac i'r gymuned, sy'n rhoi sylw i sialensiau ariannol a gofynion y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys datblygu gwasanaethau ataliol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, ac sy'n cael eu cynllunio, eu datblygu a'u gwerthuso gan ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd, gofalwyr a chymunedau. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn dod yn hollbwysig i'r ystyriaethau ynghylch gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd ac mae'r cyngor wedi gwneud paratoadau er mwyn cyflawni ei gofynion.

Yn unol â dull gweithredu strategol y cyngor, “Ffordd Gwynedd”, nod y cyngor yw gwella'r gwaith a wneir mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB), a'r trydydd sector. Mae'r cyngor wedi cyfrannu at yr agenda cydweithio ranbarthol ac mae'n ymgysylltu yn fwy gyda rhanddeiliaid a phartneriaid. Mae'r cyngor yn cydnabod y gallai'r berthynas gyda'r canolbwynt comisiynu fod yn fwy effeithiol, ac mae'r Cyfarwyddwr bellach yn gadeirydd y

bwrdd rheoli ar gyfer y Canolbwynt Comisiynu.

Mae'r cyngor wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau newydd i oedolion hŷn ac oedolion sydd ag anableddau dysgu.

- Mae'r gwaith adeiladu wedi cychwyn ym Mhant yr Eithin, Harlech ar saith uned i bobl sydd ag anableddau dysgu.
- Bydd uned tai gofal ychwanegol i 40 yn agor ym Mangor yn 2014-15.
- Mae'r gwaith yn symud yn ei flaen ar y datblygiad tai gofal ychwanegol ym Mhorthmadog.

Mae'r cyngor yn bwriadu arbed £6,206,000 yn y gwasanaethau i oedolion erbyn 2017-18, gan ostwng y gyllideb o £40,571,000 (yn ystod 2014-15) i £34,365,000. Bydd y cyngor yn cynnal adolygiad o un pen i'r llall yn y gwasanaethau i oedolion yn ystod 2014-15.

Yn dilyn yr adolygiad, disgwylir i'r cyngor gyhoeddi ei strategaeth llety ar gyfer pobl hŷn yn ystod 2014-15, gan nodi'r cynllun ar gyfer cartrefi'r cyngor a'i waith gyda darparwyr. Yn ystod 2014-15 hefyd, bydd y cyngor yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid ynghylch datblygiad y gwasanaethau preswyl a'r gwasanaethau gofal dydd ar gyfer y rhai sydd ag anableddau dysgu, a leolir yng Nghaernarfon.

Mae gan y cyngor un o'r cyfraddau isaf ar gyfer cynorthwyo pobl hŷn yn y gymuned (46.2 o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 74.5); ac un o'r cyfraddau uchaf o ran cynorthwyo pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru (25.6 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sef 19.8 – mae pob ffigur fesul 1000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn). Mae pobl yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor nag y maent mewn cynghorau eraill yng Nghymru. Nod y cyngor yw defnyddio llai o ofal preswyl cyn penderfynu ar gyfeiriad ei strategaeth pobl hŷn yn y dyfodol.

Mae'r datblygiadau ym maes gwasanaethau i oedolion yn gymhleth a disgwylir i newid arwain at arbedion ariannol sylweddol. Mae'r cyngor wedi sefydlu dull gweithredu o reoli rhaglen a bydd angen iddo gynnal trosolwg o'r sefyllfa sy'n datblygu, gan reoli'r disgwyliadau a'r risgiau cysylltiedig. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwerthuso a oes gan y cyngor ddulliau gweithredu cadarn er mwyn rheoli'r cyfyngiadau i'r gyllideb. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn rhoi sylw iddo yn ystod 2014-15.

Mae Tîm Trawsnewid Integredig sy'n cynnwys uwch-swyddogion o BCUHB, y gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r trydydd sector wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu trefniadau gweithio integredig. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r datblygiadau:

- gwasanaeth rhyddhau gwaith cymdeithasol a'r gwasanaeth ffisiotherapydd yn gweithio ar benwythnosau, gan gynyddu'r gallu i ymateb saith diwrnod yr wythnos;
- adolygiad gan y gwasanaeth fferyllol o feddyginiaeth sy'n achosi perygl mawr yn y gymuned;
- datblygiad y fforwm sirol; a

- secondiad uwch-gyflogai o BCUHB er mwyn cynorthwyo'r gweithgarwch integreiddio a nodi rhwystrau ac ysgogiadau allweddol.

Ceir cynlluniau pellach i wella gwaith integredig trwy gydleoli staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gwella'r cyfathrebu rhwng systemau technoleg gwybodaeth. Mae'r datblygiadau hyn yn bwysig er mwyn gwella effeithiolrwydd ac er mwyn casglu gwybodaeth i gyfrannu at waith cynllunio yn y dyfodol.

Plant

Roedd yr adolygiad o un pen i'r llall o'r gwasanaethau plant yn 2013-14 yn nodi'r angen i wella gwasanaethau ataliol ac i ostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r adolygiad wedi cynnwys pennaeth y gwasanaeth y codir tâl amdano, aelodau'r tîm arwain corfforaethol a staff gwasanaethau cymdeithasol. Ni chafodd rhanddeiliaid pwysig eraill eu cynnwys yn y broses adolygu, ac roedd hwn yn gyfle a gollwyd i hyrwyddo mwy o gydweithio. Mae'r cyngor wedi datblygu cynlluniau i roi sylw i'r gwelliannau sydd eu hangen mewn gwasanaethau yn ystod 2014/15.

Nid yw systemau'r cyngor yn cipio proffil o boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal yn rheolaidd, a'u hanghenion a aseswyd. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol os yw'r awdurdod yn mynd i werthuso effeithiolrwydd ei strategaethau lleoli a pharhad, a rhagweld yr angen am adnoddau yn y dyfodol. Gallai'r wybodaeth a gyflwynir i baneli amrywiol gyfrannu at broffil manwl o'r angen a welir.

Canfu arolygiad cenedlaethol AGGCC a gynhaliwyd yn ddiweddar bod y gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn parhau i fod yn rhy ddibynnol ar wasanaethau cymdeithasol i blant er mwyn darparu, ariannu a darparu adnoddau er mwyn asesu a bodloni anghenion therapiwtig. Mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn rhan o BCUHB ac nid yw'n monitro'r gwasanaeth therapiwtig ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n cael eu lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod, oni bai eu bod wedi gwneud cyfraniad ariannol tuag at y lleoliad.

Meysydd o gynnydd

- Datblygu gwasanaethau gyda BCUHB.
- Cynllunio gwasanaeth yn y gwasanaethau i blant.

Meysydd i'w gwella

- Cynllunio strategol gyda BCUHB mewn gwasanaethau i oedolion.
- Cynllunio strategol gyda BCUHB yn CAMHS.
- Defnyddio gwybodaeth gan baneli plant sy'n derbyn gofal er mwyn disgrifio tueddiadau ac anghenion y boblogaeth.

Cael help

Oedolion

Mae'r cyngor yn cynnal llwybrau gofal hygyrch gan dîm cyngor ac asesu sy'n gallu darparu gwybodaeth am adnoddau yn y gymuned mewn ffordd hwylus. Bellach, mae gweithiwr cymdeithasol yn gweithio yn yr ysbyty saith diwrnod yr wythnos yn trefnu gofal yn y gymuned ac yn hyrwyddo annibyniaeth i bobl sy'n cael eu rhyddhau.

Mae'r cyngor yn darparu gwybodaeth sylfaenol am ei wasanaethau ar ffurf copi caled ac ar-lein. Ceir enghreifftiau o wybodaeth hygyrch ynghylch gwasanaethau megis y gwasanaeth lleoli oedolion, sy'n cynnwys DVD sy'n disgrifio persbectif y defnyddiwr.

Ym mis Rhagfyr 2013, comisiynodd y cyngor ymgynghorydd allanol i weithio gyda swyddogion y cyngor er mwyn adolygu'r arfer ym maes rheoli gofal ac asesu oedolion. Canfu'r adolygiad bod yr arfer yn ymatebol, yn gadarn a bod trothwyon yn cael eu gweithredu mewn ffordd briodol. Canfu nad yw'r defnydd o ganlyniadau a gwaith amlddisgyblaethol wedi cael ei ddatblygu ddigon ac y byddai'r asesiadau gwaith cymdeithasol yn cael budd o weld mwy o ffocws yn cael ei roi gryfderau a galluoedd y defnyddwyr, yn ogystal â'u hangen. Er nad oedd digon o sylwedd yn yr asesiadau, roedd y cynlluniau gofal yn fwy manwl, gan arwain at yr adnoddau priodol yn cael eu defnyddio er mwyn bodloni anghenion. Gwelwyd angen a nodwyd i wella darpariaeth amserol gwasanaeth offer a chynnal a chadw syml yng nghartrefi pobl.

Mae perfformiad y cyngor wrth adolygu cynlluniau gofal wedi parhau i wella dros y blynyddoedd diwethaf, ac erbyn hyn, mae'n 85.3%, ac yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 81.1%. Yn ogystal, llwyddodd y cyngor i berfformio'n dda mewn perthynas â'r cyfartaledd yng Nghymru wrth osgoi oedi cyn rhyddhau o'r ysbyty. Roedd nifer y gofalwyr a aseswyd ac y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer wedi codi o 167 i 234 yn 2013-14, a chanfu adolygiad o'r gwasanaethau i oedolion bod asesiadau gofalwyr priodol yn cael eu cynnal fodd bynnag.

Plant

Mae'r dangosyddion perfformiad o fewn gwasanaethau plant yn awgrymu prosesau ac arfer gwell wrth reoli cyfeiriadau ac asesiadau. Yn ystod 2013-14, roedd y gwasanaethau plant wedi cael 180 yn llai o gyfeiriadau, a gwnaethpwyd penderfyniad ynghylch 99.3% o'r cyfeiriadau cyn pen diwrnod. O flwyddyn i flwyddyn, mae canran gynyddol o gyfeiriadau wedi cael eu neilltuo i weithiwr cymdeithasol er mwyn cynnal asesiad cychwynnol, ac mae'r cyngor yn dangos cyfartaledd sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn ogystal, gwelwyd gostyngiad yng nghanran y plant sy'n cael eu hailgyfeirio o 39% yn 2011-12 i 26.6% yn 2013-14; fodd bynnag, mae'r ganran hon yn parhau i fod yn uwch na'r ganran gyfartalog yng Nghymru ac mae'n faes y mae angen gwneud gwelliant parhaus ynddo. Cynhaliwyd llai o asesiadau craidd a llwyddwyd i gwblhau canran uwch o fewn yr amserlenni. Mae angen gwella canran yr asesiadau cychwynnol sy'n cael eu cwblhau cyn pen saith diwrnod; yn 2013-

14, llwyddodd y cyngor i gwblhau 67% o asesiadau cychwynnol cyn pen saith diwrnod gwaith, o'i gymharu gyda chanran gyfartalog o 72% yng Nghymru.

Canfu'r arolygiad cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal ei bod yn ymddangos bod prosesau cyfeirio a rhannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol wedi cael eu hymgorffori yn dda. Mae perthnasoedd gweithredol rhwng timau ac asiantaethau partner yn cynorthwyo cyfathrebu amserol. Mae gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch nodweddion agored i niwed ac ymddygiad peryglus a welir.

Mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn rhaglen hyfforddi ar gyfer y staff, er mwyn cynorthwyo'r defnydd o'i offeryn model risg. Caiff ei ddefnyddio yn dda mewn perthynas ag achosion plant mewn angen ac amddiffyn plant. Fodd bynnag, mae angen ei ymgorffori ymhellach ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymddygiad 'o gymryd risgiau'.
O ganlyniad i ymdrech sylweddol, mae'r cyngor wedi gwella ei berfformiad o ran amseroldeb yr adolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Adroddodd arolygiad LAC bod pobl ifanc yn dweud eu bod yn cael eu hannog i fynychu eu hadolygiadau a bod eiriolaeth ar gael. Canfu'r arolygiad bod ansawdd y cynlluniau gofal yn amrywio, a bod angen diweddaru hyn yn ystod gwaith asesu dilynol. Roedd hi'n anodd cael darlun o'r plentyn a thaith y plentyn o ddarllen y cynllun gofal. Canfu'r arolygiad bod yr adolygiadau yn canolbwyntio ormod ar ddigwyddiadau yn y presennol ac nid ar y canlyniadau ar gyfer yr hirdymor. Soniodd pobl ifanc am gryn rwystredigaeth ynghylch y diffyg eglurder o ran awdurdod dirprwyedig mewn materion megis caniatâd i fynd ar deithiau ysgol, aros dros nos ac ati. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn rhoi sylw iddo.

Nid oedd rhai o'r bobl ifanc a welwyd yn ymwybodol o'r gwasanaeth eiriolaeth ac mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth eiriolaeth yn isel, a nodwyd bod y dull gweithredu wedi'i seilio ar faterion a diffyg eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhwystrau.

Cyfeiriodd adroddiad Arolygiad LAC at rywfaint o gydweithredu corfforaethol da er mwyn gwella'r cyfleoedd i bobl ifanc sy'n derbyn gofal i fanteisio ar weithgareddau hamdden a chwaraeon.

Meysydd o gynnydd

- Adolygiadau yn y gwasanaethau i oedolion.
- Arfer mwy pwrpasol wrth reoli cyfeiriadau ac asesiadau yn y gwasanaethau plant.

Meysydd i'w gwella

- Amseroldeb gwaith asesu cychwynnol yn y gwasanaethau plant.
- Gwelliant parhaus er mwyn gostwng nifer y plant sy'n cael eu hailgyfeirio.
- Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth.

Y gwasanaethau a ddarparwyd

Oedolion

Mae “Mwy na geiriau” yn fframwaith strategol gan Lywodraeth Cymru ynghylch defnydd o'r iaith Gymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Fe'i ddatblygwyd er mwyn cryfhau gwasanaethau rheng flaen. Cyfrannodd cyngor Gwynedd at grŵp gorchwyl "Mwy na geiriau" a wnaeth lunio'r fframwaith. Yn 2014, enillodd y cyngor ddwy wobr yng Nghynhadledd Geiriau ar Waith Llywodraeth Cymru. Mae'r cyngor yn cael budd o'r ffaith mai Cymraeg yw ei iaith weinyddol.

Yn ei weithrediad o'r strategaeth, mae'r cyngor wedi sefydlu tasglu trawsadrannol sy'n ymateb i ofynion y fframwaith. Comisiynodd y cyngor arolwg o'i ofynion iaith, gan ystyried y wybodaeth sydd ar gael. Yng ngoleuni'r gwaith hwn, mae'r cyngor wedi gwella ei gontract a'i drefniadau er mwyn monitro contractau. Mae'r cyngor yn bwriadu cryfhau ei allu i fodloni anghenion ieithyddol trwy weithredu ei system electronig newydd er mwyn rheoli achosion, a fydd yn cychwyn yn 2016. Mae'r cyngor yn nodi y bydd y wybodaeth a gesglir wrth weithredu'r strategaeth hon yn cyfrannu at ei brosesau cynllunio a chomisiynu ehangach.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i'r cam o hyrwyddo annibyniaeth i bobl. Yn ystod 2013-14, darparodd y cyngor 462 o becynnau ailalluogi. Canfu adolygiad gan y cyngor o'r gwasanaeth ailalluogi bod angen pecynnau cymorth parhaus ar lai na hanner ohonynt, ac mai dim ond chwe y cant yr oedd angen cymorth pellach arnynt cyn pen dwy flynedd. O blith y rhai a gafodd eu cynorthwyo yn uned breswyl y cyngor ar gyfer pobl sy'n gwella yn dilyn cyfnod o salwch, roedd dros dri chwarter ohonynt wedi dychwelyd gartref. Caiff annibyniaeth ei hyrwyddo trwy ddefnyddio technoleg newydd, a darparwyd tua 500 o becynnau teleofal yn ystod 2013-14. Bellach, defnyddir teleofal ar draws gwasanaethau i oedolion, gan gynnwys 35 o becynnau gofal i unigolion sydd ag anableddau dysgu.

Mae'r cyngor yn cynnal cynllun lleoli oedolion a reolir yn dda, ac sy'n gwrando ar lais y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, ac mae'r rhain o'r farn bod eu safbwyntiau yn cael eu gwerthfawrogi. Rhoddwyd cydnabyddiaeth genedlaethol i'r gwasanaeth ym mis Hydref 2013, pan gafodd y rheolwr Wobr Aur Fforwm Gofal Cymru mewn Arfer Blaenllaw ym maes Rheolaeth Gofal Cymdeithasol. Yn ogystal, cafodd staff yn y gwasanaeth wobrau efydd ac aur yng nghategori Hyrwyddo Bywydau Bodlon.

Roedd yr arolygiad a gynhaliwyd gan AGGCC yn ddiweddar o wasanaeth gofal cartref y cyngor yn gadarnhaol ar y cyfan a soniodd pobl a fu'n cymryd rhan yn yr arolygiad mewn ffordd gadarnhaol am yr ansawdd a'r gwasanaeth a ddarparwyd. Mae'r cyngor yn darparu cyfran sylweddol o'i ofal cartref.

Plant

Mae'r cyngor wedi datblygu ei wasanaethau ar gyfer pobl ifanc, plant a theuluoedd.

- Mae cyngor Gwynedd yn rhedeg un o'r tair rhaglen arloesi "Pan fydda i'n Barod" ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, a wnaeth gychwyn ym mis Ebrill 2013. Mae'r cynllun yn ymestyn hyd lleoliadau, gan helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i hyfforddi neu i gael cymwysterau.
- Mae cynllun Gyda'n Gilydd wedi datblygu er mwyn cynorthwyo dros 250 o deuluoedd cyn iddynt gyrraedd yr angen am gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol.
- Bydd y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) yn canolbwyntio ar deuluoedd lle y gwelir problemau alcohol, cyffuriau neu'r ddau ymhlith y rhieni, er mwyn diogelu'r plant y maent yn eu gofal. Datblygwyd tîm aml-asiantaeth IFSS ar y cyd ag Ynys Môn, ac roedd yn weithredol yn ystod 2014-15.

Nododd yr arolygiad cenedlaethol o LAC yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal i fanteisio ar wasanaethau iechyd sylfaenol a llety camu ymlaen. Fel rhan o'i gyfrifoldebau rhianta corfforaethol, dylai'r cyngor sicrhau bod modd i'r plant y mae'n gofalu amdanynt ddefnyddio gofal iechyd sylfaenol. Gwelwyd y perfformiad ar gyfer cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod yn gostwng o 92.5% yn 2012-13 i 78.4% yn 2013-14. Er bod canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella 15% i 46%, mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%.

Mae pobl ifanc yn teimlo'n gadarnhaol am y perthnasoedd rhyngddyn nhw a gweithwyr cymdeithasol yn y gwasanaeth dros 16 oed, ac mae hyn mewn cyferbyniad gyda'r perthnasoedd anghyson rhwng plant a'u gweithwyr cymdeithasol mewn timau eraill. Yn ogystal, amlygodd pobl ifanc yr effaith sylweddol yr oedd newidiadau o ran gweithwyr cymdeithasol a lleoliadau wedi eu cael ar eu gallu i ffurfio perthnasoedd o ymddiriedaeth.

Canfu arolygiad AGGCC o wasanaethau maethu bod gan blant a phobl ifanc leoliadau diogel lle y bodlonir eu hanghenion. Mae gan blant lais a chyfleoedd i ddweud eu dweud, ac mae modd iddynt gael dylanwad ar y ffordd y darparir y gwasanaeth. Canfu arolygiad AGGCC o Ddrws y Nant, sef y cartref plant a gomisiynir gan y cyngor, ymdeimlad cryf iawn o ofal sy'n canolbwyntio ar y person, lle y nododd pobl ifanc bod pobl yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.
Fodd bynnag, bu'r arolygiad o blant sy'n derbyn gofal yn ystyried pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, a chanfu nad yw amrediad y lleoliadau sydd ar gael yn ddigonol er mwyn bodloni anghenion cymhleth rhai pobl ifanc ac nad yw gweithgarwch priodol er mwyn "cyfateb" anghenion gyda sgiliau gofalwyr maeth bob amser yn digwydd. Mae'r cyngor yn gweithio i gynyddu amrediad y gofalwyr maeth mewnol er mwyn bodloni'r angen hwn.

Mae'r cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w broses gwyno a'r trosolwg corfforaethol o gwynion. Mae dysgu gan gwynion a'u defnyddio er mwyn gwella gwasanaethau yn thema bwysig o fewn “Ffordd Gwynedd” a materion strategol,

ac mae'r cyfarwyddwr corfforaethol bellach yn ystyried yr holl ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon. Ceir enghreifftiau o gwynion a oedd yn cynnwys y sawl a oedd yn cwyno yn nodi gwelliannau a datrysiadau, ond mae angen gwella cysondeb a'r broses o reoli cwynion ymhellach. Mae'r cyngor yn bwriadu gwella'r gwasanaeth, gan ymateb i ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli cwynion.

Ceir pwyslais cynyddol ar y dewis personol a'r annibyniaeth a gynigir gan daliadau uniongyrchol. Gwelwyd y nifer sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol yn codi yn ystod 2013-14 wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae angen parhau'r gwelliant hwn. Dysgodd yr adran gan gwynion a wnaethpwyd am y gwasanaeth, wrth i nifer o deuluoedd adrodd am brofiadau anffafriol. Yn ogystal, canfu adroddiad archwilio mewnol nad oedd modd i'r cyngor deimlo'n hyderus ynghylch y trefniadau ar gyfer taliadau uniongyrchol. Mae cynllun corfforaethol y cyngor yn disgrifio'r angen am ymateb gwell wrth gynorthwyo taliadau uniongyrchol, a bydd y cyngor yn adolygu'r gweithdrefnau perthnasol.

Meysydd o gynnydd

- Mwy o amrediad o ran y gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd.

Meysydd i'w gwella

- Cysondeb wrth ymateb i gwynion.
- Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Yr effaith ar fywydau pobl

Oedolion

